



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau



Chwefror 2021

Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd



Ar adeg arferol, mae'n hollbwysig cael llywodraeth leol sy'n cael ei chefnogi a'i grymuso er mwyn darparu gwasanaethau lleol a chenedlaethol i gymunedau Cymru. Pan fo argyfwng, mae'n cefnogi'r rhai mewn angen dybryd ac yn dod â chymunedau ynghyd i ymateb mewn ffordd gydgysylltiedig. Drwy gydol pandemig y coronafeirws, rydym wedi gweld y gallwn ddibynnu ar lywodraeth leol, nid yn unig i gynnal gwasanaethau rheng flaen a gwneud penderfyniadau anodd yn eu cylch, ond hefyd i ymaddasu'n gyflym a derbyn heriau newydd.

Rydym yn rhoi rôl ganolog i lywodraeth leol yn y gwaith o sicrhau ymatebion allweddol i COVID-19 megis gwarchod, tai ar gyfer pobl ddigartref, cymorth i fusnesau a threfniadau Profi, Orlhain, Diogelu. Gwnaethom wrando ar y problemau o ran cyllid yn y byrdymor drwy ddarparu £500 miliwn o gyllid ychwanegol i ymateb i'r pwysau eithriadol. Addaswyd agweddau ar lywodraeth leol er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl i benderfyniadau gael eu gwneud mewn ffordd wahanol. Gwnaethom hyn oll mewn cydweithrediad agos tra roeddem hefyd yn mynd drwy ymadawiad y DU â'r UE a chryn ansicrwydd ynghylch ein cydberthnasau'n fyd-eang yn y dyfodol.

Ni all llywodraeth leol yng Nghymru wneud yr holl bethau y mae'n eu gwneud ar adeg arferol, nac ar adeg eithriadol, heb system gyllido gadarn wrth ei gwraidd – fframwaith sy'n dosbarthu biliynau o bunnau ac sy'n arddel egwyddorion cadarn tegwch ac atebolrwydd i lywodraethu'r defnydd a wneir o'r cyllid hwnnw. Ond dylai elfennau o'r system hefyd gael eu defnyddio, lle y bo modd, i fynd i'r afael â thlodi, sicrhau mwy o degwch ac ailddosbarthu cyfoeth ar lefelau lleol. Rhaid inni gofio hefyd fod y system gyllido nid yn unig yn cynnal prif gynghorau, ond cyrff eraill hefyd, megis Gwasanaethau Tân ac Achub, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, Cynghorau Cymuned a Thref, strwythurau Bargeinion Dinesig a Thwf a phartneriaethau rhanbarthol eraill.

Yn **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021**, gwnaeth Llywodraeth Cymru nifer o ymrwymïadau i adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer cyllid llywodraeth leol. Cydnabuom fod angen gwneud gwelliannau ac ystyried syniadau mwy radical. Mae llawer o'r fframweithiau cyfreithiol yn rhagddyddio datganoli ac mae angen eu moderneiddio. Mae rhannau o'r system yn cyffwrdd â gallu Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i greu newid hanfodol sy'n diwallu ein hanghenion orau. Wrth inni gyflwyno diwygiadau ehangach i lywodraeth leol ac wynebu ansefydlogrwydd economaidd, anghydraddoldeb ac argyfwng newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd, mae angen adolygu'r trefniadau er mwyn sicrhau bod ein cymunedau yn parhau'n gadarn.

Mae Pennod 2 yn amlinellu ein cyflawniadau ers 2016 a oedd yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau ar y pryd. Ochr yn ochr â'r gwelliannau graddol hyn, rydym wedi dechrau ar archwiliad o ddiwygiadau posibl i'w hystyried yn y tymor hwy. Mae'r syniadau'n canolbwyntio ar fathau amgen o drethiant lleol gan mai'r rhain yw'r elfennau sy'n ennyn llawer o'r drafodaeth. Mae'n bleser gennyf ddwyn y canfyddiadau ynghyd yn y ddogfen hon ac rwy'n ddiolchgar i'r rhai a gymerodd ran mewn unrhyw agwedd ar y rhaglen. Mae'r canfyddiadau i bawb eu hystyried. Mae'r corff hwn o ymchwil yn rhoi sylfaen gadarn i lywio cynigion dros dymor y Senedd nesaf.

Rebecca Evans

Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Tabl Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd	2
1. Cyflwyniad.....	5
2. Ein cyflawniadau 2016-2021	7
3. Amcanion, gofynion a chyfaddawdau	8
Amcanion	8
Cyfaddawdu rhwng anghenion y system	9
Agweddau'r cyhoedd tuag at drethi lleol.....	9
Deddfwriaeth a datganoli.....	10
Atebolrwydd lleol	11
Moderneiddio digidol	11
4. Ein Rhaglen Ymchwil	14
Hanes o Draford	16
5. Treth Gwerth Tir Leol	18
Beth yw treth gwerth tir?	18
Ymchwil Prifysgol Bangor	19
Ymchwil arall i dreth gwerth tir.....	25
Yr hyn a ddysgwyd gennym.....	27
6. Trethi Lleol yn seiliedig ar Incwm.....	30
Beth yw treth incwm leol?	30
Ymchwil gan Jennie Bunt.....	31
Ymchwil nodedig arall	37
Yr hyn a ddysgwyd gennym.....	38
7. Diwygio'r Dreth Gyngor	42
Manteision a Chyfyngiadau'r Dreth Gyngor	42
Ymchwil y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.....	45
Ymchwil Prifysgol Sheffield.....	55
Diwygiadau posibl eraill.....	59
Dulliau prisio ar gyfer Anheddau Domestig	62
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	65

Yr hyn a ddysgwyd gennym.....	73
8. Diwygio Ardrethi Annomestig	77
Manteision a chyfyngiadau Ardrethi Annomestig	77
Ailbrisio ac Apeliadau	79
Cyfraddau Treth a Lleoliaeth	83
Cynlluniau rhyddhad.....	88
Diwygiadau posibl eraill.....	94
Yr hyn a ddysgwyd gennym.....	96
9. Crynodeb o'r Canfyddiadau.....	100
Atodiad 1. Agweddau'r Cyhoedd tuag at Drethi Lleol.....	108
Atodiad 2. Y System Gyfredol	111

1. Cyflwyniad

Ym mis Ionawr 2017, [amlinellodd](#) Llywodraeth Cymru sut y byddai'n ystyried diwygiadau i gyllid llywodraeth leol yng Nghymru mewn ffordd reoledig fesul cam dros y tymor hwn o bum mlynedd. Ers hynny, rydym wedi [cyhoeddi diweddariadau](#) bob blwyddyn ar y cynnydd a wnaed gennym. Wrth gyflwyno'r rhaglen ac ymateb i'r heriau sydd wedi codi yn ystod tymor y llywodraeth hon, rydym wedi dysgu cryn dipyn am y system bresennol a'r gofynion ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi mwy o ffocws ar rôl trethi lleol fel rhan o'r trefniadau cyllidol, gan mai'r rhain yw'r elfennau sydd hawsaf inni eu haddasu er mwyn cyflawni ein hamcan o drefniadau graddoledig a chynaliadwy i godi refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol. Rydym wedi ystyried trefniadau amgen megis treth gwerth tir leol, trethi lleol sy'n seiliedig ar incwm, neu foderneiddio'r systemau presennol ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig. Mae trethi ar dir ac eiddo yn wahanol i drethi ar incwm – nid ydynt yn arwain at yr un canlyniad, ac ni allant wneud hynny. Un dewis pwysig fydd a ydym yn mynd i barhau i godi refeniw lleol yn seiliedig ar eiddo neu ar fesurau eraill o gyfoeth a'r gallu i dalu.

Nid ydym yn ystyried yn fanwl faint o gyllid sydd ei angen ar gyfer gwasanaethau lleol, gan fod hynny'n gofyn am gydbwysedd gofalus o hyd rhwng ein blaenoriaethau gwario a'r cyfyngiadau a wynebwn o ganlyniad i sefyllfa economaidd Cymru yn y DU a thu hwnt. Rydym yn edrych ar fras ar y ffordd y mae trethi lleol yn rhyngweithredu â dosbarthu grant y llywodraeth i lywodraeth leol ac a fyddai hyn yn gofyn am ddiwygiadau o dan rai o'r opsiynau.

Byddai maint y newid dan sylw, pe baem yn gweithredu ar unrhyw un o'r syniadau, yn sylweddol ac ni ddylid diystyru hyn. Byddai'r rhan fwyaf o'r diwygiadau yn gofyn am Ddeddfau Senedd newydd, corff o is-ddeddfwriaeth a moderneiddio seilwaith digidol a data gryn dipyn. Byddai diwygiadau hefyd yn gofyn am ymdrech ar y cyd i ymgynghori â'r cyhoedd ac i gyd-gynhyrchu â phartneriaid er mwyn asesu'r effeithiau tebygol ar bobl, busnesau ac eraill sy'n talu ardrethi, ar y gweithlu ac ar gynghorau a chyrff eraill.

Roedd yn dda gennym ddangos rhai o ganfyddiadau'r ymchwili yn ein Cynhadledd Rithwir ar 'Diwygio Trethi Lleol yng Nghymru' ar 19 Tachwedd 2020, pan ymunodd dros 150 o bobl â ni. Wrth inni barhau â'n gwaith, cawn ein tywys gan yr egwyddorion a amlinellir yn ein [Fframwaith Polisi Trethi](#) a'n rhwymedigaethau i ystyried Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac effeithiau anghydraddoldebau. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ein tywys i ystyried y rhai sydd eisoes yn wynebu anghydraddoldebau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae Cyngor Partneriaeth Cymru a'i is-grwpiau yn cynnig y fforwm ar gyfer ymgysylltu ar lefel gwleidyddion a swyddogion rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol ar nifer o faterion ariannol. Bydd cyfle i ymgysylltu ymhellach ar sail fwy ffurfiol yn ystod tymor y Senedd nesaf. Rydym yn croesawu pob cyfraniad i'n sylfaen dystiolaeth i lywio ein cynlluniau yn y dyfodol. Gall unrhyw un gysylltu â Llywodraeth Cymru drwy anfon e-bost i: LocalTaxationPolicy@llyw.cymru.

CYDWEITHIO

Aethom ati i greu rhaglen ymchwil gyda chymorth y Gweithgor Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol a arweinir gan arbenigwyr, a oedd yn cynnwys economegwyr, ystadegwyr, arbenigwyr trethi a budd-daliadau, sefydliadau sy'n ymwneud â chydaddoldebau ac ymarferwyr awdurdodau lleol. Drwy gydol ein gwaith rydym hefyd wedi cynnwys y canlynol:

- Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru (fforwm partneriaeth Llywodraeth Cymru â llywodraeth leol);
- Gweithgor Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru;
- Asiantaeth y Swyddfa Brisió a'r Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw;
- Grŵp Ymgysylltu ar Drethi Llywodraeth Cymru (Grŵp Cyngorol Trethi Cymru gynt);
- Y Fforwm Talwyr Ardrethi a sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau;
- Gweithgorau eraill â ffocws.



2. Ein cyflawniadau 2016-2021

Trethi lleol teg, graddoledig ac wedi'u targedu'n well

- Cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach sy'n cefnogi ein blaenoriaethau;
- Biliau ardrethi annomestig is drwy newid y system uwchraddio flynyddol o MPM i MPD, wedi rhewi'r lluosydd yn 2021-2022;
- Wedi ymgynghori ar newidiadau i ryddhad ardrethi i ysgolion annibynnol ac ysbytai;
- Gwelliannau cychwynnol i wneud y dreth gyngor yn decach ac yn fwy graddoledig, sy'n annog pobl i hawlio'r holl gymorth sydd ar gael ar gyfer y dreth gyngor;
- Gwell cysondeb o ran y ffordd y caiff y rhai sy'n gadael gofal a phobl â Nam Meddyliol Difrifol eu trin;
- Wedi asesu effeithiau diwygiadau lles y DU ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor;
- Wedi ystyried dulliau gwahanol o godi trethi lleol, e.e. y dreth gyngor, aifandio, trethi gwerth tir, trethi incwm lleol.

Trefn effeithiol a chymesur ar gyfer gweinyddu trethi lleol

- Cynllun ailbrisio ardrethi annomestig 2017 a chynllun rhyddhad trosiannol;
- Gwella'r ffordd y caiff ôl-ddyledion y dreth gyngor eu rheoli a'u gorfodi;
- Cael gwared ar y gosb o ddedfryd o garchar am beidio â thalu'r dreth gyngor;
- Ymarfer ailbrisio ardrethi annomestig nesaf yn 2023 (gwaith yn mynd rhagddo);
- Mynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig (i ddechrau o 2021);
- Diwygio trefniadau apelio ardrethi annomestig (gwaith yn mynd rhagddo);
- Rhannu gwybodaeth ac adnoddau yn well;
- Wedi ystyried ymarferion prisio eiddo mwy modern ac amlach.

Trefniadau llywodraethu ariannol cadarn ac atebolrwydd lleol cryfach

- Wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i gynghorau mewn perthynas â'r dreth gyngor;
- Wedi cefnogi rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn amgylchedd sy'n newid (yn barhaus);
- Wedi cynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau ar flaenoriaethau gwario (yn barhaus);
- Gwelliant parhaus i drefniadau llywodraethu ariannol, cyfrifyddu ac archwilio o ganlyniad i newidiadau eraill a ddisgrifir.

Cefnogi fframwaith ariannol ehangach llywodraeth leol

- Parhau i gefnogi bargeinion Dinesig a Thwf;
- Wedi rhoi hyblygrwydd newydd o ran cyllid cyfalaf;
- Wedi datblygu fformiwla setliad llywodraeth leol mewn ymateb i batrymau gwario sy'n newid (yn flynyddol) a newidiadau i drethi lleol;
- Wedi datblygu fframwaith cyllido sy'n ei gwneud yn bosibl i wasanaethau gael eu diwygio a'u trawsnewid (yn mynd rhagddo);
- Wedi ystyried cydbwysedd cyllid rhwng yr arian a godir yn lleol a'r arian a ddarperir yn ganolog;

3. Amcanion, gofynion a chyfaddawdau

Amcanion

Ein huchelgeisiau ar gyfer system gyllid i lywodraeth leol yn y dyfodol yw:

LLEOL

Cryfhau yn hytrach na gwanhau democratiaeth, ymreolaeth a hyblygrwydd lleol. Ategu diwygiadau ehangach lywodraeth leol (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021), sy'n ei gwneud yn bosibl i drawsnewid gwasanaethau a sicrhau mwy o gyfranogiad mewn democratiaeth leol.

TECACH

Ymdrechu i sicrhau trefniadau codi refeniw mwy graddoledig lle y bo modd, a mwy o degwch o ran y ffordd y caiff trethdalwyr eu trin. Ni ddylid peryglu tegwch daearyddol yng Nghymru a rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol.

CYNALIADWY

Diogelu cynaliadwyedd y gwasanaethau i gymunedau yn y dyfodol drwy ffrydiau cyllido sefydlog. Diogelu ffyniant a thwf mewn economïau lleol.

SYMLACH

Ymdrechu, lle y bo modd, i leihau cymhlethdod yn y ffordd y caiff ein systemau eu dylunio yn y dyfodol. Dylai trefniadau gweinyddu trethi lleol fod yn effeithlon gyda chostau cymesur.

WEDI'I DEALL

Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r trefniadau. Moderneiddio sut y caiff systemau eu cyflwyno a manteisio ar drawsnewid digidol.

Cyfaddawdu rhwng anghenion y system

Mae'n bwysig nodi bod gofynion cyllid llywodraeth leol a systemau trethi lleol yn wahanol. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymodi rhwng gwahanol anghenion a safbwyntiau rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y trefniadau. Er enghraifft:

Mae angen gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ar **ddinasyddion** ac mae angen iddynt gyfrannu at gost y gwasanaethau hyn yn unol â'u hadnoddau. Dylent gael eu trin yn deg. Mae angen iddynt gael rhyngwyneb effeithiol fel cwsmeriaid, cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu democrataidd a dwyn llywodraeth leol i gyfrif.



Mae angen gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ar **fusnesau** hefyd, ynghyd â rhan yn y broses o lunio lleoedd ar lefel leol. Mae angen amrywiol fathau o gymorth ar fusnesau mewn cyfnodau anodd er mwyn diogelu economïau lleol, swyddi a thwf.



Mae angen ffrydiau refeniw sefydlog ar **Gyrff Llywodraeth Leol** i weithredu'n effeithiol a darparu gwasanaethau hollbwysig i gymunedau, yn unol ag anghenion lleol. Mae angen eglurder, hyblygrwydd ac ymreolaeth ar lywodraeth leol fel dylanwadwyr lleol ar ffyniant economaidd-gymdeithasol i genedlaethau'r dyfodol.

Mae ar **Lywodraeth Cymru** angen ffyrdd o gyflawni ei blaenoriaethau cenedlaethol a nodir yn ei Rhaglen Lywodraethu mewn ffordd effeithiol a chydweithredol. Mae'n rhoi pwerau cyfreithiol a swyddogaethau i lywodraeth leol gyflawni dyletswyddau penodol ar ran pobl Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gwelliant parhaus o ran darparu gwasanaethau lleol sy'n ategu'r gwasanaethau cenedlaethol a ddarperir ac ymateb ar y cyd i gyfnod heriol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Agweddau'r cyhoedd tuag at drethi lleol

Mae'r digwyddiadau a welsom yn ystod y tymor hwn yn cynnig ffynonellau cyfoethog o wybodaeth am yr hyn sy'n bwysig i bobl a busnesau a'r ffordd y mae rhanddeiliaid yn ymaddasu ac yn gwneud gwahaniaeth. Gŵyr tua thri-chwarter y dinasyddion sut i ddod o hyd i wybodaeth am wasanaethau eu cyngor, ond dim ond 12% sy'n gwybod a yw eu cyngor yn ymgynghori â nhw am benderfyniadau gwario ([Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20](#)). Mae ymwybyddiaeth o drethi lleol ac agweddau tuag atynt yn llai clir ac anaml y cânt eu mesur. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod y cyhoedd yn derbyn

systemau cyllid y dyfodol er mwyn i Lywodraeth Cymru lwyddo i gyflawni'r nodau y mae'n eu pennu.

Mae Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o astudiaethau blaenorol ar ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mater hwn ac agweddau'r cyhoedd. Mae'n dangos amrywiaeth eang o safbwyntiau ynglŷn â'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig, a threthiant yn gyffredinol, mewn perthynas â thegwch, gwelededd a gweinyddiaeth. Roedd y safbwyntiau hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng mathau o aelwydydd, megis rhwng pobl hŷn ac iau, aelwydydd incwm isel ac uchel, pobl sengl a theuluoedd, a phobl sy'n berchen ar eu cartrefi o'u cymharu â'r rhai sy'n rhentu. Cred rhai pobl y dylai biliau gael eu cyfrifo yn seiliedig ar gyfoeth eiddo, cred eraill y dylai fod yn seiliedig ar incwm a chred eraill y dylai fod cysylltiad mwy uniongyrchol â'r defnydd a wneir o wasanaethau. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn amcangyfrif mai dim ond 47% o bobl sy'n nodi'n gywir mai cynghorau lleol sy'n pennu cyfraddau'r dreth gyngor.

Mae trethi lleol yn ennyn cryn dipyn o drafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru, cynghorau a sefydliadau eraill, lle y gwelwn dystiolaeth o safbwyntiau wedi'u hollti a chamdybiaethau cyffredin. O'n profiad ein hunain o addasu'r systemau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw'n amlwg i ba raddau y mae dinasyddion yn gwybod amgylchiadau eraill o'u cymharu â'u hamgylchiadau eu hunain, ac mae hyn yn ddealladwy o gofio cymhlethdod trefniadau. Ond nid oes unrhyw ddadansoddiad ffurfiol o'r agweddau hyn ac mae'n faes ar gyfer ymchwil gymdeithasol yn y dyfodol agos.

Deddfwriaeth a datganoli

Mae'r corff o ddeddfwriaeth sy'n rhychwantu cyllid llywodraeth leol yn un helaeth a hynod gymhleth. Mae'n dyddio'n ôl mor bell â Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar ei ffurf bresennol, a gwreiddiau sy'n dyddio'n ôl dipyn ymhellach. Mae wedi tyfu'n raddol dros amser, ac mae bellach yn cynnwys corff mawr o is-ddeddfwriaeth. Mae tair prif Ddeddf ac 11 o Ddeddfau cysylltiedig, y mae mwy na 280 o Offerynnau Statudol (gorchmynion a rheoliadau) wedi'u gwneud oddi tanynt. Mae dros 100 o offerynnau statudol sy'n benodol i Gymru mewn perthynas â'r dreth gyngor yn unig, a thros 130 ar gyfer ardrethi annomestig. Mae dros 40 o offerynnau statudol yn pennu'r trefniadau ar gyfer cyllid cyfalaf, cyfrifyddu ac archwilio cyrff llywodraeth leol a hefyd brif elfennau'r system.

Mae tudalen 12 yn dangos y dirwedd gyfreithiol gymhleth yn fanylach. Oherwydd effaith uniongyrchol y systemau ar gyllid personol a chyllid y sector cyhoeddus, mae llawer o'r ddeddfwriaeth yn hynod ragnodol, gyda chyfran fawr ohoni yn gofyn am gytundeb y Senedd i'w newid. Hyd yn oed os na chaiff diwygiadau mawr eu cynnig yn y dyfodol, byddai'n fuddiol pe bai'r corff o ddeddfwriaeth yn cael ei gydgrynhoi a'i foderneiddio – ymarfer sylweddol a fyddai'n cymryd nifer o flynyddoedd i'w gwblhau. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau hefyd mewn perthynas â threthi datganoledig sy'n creu cyfleoedd i ystyried y tirlun polisi treth ehangach.

Mae Gweinidogion Cymru yn meddu ar bwerau datganoledig helaeth mewn perthynas â'r dreth gyngor, ardrethi domestig a dosbarthu'r grant canolog i lywodraeth leol. Er bod gwahaniaethau diweddar rhwng y gwledydd, mae llawer o'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn dal yn gyffredin i Gymru a Lloegr ac mae'n rhagddyddio datganoli. Un

elfen ganolog o'r fframwaith yw prisio anheddau domestig a hereditamentau annomestig. Hon yw'r conglfaen sy'n ei gwneud yn bosibl i godi refeniw drwy drethi lleol, ac mae'n diffinio dangosyddion o gyfoeth a fforddiadwyedd sy'n galluogi'r etholwyr i wneud eu cyfraniad. Fodd bynnag, cyflawnir y swyddogaeth brisio ar sail Cymru a Lloegr gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a benodir gan Cyllid a Thollau EM. Er bod gan Weinidogion Cymru bwerau datganoledig i benderfynu ar wahanol dybiaethau ac egwyddorion o ran prisio, y gwir amdani yw ei bod yn swyddogaeth nad oes gan Weinidogion Cymru fawr o reolaeth drosti.

Atebolrwydd lleol

Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn cadw at safonau proffesiynol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) fel rhan o drefniadau llywodraethu ariannol ac archwilio helaeth er mwyn sicrhau'r defnydd priodol o arian cyhoeddus. Mae'r fframwaith cyfrifyddu ac archwilio hwn yn gyffredin i bob un o bedair gwlad y DU ac mae'n seiliedig ar safonau rhyngwladol. Mae Archwilio Cymru yn archwilio sefyllfa ariannol pob corff llywodraeth leol yng Nghymru (i ryw raddau neu'i gilydd) bob blwyddyn.

Mae fframwaith llywodraethu CIPFA yn bwysig am ei fod yn cynnal union sylfeini cyrff cyhoeddus, sef gweithredu er budd pennaf dinasyddion. Mae hefyd yn cynnig sgiliau arweinyddiaeth a chymwysterau proffesiynol i'r rhai mewn swyddi cyhoeddus sy'n ymdrin â chyllid. Bydd unrhyw ddiwygiadau i lywodraeth leol a drafodir yn y ddogfen hon yn cael effaith ar y trefniadau ffurfiol. Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas waith ragorol â CIPFA fel gwarcheidwaid y fframwaith hwnnw.

Moderneiddio digidol

Yn 2020, cynhaliwyd Adolygiad Darganfod Digidol er mwyn inni allu deall y systemau gweinyddol sy'n cynnal cyllid llywodraeth leol, a elwir yn systemau cyllid a buddiannau. Gwnaethom gynnal dros 80 o gyfweiliadau ag 20 o gynghorau a mapio cymhlethdod y systemau presennol. Mae canfyddiadau'r prosiect darganfod hwn yn elfen bwysig o'r rhaglen ddiwygio wrth inni ddechrau deall mwy am yr hyn a fyddai ynghlwm wrth ddulliau gweithredu amgen. Gwelsom fod llwyddiant systemau gweinyddol nid yn unig yn dibynnu ar weithgarwch cynnal a chadw rheolaidd a moderneiddio. Mae'n dibynnu'n fawr iawn ar y cydberthnasau rhwng cynghorau, cyflenwyr, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Nododd yr adolygiad darganfod brinder adnoddau technolegol mewnol mewn cynghorau, ond ni ddylid ystyried mai problem i lywodraeth leol yn unig yw hon, ond mae'n un sy'n gynrychioliadol o'r galw cynyddol am wasanaethau digidol ac awtomataidd drwy'r sector cyhoeddus cyfan. Gwelsom wahaniaethau yn y ffordd y cyflwynir polisiau rhwng cyflenwyr a rhai problemau gyda systemau yn ymwneud â mynediad at ddata, trefniadau adrodd a gohebu â dinasyddion. Ar nodyn calonogol, roeddem hefyd yn gallu nodi llawer o arloesi ac arferion da y mae'n werth ymchwilio iddynt ymhellach.

Bydd pob opsiwn ar gyfer diwygio cyllid llywodraeth leol a ystyrir yn y ddogfen hon yn golygu rhywfaint o waith ar ail-ddylunio systemau a meddalwedd, o fân newidiadau i'w

hailwampio'n llwyr. Mae'n rhaid bod cynhwysiant digidol yn chwarae rhan flaenllaw yn hyn o beth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau trethi lleol a chymorth yn hygyrch. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn swydd Prif Swyddog Digidol newydd dros Lywodraeth Leol ac Uned Gyflawni i'w gynorthwyo, a gynhelir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r rôl hon yn hollbwysig o ran gweithio gydag arweinwyr lleol i sbarduno'r broses o drawsnewid digidol mewn llywodraeth leol. Os bydd llywodraeth yn y dyfodol yn dymuno ail-ddylunio trefniadau trethi lleol a chyllid, byddai hyn yn rhoi cyfle ardderchog i ymgorffori egwyddorion digidol yn gyntaf.

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

Y prif fframwaith ar gyfer **Ardrethi Annomestig**, gwerthoedd trethadwy a lluosydd cenedlaethol, rhyddhadau ac esemptiadau a phrosesau casglu ac adennill lleol.

O dan y ddeddf hon y gellir talu'r **Grant Cynnal Refeniw**. Mae'n gwneud darpariaeth ynglŷn â gwariant cyfalaf a gweinyddu materion ariannol.

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

Y prif fframwaith ar gyfer y **Dreth Gyngor**, sy'n caniatáu i gynghorau ei phennu a'i chasglu yn unol â'r **Gofyniad Cyllidebol**, gan gynnwys disgowntiau, esemptiadau a phersonau a ddiystyrir.

Mae'n gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â **grantiau** a dibenion cysylltiedig.

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012

Mae'n lleoleiddio **Cymorth ar gyfer y Dreth Gyngor** yn Lloegr ac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**.



Dros 280 o Offerynnau Statudol (Rheoliadau a Gorchmynion)

42 yn ymwneud â'r atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, sy'n cwmpasu anheddau trethadwy, disgowntiau, esemptiadau, premiymau.

51 yn ymwneud â **gweinyddu'r dreth gyngor**, bilio, gorfodi, prisio ac apeliadau, cyfrifo'r sylfaen drethu.

16 yn ymwneud â **Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**, sy'n wahanol i gynlluniau gostyngiadau eraill a oedd yn helpu trethdalwyr i bontio ar ôl ailbennu ffiniau cynghorau yn 1996.

33 yn dyddio'n ôl i 1989 ynglŷn â'r **atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig**, sy'n cwmpasu symiau trethadwy, y lluosydd, cynlluniau rhyddhad a diffiniadau o eiddo.

70 yn dyddio'n ôl i 1989 ynglŷn â **gweinyddu ardrethi annomestig**, sy'n cwmpasu bilio, casglu, gorfod, prisio ac apeliadau.

36 o reoliadau ynglŷn â **chyfraniadau ardrethi annomestig** sy'n dyddio'n ôl i 1989, sy'n nodi sut mae cynghorau yn talu refeniw i'r gronfa genedlaethol.

13 ynglŷn â gofynion **cyfrifyddu ac archwilio** cyrff llywodraeth leol, sy'n dyddio'n ôl i 1974.

26 ynglŷn â **chyllid cyfalaf**, gyda llawer mwy yn rhagddyddio datganoli.

Deddfau Cysylltiedig

Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Deddf Tai (Cymru) 2014

Deddfau Llywodraeth Leol 1972, 1999 a 2003, sy'n darparu ar gyfer cyllid cyfalaf a grantiau.

Deddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013

Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994

Deddf Lleoliaeth 2011

Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989

4. Ein Rhaglen Ymchwil

Roedd ein rhaglen ar gyfer diwygio cyllid llywodraeth leol yn cynnwys dros 20 o ddiwygiadau yn y byrdymor a'r tymor canolig. Ochr yn ochr â hyn, aethom ati i gynnal adolygiad o'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes ynglŷn â dulliau amgen a llunio cynllun ar gyfer meysydd ymchwil newydd, gyda chymorth gweithgor a arweiniwyd gan arbenigwyr a rhanddeiliaid eraill. Roeddem yn glir bod yn rhaid i'r ymchwil newydd ganolbwyntio ar oblygiadau ymarferol y dulliau amgen yn hytrach nag ailgyflwyno theori a modelau haniaethol sy'n bodoli eisoes. Gwnaethom hwyluso mynediad unigryw at ddata ar sylfeini trethu Cymru, gan alluogi rhai o'r prosiectau i greu asedau dadansoddi nad ydynt erioed wedi bod ar gael o'r blaen.

Yn ystod 2019 hyd at 2021, gwnaethom lunio partneriaeth â nifer o sefydliadau i gyflawni'r casgliad canlynol o brosiectau ymchwil newydd. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi casgliadau'r prosiectau ymchwil nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru, ond rydym wedi ceisio gwahaniaethu rhyngddynt drwy'r ddogfen gyfan. Mae Pennod 9 yn crynhoi safbwyntiau Llywodraeth Cymru ynghylch ble i fynd nesaf gyda'r canfyddiadau,

Prifysgol Bangor Treth Gwerth Tir Leol

Astudiodd Dr Rhys ap Gwilym et al y potensial i gyflwyno treth gwerth tir leol yn lle'r trethi lleol presennol – y dreth gyngor ac ardrethi annomestig. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2020 a gellir ei weld [yma](#).



Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid Ailbrisio a Diwygio'r Dreth Gyngor

Cynhaliodd Stuart Adam et al ymarfer ailbrisio damcaniaethol o sylfaen drethu bresennol y Dreth Gyngor yng Nghymru, sy'n cynnwys dros 1.4 miliwn o anheddau. Mae'r canfyddiadau yn amlinellu rhai opsiynau ar gyfer strwythur bandio mwy graddoledig a diwygiadau mwy radical i'r dreth gyngor megis system barhaus heb fandiau. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2020 a gellir ei weld [yma](#).



Yr Athro Leishman a Dr Stephen Hincks, Prifysgol Sheffield gyda chymorth UK Collaborative Centre for Housing Advice Ailbrisió'r Dreth Gyngor

Ymgwymerodd yr Athro Chris Leishman a Dr Hincks â modelu ategol ar ailbrisió'r dreth gyngor. Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio'n fanylach ar benderfynnyddion ffisegol ac amgylcheddol prisiau eiddo a manteision ac anfanteision modelau ystadegol ar gyfer prisio sylfaen drethu. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2021 a gellir ei weld [yma](#).



Jennie Bunt, Prifysgol Caerdydd Trethi Lleol sy'n seiliedig ar Incwm

Astudiodd Jennie Bunt ddichonoldeb seilio trethi lleol yn agosach ar asesiadau lleol o incwm. Er y gallai'r cysyniad hwn fod yn gymwys yn y cyd-destun domestig a'r cyd-destun annomestig, canolbwyntiodd yr astudiaeth gychwynnol hon ar asesiadau o incwm aelwydydd at ddibenion y dreth gyngor. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2020 a gellir ei weld [yma](#).



Ymgwymerwyd â phrosiectau ymchwil eraill hefyd ar elfennau penodol o'r systemau presennol.

Gwasanaeth Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach: Dadansoddiad o Arolwg

Nod yr ymchwil hon oedd asesu canfyddiadau busnesau bach o effeithiolrwydd y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach o ardrethi annomestig. Gwnaeth hefyd gasglu tystiolaeth o effaith y cynllun ar hyfywedd busnesau.

[Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 26 Ionawr 2021.](#)



Policy in Practice

Deall Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru

Defnyddiodd Policy in Practice ddata cynghorau i ddadansoddi effaith Credyd Cynhwysol ar bobl yng Nghymru. Cynigiodd yr ymchwil opsiynau ar gyfer addasu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i liniaru effeithiau ac adfer triniaeth gyfartal rhwng grwpiau.

[Cyhoeddwyd yr adroddiad interim ym mis Ionawr 2020](#) a [chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2020](#).



Hanes o Drafod

Bu llawer o astudiaethau cynhwysfawr o drethi lleol a strwythurau cyllid llywodraeth leol, yn dyddio'n ôl i Bwyllgor Layfield yn 1976. Cyflwynodd pob astudiaeth safbwynt unigryw o fewn ei gyd-destun ei hun ac o ganlyniad, mae systemau'r pedair gwlad wedi cael eu datblygu a'u diwygio dros y degawdau, gan arwain at wahaniaethau. Bu sawl adolygiad mewnol gan y llywodraeth a Senedd y DU (neu ymchwiliadau cyfatebol) hefyd. Mae rhai wedi canolbwyntio mwy ar rôl llywodraeth ddemocrataidd leol ac mae eraill wedi canolbwyntio'n fanwl ar theori trethiant.

Mae llawer o'r casgliadau ynghylch systemau cyllido amgen yn cyfeirio at gyfaddawdu rhwng canlyniadau megis ymreolaeth leol, twf economaidd a thegwch cymdeithasol. Er y gellir trosi'r canfyddiadau i'n cyd-destun ni i ryw raddau, nid oes eto farn gyffredin na fawr ddim sylwadau sy'n ymwneud yn benodol ag amgylchiadau ac anghenion Cymru. Rydym yn gobeithio bod y ddogfen hon yn gwneud cyfraniad. Rydym yn aros am ganfyddiadau adolygiadau eraill sy'n mynd rhagddynt, megis Adolygiad o Gyllid Teg Llywodraeth y DU a'r Adolygiad o Ardrethi Busnes yn Lloegr, a ble y gallai'r Alban a Gogledd Iwerddon fynd nesaf o ran eu hystyriaethau.

Adolygiadau nodedig

Mae [Ymchwiliad Lyons](#) i **Lywodraeth Leol 2007** yn ystyriaeth gynhwysfawr o ddiwygiadau i'r system gyllido ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU ar y pryd yn 2004. Mae Syr Michael Lyons yn nodi iddo ddeall yn fuan na ellid gwahanu cwestiynau ynglŷn â chyllid oddi wrth ystyriaeth ehangach o ddiben llywodraeth leol. Yn ei adroddiad bathwyd y cysyniad o 'llunio lleoedd' fel modd i rymuso llywodraeth leol a dathlu hyblygrwydd lleol. O ran materion ariannol, argymhellodd yr ymchwiliad y dylid cynnal ymarfer ailbrisiol'r dreth gyngor ac ychwanegu bandiau newydd ar frig a gwaelod y raddfa er mwyn ei gwneud yn fwy graddoledig. Roedd yr ymchwiliad o'r farn na ddylid argymhell treth incwm leol ar y pryd. O ran ardrethi annomestig, nid oedd yr ymchwiliad o blaid lleoliaeth lawn ond argymhellodd bwerau newydd i gynghorau i ychwanegu atodiad lleol at y gyfradd genedlaethol.

Mae [Adolygiad Mirrlees 2010-2011](#)¹ yn ystyried nodweddion system dreth dda yn yr 21^{ain} ganrif. Mae'n awgrymu y dylai trethi fod yn raddoledig ac wedi'u dylunio ar sail system gyfan ar y cyd â'r system fudd-daliadau, ac felly mae'n tynnu sylw at heriau unigryw dewisiadau polisi Cymru o dan drefniant cyllidol cyffredinol y DU. Mae Pennod 16 'Trethi Tir ac Eiddo' yn ystyried mathau o dai a thir fel buddiannau traul neu fuddsoddi ac yn trafod yr achos dros drethu gwerth tir. Mae'n awgrymu y dylid diwygio'r dreth gyngor fel treth ar ddefnydd (fel TAW) a'i chynnwys yn y trefniadau trethu cynilion fel asedau. Mae hefyd yn awgrymu bod eiddo busnes yn fewnbn yn y broses gynhyrchu ac felly na ddylid ei drethu.

Dadleuodd y [Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol 2015](#) yn Lloegr dros ddatganoli ysgogwyr a phwerau cyllidol i lywodraeth is-genedlaethol er mwyn symbylu'r broses o ail-lunio gwasanaethau a chyflawni ar y cyd. Argymhellodd amrywiol fathau o hyblygrwydd o ran cyllid grant blynyddol a chorff annibynnol i oruchwylio trefniadau a chynghori'r llywodraeth. O ran trethi lleol, argymhellodd y Comisiwn roi terfyn ar refferenda lleol a threfniadau capio ar gyfer y dreth gyngor, rhyddidau i bennu disgowntiau a chynlluniau gostyngiadau ac ailbrisio. Argymhellodd hefyd y dylai refferiw ardrethi annomestig lleol gael ei gadw'n llawn.

[Comisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol 2015](#) yw'r adolygiad cynhwysfawr mwyaf diweddar o'r dreth gyngor yn y DU. Ystyriodd dri dewis amgen – treth eiddo fwy graddoledig, treth gwerth tir a threth incwm leol. Ar y cyd â'r Athro Leishman a Phrifysgol Heriot-Watt, dadansoddodd y Comisiwn effaith ymarfer ailbrisio. Ystyriodd hefyd oblygiadau ymarferol a gweinyddol systemau newydd yn fanylach na'r adolygiadau eraill. Daeth y Comisiwn i'r casgliad y dylai trethi lleol barhau fel cyfraniadau ailgylchol cyffredinol (yn hytrach na chodi tâl am wasanaethau) ond y dylent fod yn fwy graddoledig. Os yw'n ddichonadwy, dylai'r sylfaen drethu yn y dyfodol gael ei hehangu i gynnwys incwm i'w gwneud yn decach. Roedd y Comisiwn o'r farn bod treth gwerth tir yn addawol ar y cychwyn, ond bod llawer mwy o fylchau mewn tystiolaeth a bod angen gwneud rhagor o waith.

Ystyriodd y [Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru 2016](#) ddiwygiadau posibl yng nghyd-destun sicrhau mwy o hunangynhaliadaeth, twf ac arloesi ond hefyd sefydlogrwydd refferiw. Roedd ei argymhellion yn cynnwys cadw refferiw ardrethi annomestig, adolygiad o'r ffordd y dosberthir y grant canolog, dadneilltuo grantiau ac ymarfer ailbrisio'r dreth gyngor. Daeth i'r casgliad bod y dreth gyngor yn addas at y diben ar y cyfan ac nad oes angen ei diddymu, o ystyried mai dyma'r cyfaddawd mwyaf addas rhwng trethu eiddo a threthu pobl. Argymhellodd y dylid ailbrisio ac ailfandio'r dreth gyngor bob pum mlynedd (neu'n fwy rheolaidd) a chynnal adolygiad llawn o ddisgowntiau ac esemptiadau.

Ystyriodd [Adolygiad Tystiolaeth: Systemau Cyllid Llywodraeth Leol, Trethi Lleol a Dyrannu Adnoddau yng Nghymru 2016](#) anghenion system gyllid llywodraeth leol yn y dyfodol yng ngoleuni'r bwriad blaenorol i uno cynghorau. Ystyriodd Bennett, Allen a Grace (2016) y gallu i godi refferiw a chydbwysedd cyllid (rhwng cyllid a ddarperir yn ganolog a chyllid a godir yn lleol). Daethant i'r casgliad bod angen i ddiwygiadau effeithiol ymateb i'r rhyngddibyniaethau a'r cydgysylltiadau rhwng ffurf, swyddogaeth a chyllid, gan fabwysiadu dull system gyfan. Awgrymwyd hefyd fod y gwaith o adolygu cydbwysedd cyllid yn gysylltiedig â chwestiynau llywodraethu ac atebolrwydd ehangach yn ei hanfod, ac na all treth unigol ymgorffori pob nodwedd nac amcan delfrydol.

5. Treth Gwerth Tir Leol

Yn y bennod hon byddwn yn trafod:


- Beth yw treth gwerth tir
- Ymchwil Prifysgol Bangor
- Ymchwil nodedig arall
- Yr hyn a ddysgwyd gennym a meysydd ar gyfer gwaith pellach.

Mae trethi sy'n seiliedig ar werth tir wedi cael eu hystyried dros y degawdau fel dewis amgen yn lle amrywiol drethi cenedlaethol a lleol. Ceir mathau o dreth gwerth tir yn Nenmarc, Seland Newydd a rhannau o Awstralia a'r Unol Daleithiau. Mae cynigwyr yn amlinellu amrywiol amcanion o blaid cyflwyno treth gwerth tir yn lle trethi eiddo traddodiadol, megis defnydd mwy effeithlon o dir neu ffordd well o gofnodi cynnydd economaidd er budd y cyhoedd. Dewisodd Llywodraeth Cymru ystyried y cysyniad hwn a'i gymhwyso at y dreth gyngor ac ardrethi annomestig am yr honnir ei fod yn dosbarthu beichiau treth mewn ffordd fwy graddoledig. Ein prif nod yw codi refeniw sefydlog ar gyfer gwasanaethau lleol yn y ffordd decaf, gan ystyried canlyniadau manteisiol eraill lle y bo modd.

Er y gellir cymhwyso'r cysyniad yn fras, nid oes fawr ddim ymchwil ffurfiol sy'n ymwneud yn benodol â thirwedd trethi lleol Cymru. Yn 2019, gwnaethom gomisiynu maes ymchwil newydd a oedd yn ystyried dichonoldeb cyflwyno treth gwerth tir leol yn lle'r dreth gyngor, ardrethi annomestig neu'r ddau. Er mwyn diogelu a chryfhau atebolrwydd democrataidd lleol, nodwyd yn glir gennym y dylai treth gwerth tir leol barhau i gael ei chodi a'i chasglu gan gynghorau. Nid ystyrir treth gwerth tir yma fel math ychwanegol o drethiant lleol, nac un sy'n codi swm sylweddol fwy neu sylweddol lai o refeniw na'r trethi presennol, nac fel cysyniad cenedlaethol. Mae sylfaen gyfansoddiadol trethiant lleol yng Nghymru yn golygu bod yn rhaid i unrhyw drethiant lleol cyfnewid, gan gynnwys treth gwerth tir, barhau i ariannu gwariant llywodraeth leol.

Beth yw treth gwerth tir?

Mae treth ar werth tir yn diystyru gwerth unrhyw eiddo, strwythur, offer neu beiriannau sy'n bodoli ar y tir. Mewn theori, byddai dau ddarn o dir o'r union faint yn yr un lleoliad â'r un defnyddiau a ganiateir yn talu'r un dreth, ni waeth beth yw'r eiddo a adeiladwyd arno. Felly, mae treth gwerth tir yn lleihau nifer y ffactorau a all ddylanwadu ar filiau treth yn bennaf i ddymunoldeb y lleoliad, maint y darn o dir a'r defnyddiau a ganiateir.



Ffynhonnell: Adroddiad Prifysgol Bangor

Mae manteision treth gwerth tir a gofnodwyd o'i chymharu â mathau eraill o dreth fel a ganlyn:

- Defnydd mwy effeithlon o dir fel ased naturiol oherwydd daw'n llai buddiol i berchenogion tir gadw tir heb ei ddefnyddio nad yw'n darparu enillion ariannol;
- Cofnodi, ac felly drethu, y cynnydd mewn gwerth i berchenogion tir o ganlyniad i benderfyniadau a wneir gan gymdeithas yn fwy cyffredinol, e.e. buddsoddiad mewn seilwaith yn y cyffiniau a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, a thrwy hynny y gall y buddiannau ariannol gael eu rhannu gan bawb;
- Dosbarthiad tecach a mwy graddoledig o'r atebolrwydd i dalu treth ymhlith trethdalwyr;
- Economaidd effeithlon gydag effeithiau llai datgymhellol ar fuddsoddi;
- Gwella amrywiaeth o ran perchenogaeth tir a datgloi ardaloedd o 'fancio tir' at ddibenion cynnydd yng ngwerth ased yn unig, ond nid yw graddfa na thystiolaeth o hyn yng Nghymru yn hysbys.

Ymchwil Prifysgol Bangor

Defnyddiodd Prifysgol Bangor gyfuniad o ddadansoddiad ystadegol, cais am dystiolaeth, adolygiad o'r llenyddiaeth a chyfweliadau lled-strwythuredig ag arbenigwyr er mwyn cynnal astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol, sy'n canolbwyntio ar yr ystyriaethau ymarferol. Cafodd yr ymchwilwyr fynediad at y rhestrau prisio cyflawn ar gyfer sylfeini trethu presennol y dreth gyngor ac ardrethi annomestig yng Nghymru, gan gyfuno'r rhain â gwybodaeth ofodol GIS a data ar brisiau trafodiadau gan Gofrestrfa Tir EM. Cyhoeddwyd yr adroddiad manwl ym mis Mawrth 2020 a gellir ei weld [yma](#).

Gorchudd tir a pherchenogaeth tir

Mae'r astudiaeth yn rhoi gwerthusiad manwl o'r rhestrau o orchudd tir a defnydd tir sydd ar gael, gan gynnwys cronfa ddata CORINE (Cydlynu Gwybodaeth am yr Amgylchedd) yr Undeb Ewropeaidd a'r Arolwg Ordnans. Yn drawiadol o bosibl, mae'r cronfeydd data hyn yn dangos bod **amaethyddiaeth, coedwigaeth a thir yn ei gyflwr naturiol yn cyfrif am fwy na 90% o arwynebedd Cymru**. Mewn perthynas â pherchenogaeth tir, a fyddai'n wybodaeth hollbwysig ar gyfer treth gwerth tir leol, canfu'r ymchwilwyr fod 18. 6% o dir yng Nghymru heb ei gofrestru (ym mis Tachwedd 2019), a bod dosbarthiad hyn ledled y wlad yn anwastad. Ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd, Sir Benfro a Sir y Fflint y ceir y rhan fwyaf o dir heb ei gofrestru. Mae'r rhan fwyaf ohono'n dir amaethyddol neu naturiol a dim ond 1. 3% o'r tir heb ei gofrestru sy'n cael ei ddefnyddio at ddefnydd preswyl.


Daw'r ymchwilwyr i'r casgliad nad oes ffordd syml o gysylltu'r amrywiol setiau o wybodaeth sydd eu hangen i greu cronfa ddata stentaidd gynhwysfawr ar hyn o bryd, a bod angen gwyboodaeth fwy manwl gywir at ddibenion trethiant.

Gwerth tir

Amcangyfrifodd Prifysgol Bangor mai cyfanswm gwerth y tir **preswyl** o dan eiddo sy'n talu'r dreth gyngor ar hyn o bryd yw **£113.4 biliwn**. Mae tir yn cyfrif am 48% o gyfanswm gwerthoedd eiddo preswyl, ond mae hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng lleoliadau. Ar lefel cyngor, mae gwerth tir ond yn cyfrif am 21% yn unig o werthoedd eiddo ym Mlaenau Gwent, ond 63% ym Mro Morgannwg. Dengys Ffigur un werthoedd tir ardaloedd daearyddol bach o Gymru (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, ACEHI). Mae'r lliwiau tywyllaf yn cynrychioli'r gwerth uchaf.

Yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Sir Fynwy y byddai'r sylfaen drethu breswyl o dan dreth gwerth tir yn cynyddu fwyaf ac mewn ardaloedd megis Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin y byddai'n gostwng fwyaf.

Ffigur un: Gwerthoedd tir preswyl fesul metr sgwâr ar lefel ACEHI



Ffynhonnell: Adroddiad Prifysgol Bangor

Amcangyfrifwyd mai cyfanswm gwerth tir **amhreswyl** o dan eiddo sy'n talu ardrethi annomestig ar hyn o bryd oedd **£27.6 biliwn**. Mae'n bwysig nodi bod yr ymchwilwyr wedi'i gweld yn fwy heriol cynnal dadansoddiad o dir amhreswyl oherwydd prinder gwybodaeth am nodweddion eiddo, ac felly dylid trin yr amcangyfrifon hyn yn ofalus.

Ar lefel cyngor, byddai treth gwerth tir unwaith eto yn newid y sylfaen drethu o'r ardaloedd lleiaf cyfoethog i'r ardaloedd mwyaf cyfoethog yng Nghymru. Yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Sir Fynwy y byddai'r sylfaen drethu amhreswyl o dan dreth gwerth tir yn cynyddu fwyaf ac mewn ardaloedd megis Rhondda Cynon Taf, Sir y Fflint, Casnewydd a Chastell-nedd Port Talbot y byddai'n gostwng fwyaf.

Dulliau prisio

Mae Prifysgol Bangor yn nodi tri dull bras o brisio at ddibenion trethiant; 1) prisio proffesiynol, 2) dull fformiwläig neu ystadegol a 3) hunanasesu, gyda'r dull trethu lleol presennol yn gyfuniad o'r ddau ddull cyntaf. Fodd bynnag, daw'r ymchwilwyr i'r casgliad nad yw'n amlwg pa ddull fyddai'n briodol ar gyfer prisio tir ar gyfer treth gwerth tir, ac maent yn argymhell bod angen astudiaeth ar wahân ar yr elfen hon. Mewn cyfweiliadau ag arbenigwyr ar brisio, trafodwyd datblygiadau technolegol ac awgrymwyd y gallai dulliau Estonia a Denmarc gael eu hystyried. Daw Bangor i'r casgliad bod *'cyfle sylweddol i ddiweddarau'r system prisio a chynyddu'r defnydd a wneir o dechnoleg prisio, ac mae potensial i gynhyrchu prisiadau amser real'*. Mae'r ymchwilwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod rhesymoldeb, tryloywder a chysondeb yn bwysicach na chywirdeb.

Mae'r adroddiad hefyd yn gwerthuso'r cysyniadau a ddefnyddir wrth brisio tir megis tir wedi'i wella yn erbyn tir heb ei wella, defnydd mwyaf a gorau, gwerth gobeithiol a gwerth safle, gan awgrymu *'gwerth safle ddylai ffurfio'r sail gysyniadol ar gyfer prisio tir yng Nghymru'* ac felly efallai mai Treth Gwerth Safle fyddai'r term mwyaf priodol yn hytrach na threth gwerth tir.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru farn bendant ar hyn o bryd ynglŷn â sut y dylai tir gael ei brisio o dan dreth gwerth tir leol a byddai'n golygu nifer o benderfyniadau arwyddocaol. Rydym yn cytuno y byddai astudiaeth fanwl ar wahân o'r cysyniadau a'r dulliau yn gam nesaf allweddol. Yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd technolegol, byddai sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn y dull yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu treth gwerth tir.

Cyfraddau treth


Mae dewisiadau ynghylch a fyddai cyfraddau yn cael eu pennu'n lleol (fel y dreth gyngor), yn genedlaethol (fel ardrethi annomestig) neu hyd yn oed yn rhanbarthol (fel praesept yr heddlu er enghraifft) neu yn ôl ardaloedd llai o faint (fel y praesept cyngor tref a chyngor cymuned, er enghraifft). Mae dewisiadau hefyd ynghylch a ddylai'r un gyfradd dreth fod yn gymwys mewn cyd-destunau domestig ac annomestig, neu a oes rhesymeg dros godi cyfraddau gahanol ar gyfer pob un. Mae'r penderfyniad yn cydbwysu atebolrwydd lleol, gwelededd, symrlwydd, effeithlonrwydd a thegwch. Ni chynigiwyd unrhyw ddewis penodol gan astudiaeth Bangor.

Fodd bynnag, fel canllaw, yn seiliedig ar yr amcangyfrifon o werth tir wedi'u modelu, mae astudiaeth Bangor yn awgrymu y byddai cyfradd dreth genedlaethol unffurf o **1.41%** ar dir **preswyl** yn ddigon i godi'r un refeniw ag a godir ar hyn o bryd gan y dreth gyngor. Byddai cyfradd genedlaethol unffurf o **3.9%** a godir ar dir **amhreswyl** yn ddigon i ddisodli'r refeniw a godir o ardrethi annomestig ar hyn o bryd. Mae hwn yn ganfyddiad diddorol ac mae'n seiliedig ar y tir sydd o dan eiddo lle mae atebolrwydd i

dalw trethi lleol ar hyn o bryd. Mae hefyd yn amlygu'r gwahaniaeth o ran maint y sylfeini treth eiddo domestig ac annomestig, gan fod 1. 4 miliwn o anheddau lle mae atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor a 120,000 o eiddo lle mae atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig. Gallai gwaith pellach ystyried a oes mathau eraill o dir a fyddai'n cael eu cynnwys yn y sylfaen drethu, yn dibynnu ar y diffiniad o dreth gwerth tir a ddewisir.

Dengys Ffigur dau o adroddiad Bangor ddosbarthiad mwy graddoledig o'r atebolrwydd i dalu treth o dan dreth gwerth tir o gymharu â'r dreth gyngor. Fodd bynnag, mae'r awduron yn cydnabod bod y gymhariaeth hon 'yn llawn anawsterau' ac mai at ddibenion enghreifftiol yn unig y'i rhoddir, oherwydd yr amrywiaeth eang o ddisgowntiau sy'n gymwys i dalwyr y dreth gyngor ar hyn o bryd. Mae'r ffigur canlynol yn seiliedig ar atebolrwydd gros, ond dim ond tua 55% o aelwydydd yng Nghymru sy'n talu bil llawn y dreth gyngor, h.y. byddai atebolrwydd net yn edrych yn dra gwahanol. Serch hynny, mae'r dreth gwerth tir yn dechrau edrych yn addawol mewn perthynas â'n prif amcan ac mae'n sail dros waith dadansoddi meintiol pellach, yn enwedig yn ôl ardal cyngor a grŵp economaidd-gymdeithasol. Mae'n galonogol nodi bod yr amcangyfrifon o werthoedd tir ar lefel ACEHI yn cyfateb i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Ffigur dau: Dosbarthiadau o atebolrwyddau gros i dalu treth o dan dreth gwerth tir a'r dreth gyngor



Ffynhonnell: Adroddiad Prifysgol Bangor

Casglu a gweinyddu

Helpodd y cyfweiliadau a gynhaliwyd gan Brifysgol Bangor i amlygu'r ystyriaethau ymarferol sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r dreth gwerth tir ac atgyfnerthu safbwyntiau am atebolrwydd democrataidd lleol. Cydnabu'r cyfweleion y cyfraddau casglu uchel presennol o ran y dreth gyngor ac ardrethi annomestig a phwysigrwydd arbenigedd lleol i sicrhau'r lefel uchel o effeithlonrwydd. Mae system apeliadau effeithiol yn elfen allweddol o unrhyw gynnig ar gyfer treth gwerth tir yn y dyfodol.

Mae'r ymchwili yn nodi bod dulliau eraill o gasglu treth yn bodoli megis TWE a chasglu drwy gyfleustodau. Fodd bynnag, oherwydd y setliad datganoli, nid yw'r dulliau hyn ar gael ar gyfer treth gwerth tir leol, a byddai'n gwanhau atebolrwydd democrataidd.

Casgliadau

Daeth astudiaeth Prifysgol Bangor i'r casgliadau canlynol a gwnaeth argymhellion fel a ganlyn.

Prif ganfyddiadau

- **Gallai treth gwerth tir leol yng Nghymru godi digon o refeniw i ddisodli'r trethi lleol presennol.** Byddai newid i dreth gwerth tir yn cael effaith sylweddol ar ddosbarthiad atebolrwyddau aelwydydd a busnesau i dalu treth, ac ar y refeniw a godir ym mhob ardal, ond byddai dipyn yn fwy graddoledig na'r trethi lleol presennol.
- **Nid yw'r data sydd eu hangen i roi treth gwerth tir leol ar waith yng Nghymru ar gael ar hyn o bryd.** Caiff data mapio, data ar nodweddion eiddo a data ar drafodiadau tir eu casglu gan wahanol asiantaethau o'r llywodraeth. Ar hyn o bryd, nid oes ffordd syml o gysylltu'r wybodaeth ddaearyddol yng nghronfa ddata defnydd tir yr Arolwg Ordnans â'r Gofrestrfa Tir na data Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae'r data sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnig man cychwyn defnyddiol, ond er mwyn rhoi treth gwerth tir leol ar waith, byddai angen data mwy cyfoethog ar nodweddion eiddo a'r gallu i gysylltu hyn â data mapio manylach yn ogystal â data trafodiadau.

Argymhellion

- **Dylid sefydlu cronfa ddata stentaidd o dan reolaeth un asiantaeth.** Byddai yn hyn yn dwyn swyddogaethau cofrestru, mapio a phrisio tir ynghyd yn un endid, fel y'i cyflawnwyd yn llwyddiannus yng Ngogledd Iwerddon. Dylai'r gronfa ddata fanteisio ar dechnegau GIS, yn ogystal â methodolegau prisio modern (a ddylai, yn eu tro, sicrhau cysondeb a thryloywder wrth brisio). Byddai hyn yn hwyluso'r broses o roi treth gwerth tir leol ar waith yn fawr iawn ond byddai'n debygol o gael manteision sylweddol y tu hwnt i drethiant lleol, mewn meysydd megis cynllunio ac amaethyddiaeth, drwy sicrhau cysondeb a chydweiddoldeb data. Dylid gwneud gwaith cychwynnol i asesu costau a manteision stent o'r fath.
- **Dylai treth gwerth tir leol roi'r atebolrwydd ariannol i dalu treth ar berchennog y tir yn hytrach na'r meddiannydd.** Mae trwch y dystiolaeth yn dangos mai perchennog yr eiddo yn hytrach na'r meddiannydd sy'n ysgwyddo baich

economaidd trethi eiddo. Byddai newid yr atebolrwydd ariannol i dalu trethi eiddo i gyd-fynd â'u baich economaidd yn gwneud y system dreth dipyn yn fwy tryloyw. Byddai symud yr atebolrwydd ariannol i dalu treth oddi wrth denantiaid i landlordiaid yn milwrio yn erbyn dadleuon o blaid esemptiadau cyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi, fodd bynnag, mae'n mai cyfyngedig fydd effaith hyn yn ymarferol, o bosibl, os bydd landlordiaid yn trosglwyddo'r atebolrwydd hwn ymlaen ar ffurf rhenti uwch.

- **Dylai treth gwerth tir leol leihau'r defnydd o ryddhadau ac esemptiadau.** Mae natur raddoledig a pharhaus treth gwerth tir yn lleihau'r angen am ryddhadau i gefnogi aelwydydd incwm is yn sylweddol. Felly, gallai treth gwerth tir leihau costau esemptiadau a rhyddhadau yn sylweddol. Gall ehangu'r sylfaen drethu yn y modd hwn leihau'n sylweddol y cyfraddau treth sydd eu hangen i godi'r un swm o refferniw. Lle y bo angen, dylid ymdrin ag anawsterau talu mewn perthynas â threth gwerth tir drwy ohiriadau neu arwystlon ar y tir.
- **Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa strwythur o gyfraddau fyddai'n briodol.** Er symrlwydd ac eglurder, mae adroddiad Bangor yn modelu cyfraddau treth ar gyfradd genedlaethol unffurf ar gyfer tir preswyl a chyfradd genedlaethol unffurf wahanol ar gyfer tir amhreswyl. Gellid defnyddio cyfraddau graddedig drwy ddefnyddio lwfansau di-dreth i wneud y dreth gwerth tir yn fwy graddoledig. Gellid defnyddio cyfraddau cenedlaethol a lleol ar wahân i wella atebolrwydd cyllidol llywodraeth leol. Nid oes unrhyw ddadl economaidd gymhellol dros drethu tir preswyl ac amhreswyl ar gyfraddau gwahanol.
- **Dylai unrhyw drefniadau trethi lleol newydd gysylltu'n benodol â rheolaeth leol dros wasanaethau ag atebolrwydd lleol drwy ddatganoli pwerau trethu.** Byddai treth gwerth tir yn newid y sylfaen drethu oddi wrth gynghorau mewn rhannau llai cyfoethog o Gymru tuag at ardaloedd mwy llewyrchus. Mae hyn yn ganlyniad anochel natur dra graddoledig treth gwerth tir. Byddai Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod trosglwyddiadau cyllidol yn gwneud iawn am anwastadrwydd o'r fath yn y sylfaen drethu. Fodd bynnag, dylid cydbwysu pwysigrwydd tegwch cenedlaethol â'r angen am atebolrwydd lleol. Dylai unrhyw drefniadau treth gwerth tir sicrhau bod gan lywodraeth leol lefel o gyfrifoldeb am bennu cyfraddau treth sy'n cyfateb i'w phwerau i lunio polisiau.
- **Dylid gwneud gwaith pellach i gasglu tystiolaeth ar berchenogaeth tir amaethyddol yng Nghymru.** Nid oes unrhyw resymeg economaidd gadarn dros esemptio tir amaethyddol, coedwigaeth na thir yn ei gyflwr naturiol rhag treth gwerth tir. Roedd gwaith prisio tir amaethyddol y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad ond erys yn elfen hollbwysig i'w harchwilio.

Ymchwil arall i dreth gwerth tir

Comisiwn Tir yr Alban

Cydweithiodd **Comisiwn Tir yr Alban** â [Phrifysgol Reading yn 2018](#) ac [Alma Economics yn 2020](#) i ystyried opsiynau i ddiwygio'r trethi tir ac eiddo presennol. Roedd y rhain yn cynnwys ehangu'r sylfaen drethu ardrethi annomestig bresennol, gwneud cyfraddau'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig yn fwy graddoledig gydag ymarferion ailbrizio mwy rheolaidd, un dreth gwerth tir ochr yn ochr â'r trethi presennol i gynnwys rhannau o'r sylfaen drethu sydd nad ydynt wedi'u cynnwys, neu un dreth gwerth tir i ddisodli'r holl drethi tir ac eiddo presennol.

Mae'r opsiynau a gyflwynir yn niferus a chânt eu hasesu yn erbyn amcanion penodol Llywodraeth yr Alban a Chomisiwn Tir yr Alban. Mae'r amcanion hyn yn wahanol i brif nod Llywodraeth Cymru wrth ystyried diwygiadau i drethi lleol. Daw adroddiad Prifysgol Reading i'r casgliad '*no option could provide a complete solution to the SLC's objectives and that no option has been developed in sufficient detail so as to form a basis for recommendation for implementation.*' Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Grŵp Cynghorol o Arbenigwyr ar Dreth ar Dir ac Eiddo er mwyn helpu i lunio'r argymhellion y bydd yn eu cyflwyno i Lywodraeth yr Alban ar ddiwedd 2021.

Adolygiad Mirrlees

Awgrymodd Adolygiad Mirrlees yn 2010-2011 fod eiddo busnes yn fewnbwn ym mhroses gynhyrchu'r economi ac felly na ddylid ei drethu. Mae o'r farn bod ardrethi annomestig yn dreth aneffeithlon am y gall ystumio'r dewisiadau y mae busnesau yn eu gwneud, gan eu troi oddi wrth brosesu cynhyrchu sy'n gofyn am lawer o eiddo. Fodd bynnag, mae Mirrlees yn cyfaddef bod ardrethi annomestig yn dreth ar werthoedd tir i ryw raddau, sy'n ddymunol, a bod diddymu ardrethi yn gyfan gwbl yn creu ffawddelw annymunol i berchenogion tir ac eiddo cyfoethog. Felly, mae'r adroddiad yn awgrymu y dylid cyflwyno treth gwerth tir yn lle ardrethi annomestig drwy gyfnod pontio graddol. Mae Mirrlees yn gwneud yr un argymhelliad ag Adroddiad Prifysgol Bangor y dylai tir amaethyddol gael ei gynnwys mewn sylfaen drethu ar gyfer treth gwerth tir, hyd yn oed os yw'n dir gwerth isel ac na thelir fawr ddim treth arno, os o gwbl. Mae'n awgrymu cyfradd dreth o 4% o werth tir.

Ymchwiliad y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gasglu Gwerth Tir

Datblygodd [y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gasglu Gwerth Tir](#) a gynhaliwyd yn 2018 gynigion i gasglu cynnydd yng ngwerth tir er budd y cyhoedd. Lansiodd y grŵp ymchwiliad ac iddo ffocws ar dri maes cysylltiedig a oedd yn ymwneud â chasglu gwerth tir: rôl casglu gwerth tir mewn cynigion ar gyfer trethi datganoledig; Deddf Digollediad Tir 1961, banciau tir cyhoeddus a phrynu gorfodol; ac effeithlonrwydd economaidd, sefydlogrwydd cyllidol a thegwch rhwng y cenedlaethau drwy newid treth o incwm i asedau. Cynigiodd ei adroddiad bedwar casgliad i fynd i'r afael â'r materion hyn. Y casgliad mwyaf perthnasol i'r ddogfen hon yw'r cynnig yn yr adroddiad bod angen diwygio ardrethi annomestig drwy bedair colofn o ddiwygio, sef:

- bod pob adeilad, cyfarpar a math arall o elfen o gyfalaf yn cael ei esemptio fel bod yr ardrethi yn seiliedig ar y safle yn unig;
- bod sylfaen y dreth yn cael ei hymestyn i bob math o dir yn y DU (ond y dylai cyfradd tir a ddefnyddir ar gyfer anheddau domestig y codir y dreth gyngor arnynt fod yn sero);
- mai'r perchennog yn hytrach na'r meddiannydd sy'n gyfrifol am dalu'r dreth; ac
- y dylai prisio'r tir fod yn seiliedig ar y defnydd optimwm a ganiateir.

Roedd yr adroddiad hefyd yn galw am ddiwygiadau trosiannol i'r dreth gyngor er mwyn symud tuag at asesiadau sy'n seiliedig ar werthoedd rhentu tir. O ran y cynnig hwn, dylai praeseptau a gesglir gan gynghorau maerol yn Lloegr gael eu hasesu ar sail gwerthoedd rhentu tir yn unig, heb gynnwys gwelliannau wedi hynny. Dylai bandiau'r dreth gyngor gael eu hymestyn fel cam trosiannol tuag at asesiadau sy'n seiliedig ar werthoedd rhentu tir yn unig. Dylai cynghorau bontio i dreth gwerth tir dros gyfnod o bum mlynedd, gan ddechrau'r gydag eiddo yn y band uchaf, eiddo rhent, ail gartrefi a thir heb ei ddatblygu yn y flwyddyn gyntaf.

Ymchwiliad Pwyllgor Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin

Yn yr un modd, yn 2018 [cynhaliodd y Pwyllgor Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ymchwil](#) ar y 'cynnydd sylweddol' sy'n codi o roi caniatâd cynllunio gan awdurdodau cynllunio lleol yn Lloegr ac o fuddsoddiad cyhoeddus mewn seilwaith. Mae'n nodi y gall cynnydd o'r fath fod yn sylweddol ac, o ystyried y caiff y rhain eu creu drwy bwerau'r wladwriaeth, ei bod yn deg bod cyfran sylweddol o'r cynnydd hwn ar gael i'r wladwriaeth, gyda'r potensial i fuddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus newydd. Mae'r ymchwiliad yn gwahaniaethu rhwng casglu gwerth tir sy'n ymwneud â chynnydd yng ngwerth tir sy'n codi o ganlyniad i ganiatadau cynllunio a seilwaith newydd, a Threthiant Gwerth Tir sy'n ymwneud â threthu pob datblygiad yn unol â newidiadau yng ngwerthoedd tir.

Yn dilyn adolygiad o ddulliau hanesyddol (y Tâl Datblygu, yr Ardoll Wella a'r Dreth Enillion Datblygu) yn ogystal â'r dulliau presennol o gasglu cynnydd mewn gwerthoedd tir (cytundebau Adran 106, yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a'r Dreth Stamp), ystyriodd y Pwyllgor sut i wella dulliau sy'n bodoli eisoes yn ogystal â deall dulliau newydd posibl o gasglu gwerth tir. Er bod llawer o adroddiad y Pwyllgor yn canolbwyntio ar ddiwygio polisi cynllunio yn fwy cyffredinol, mae'n rhoi rhywfaint o ystyriaeth i ysgogwyr ariannol i gasglu gwerth tir sy'n ymwneud â rhoi treth gwerth tir ar waith. Roedd sawl cyflwyniad i'r Pwyllgor yn tynnu sylw at dreth gwerth tir.

Yr hyn a ddysgwyd gennym

Gweithgor

Trafododd y **Gweithgor Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol** fanteision ac anfanteision treth gwerth tir leol yng Nghymru yn 2018 cyn i waith Prifysgol Bangor gael ei gomisiynu. Nododd y grŵp fod rhesymau da dros gyflwyno treth gwerth tir fel treth leol gyfnewid, ond mynegwyd rhai safbwyntiau ynglŷn â newidiadau sylweddol posibl yn y farchnad a gostyngiadau ym mhrisiau tir. Roedd y grŵp yn teimlo y byddai angen dull o ailddosbarthu refeniw ymhlith cynghorau o hyd, o ystyried y byddai rhai ardaloedd yn codi swm ansylweddol o dreth o dreth gwerth tir. O ran gofynion ymarferol, trafododd y grŵp nodweddion tir anghofrestredig (a oedd bob amser o werth is?) a nifer amrywiadwy o drafodiadau ar gyfer mathau penodol o dir, gan ddadlau bod angen ymchwil fanwl i'r pwyntiau hyn. O ran prisio, cytunodd yr aelodau fod tir yn fwy tebyg i'w gilydd nag eiddo, gan ei gwneud yn haws ei brisio o bosibl. Awgrymodd yr aelodau a ellid gwahaniaethu rhwng tir ac eiddo fel dwy elfen o brisiad dros amser er mwyn sicrhau newid mwy graddol tuag at dreth gwerth tir.

Y system gynllunio

Yn y llenyddiaeth sydd ar gael ac o'n trafodaethau lawer, gwelsom fod gwahaniaeth barn o ran a oes angen newidiadau sylfaenol i'r system gynllunio er mwyn cefnogi treth gwerth tir. Mae'r safbwyntiau yn ymwneud â'r gwahanol ddiffiniadau o werth tir a mathau o dreth gwerth tir, 'pennu gwerth safle' neu 'casglu gwerth tir'. Nid oeddem yn gallu asesu hyn yn llawnach heb bennu rhai paramedrau cychwynnol ar gyfer treth yn y dyfodol, er enghraifft, a fyddem am drethu gwerth tir 'wedi'i wella' neu 'heb ei wella' ac a fyddem am gasglu gwerth amwynderau a seilwaith.

Ystyrir bod rhai mathau o dreth gwerth tir yn gofyn am fframwaith cynllunio parthol datblygedig, sef dull gweithredu nad yw'r DU wedi'i fabwysiadu. Mae'r system gynllunio yng Nghymru yn seiliedig ar ganiatadau ac mae'n gweithredu'n annibynnol ar y cyfan ar y systemau trethi lleol, h.y. nid yw defnydd domestig neu annomestig mewn un system yn golygu'r un peth yn y llall. Daeth adroddiad Bangor i'r casgliad nad oes angen diwygio'r system gynllunio yng Nghymru ar raddfa fawr er mwyn cyflwyno treth gwerth tir ar y ffurf a gynigir ganddo, ond argymhellodd y dylid ystyried ymhellach gymhellion / datgymhellion ar gyfer tir sy'n cael ei gyflwyno i'w ddatblygu. Mae'r dewis o ran ar ba adeg yn y broses y dylid dechrau codi treth gwerth tir yn ffactor hollbwysig.

Casgliadau

Yr astudiaeth gan Brifysgol Bangor yw'r ystyriaeth fanwl gyntaf o dreth gwerth tir leol yng Nghymru gyda ffocws ar ei rhoi ar waith yn ymarferol, yn hytrach na chysyniadau. Dylid ei hystyried yn waith dichonoldeb cychwynnol oherwydd ei gwmpas, gyda llawer mwy o waith i'w wneud pe bai Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â chynigion yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae adroddiad Bangor ac astudiaethau eraill wedi ein helpu'n fawr iawn i ddeall yr hyn a fyddai'n angenrheidiol ac mae llawer i'w ddysgu gan wledydd eraill. Mae'r canlynol yn crynhoi'r pwyntiau allweddol a wnaeth daro tant â ni.

Dewisiadau o ran dyluniad: mae'r dewisiadau polisi wrth ddylunio treth gwerth tir yn fras yn niferus ac yn gymhleth. Er mwyn dechrau dewis a dethol o blith y rhain er mwyn pennu fframwaith clir bydd angen gwneud rhai penderfyniadau cychwynnol ynglŷn ag amcanion a chwmpas. Dylai'r rhain aros yn gyson dros y cyfnod estynedig y byddai'n ei gymryd i ddylunio treth gwerth tir leol, deddfu yn ei chylch a'i rhoi ar waith.

Gwerthoedd tir a chyfraddau treth: mae gwerthoedd tir a chyfraddau treth wedi'u modelu yn ganfyddiadau defnyddiol a phwysig iawn. Fodd bynnag, mae llawer o ffactorau a fyddai'n dylanwadu ar y canlyniadau. Bydd angen mwy o waith dadansoddi hydredol manwl (os oes modd) a gwell amcan o'r amserlen ar gyfer rhoi'r dreth ar waith. Mae'n annhebygol y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu mesur pob effaith yn llawn.

Gofynion o ran data: mae gwerth tir eisoes yn rhan gynhenid o'r prisiadau treth eiddo presennol ac nid yw'n hawdd gwahanu'r naill ffactor oddi wrth y llall. Mae llai o ddata ar dir o gymharu â'r hyn sy'n bodoli ar gyfer eiddo, ac mae'r data o ansawdd is. Ni wyddem yn llawn werthoedd tir gwirioneddol nes bod ymarfer prisio llawn o holl dir Cymru yn cael ei gwblhau. Mae i'r diffyg gwybodaeth gysylltiadwy, manwl a chyflawn ar hyn o bryd oblygiadau difrifol o ran hyfywedd ymarferol treth gwerth tir leol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae datblygiadau technolegol yn cynnig cyfle i foderneiddio'r systemau, a allai gael eu defnyddio'n ehangach ym maes polisi cyhoeddus a chyflawni nag ar gyfer trethi lleol yn unig.

Gofynion deddfwriaethol: mae cyflwyno treth gwerth tir leol yn lle'r dreth gyngor, ardrethi annomestig neu'r ddau yn newid sylfaenol mewn statud sydd wedi bodoli ers canrifoedd, a byddai'n gofyn am sawl Deddf gan y Senedd fwy na thebyg. Byddai hwn yn ymarfer cymhleth a hir ond gallai gynnig cyfleoedd i foderneiddio a chydgrynhoi'r gyfraith.

Rhwysrau cyfansoddiadol: mae Deddfau Llywodraeth Cymru yn cadarnhau 'trethi lleol i ariannu gwariant cyngor' ac mae cyllid llywodraeth leol yn faterion datganoledig. Fodd bynnag, mae natur led-ddatganoledig y swyddogaeth brisio yn golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru geisio caniatâd Llywodraeth y DU i newid y swyddogaeth brisio mewn unrhyw ffordd arwyddocaol. Mae treth gyfnewid sy'n cael effaith ar ystadau'r goron yn gofyn am Gydsyniad y Goron. Mae materion yn codi o ran y gweithdrefnau cofrestru tir yn y DU, nad oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth drostynt. O ystyried ehangder y newid deddfwriaethol sydd ei angen, mae'n bosibl fod rhwysrau cyfansoddiadol eraill.

Rolau a swyddogaethau: mae'n bosibl y byddai treth gwerth tir leol yn gofyn am sefydlu swyddogaethau, cyrff neu asiantaethau newydd, neu ail-bwrpasu'r rhai sy'n bodoli eisoes yn sylweddol. Gallai'r rhain ymwneud â phrisio, gwybodaeth a gweinyddu. Byddai penderfyniadau ynghylch y trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer yr amrywiol swyddogaethau o'r pwys mwyaf.

Ymgysylltu â'r cyhoedd: efallai fod ymwybyddiaeth o dreth gwerth tir yn isel, ond mae angen ymchwilio i hyn. Mae angen i gynigion ar gyfer treth leol gyfnewid gynnwys cysylltiad amlwg ag amcan, a llwybr clir tuag at ei rhoi ar waith, neu ni fyddent yn cael eu derbyn na'u deall. Byddai ffyrdd o weithio Llywodraeth Cymru yn dadlau o blaid cyd-gynhyrchu â phartneriaid a chynnwys trethdalwyr.

Amserlen: ar sail yr holl ystyriaethau uchod, byddai'n ddoeth ystyried amserlen datblygu a gweithredu o fwy nag un tymor Senedd o bum mlynedd.

Gallai treth gwerth tir leol gyflawni ein prif amcan o godi refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol mewn ffordd fwy graddoledig. Mae'r dewis o ran polisiau yn enfawr, a byddai'n dasg sylweddol creu'r fframwaith cyfreithiol a seilwaith y gronfa ddata. Fodd bynnag, drwy ddatblygu'r rhain gallai fod hefyd nifer o gyfleoedd a buddiannau ehangach. Mae'n llai amlwg sut y gallem gael tystiolaeth ddiffiniol ynghylch a yw treth gwerth tir leol yn ffordd well o drethu na'r trethi lleol presennol yn gyffredinol, a yw'r buddiannau yn cyfiawnhau'r adnoddau enfawr y byddai eu hangen yn y cyfamser.

Meysydd ar gyfer gwaith pellach

Y meysydd allweddol i'w hystyried ymhellach fyddai:

- Amlinellu'r gofynion ar gyfer cronfa ddata stentaidd gynhwysfawr. Trafod â phartneriaid perthnasol a yw'n ddichonadwy a beth fyddai'r amserlen a'r gost. Ystyried cysylltiadau â'r agenda ehangach o ran trethi datganoledig;
- Deall y goblygiadau i berchenogaeth tir a defnydd tir. Ystyried a oes angen gwneud newidiadau i'r system gynllunio (ac a fyddent yn ddymunol / yn gyflawnadwy). Cynnal dadansoddiad ystadegol o dir amaethyddol;
- Cynnal dadansoddiad llawnach o'r gofynion deddfwriaethol a datganoli. Parhau â'r trafodaethau ag adrannau Llywodraeth y DU;
- Ystyried pa wybodaeth sydd ei hangen i asesu'r effeithiau ariannol ar drethdalwyr a llywodraeth leol yn llawnach, gan gynnwys effaith digwyddiadau ysgytwol i'r economi megis COVID-19 ar y system drethu.
- Gweithio gyda llywodraeth leol i asesu'r awydd am fwy o ddatganoli / ymreolaeth gyllidol, neu'r gallu i ddatblygu adnoddau a gallu angenrheidiol yn y dyfodol.

6. Trethi Lleol yn seiliedig ar Incwm

Yn y bennod hon byddwn yn trafod:

- Beth yw treth incwm leol
- Ymchwil gan Jennie Bunt
- Ymchwil nodedig arall
- Yr hyn a ddysgwyd gennym a meysydd ar gyfer gwaith pellach.

Defnyddir trethi sy'n seiliedig ar incwm yn gyffredinol ledled y byd fel prif ffynonellau o refeniw ar lefelau cenedlaethol ond gallant hefyd gael eu cymhwyso ar lefelau is-genedlaethol gan lywodraethau lleol, taleithiau neu fwrdeistrefi. Mae trethi incwm lleol wedi cael eu cynnig yn lle trethi eiddo a thir ers peth amser, fel mesur agosach o'r gallu ymarferol i dalu ac felly fel treth decach a mwy graddoledig mewn theori. Gan fod hyn yn cyd-fynd â'n prif amcan, ni allai Llywodraeth Cymru anwybyddu hyn fel syniad, a dewisodd ystyried a allai'r cysyniad hwn gael ei gymhwyso at drethi lleol ar ryw ffurf neu'i gilydd yng Nghymru.

Ceir cyfyngiadau cyllidol a chyfansoddiadol sy'n golygu nad oes modd cyflwyno'r cysyniad arferol o dreth incwm leol, a gesglir fel arfer drwy systemau TWE cenedlaethol, fel treth leol gyfnewid yng Nghymru. Mae hefyd yn golygu nad yw'r astudiaethau blaenorol ar y pwnc hwn yn gwbl drosglwyddadwy. Felly, rydym wedi addasu'r cysyniad ar sail ehangu ar y cyfoeth o arbenigedd mewn llywodraeth leol o ran asesu incwm, ac wedi nodi'n glir y byddai treth o'r fath yn cael ei chodi a'i chasglu'n lleol. Mae llywodraeth leol yng Nghymru eisoes yn cael cyfran o gyllid o dan Gyfraddau Treth Incwm Cymru a threth incwm y DU yn anuniongyrchol drwy ein Grant Cynnal Refeniw gwerth £3.5 biliwn, sef prif ffynhonnell unigol llywodraeth leol o refeniw blynyddol.

Canolbwyntiodd y gwaith cychwynnol a gomisiynwyd gennym yn ystod y tymor hwn ar dreth gyngor gyfnewid yn y lle cyntaf. Gallai'r cysyniad o dreth incwm leol hefyd gael ei gymhwyso at ardrethi annomestig, efallai fel treth fforddiadwyedd sy'n seiliedig ar drosiant, allbwn neu elw i dalwyr ardrethi annomestig. Bydd angen ymchwil ar wahân ar gyfer mathau amgen o dreth incwm yn lle ardrethi annomestig.

Beth yw treth incwm leol?

Mae Treth Incwm Leol fel cysyniad wedi cael ei hystyried yn gyffredinol yn y DU drwy gydol rhan gyntaf yr 21ain Ganrif, yn bennaf gan [Ymchwiliad Lyons](#) yn Lloegr ac [Adolygiad Burt](#) yn yr Alban. Yn 2015, asesodd [Comisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol](#) ddulliau newydd posibl o godi trethi lleol gyda ffocws manwl ar dreth incwm leol. Mae'n fath o dreth sy'n anwybyddu gwerth marchnadol eiddo ac asedau tir ac, yn lle hynny, mae'n dosbarthu'r baich treth ar sail incwm gros neu net gwirioneddol. Mae'r rhan fwyaf o systemau treth incwm wedi'u dylunio mewn bandiau sy'n denu cyfraddau

treth cynyddol, yn aml gyda chyfran sylfaen o incwm sy'n ddi-dreth. Mae rhai trethi incwm yn bersonol i unigolyn, mae rhai yn seiliedig ar aelwyd ac mae eraill yn cynnwys amodoldeb ynghylch y ddwy elfen.



Ymchwil gan Jennie Bunt

Ym mis Ebrill 2020, gofynnwyd i fyryiwr doethurol o Brifysgol Caerdydd ymchwilio i b'un a ellid codi'r dreth gyngor ar sail incwm aelwyd yn hytrach na gwerth eiddo. Cyhoeddwyd *Asesiad o ddichonoldeb treth incwm leol i gymryd lle'r dreth gyngor yng Nghymru* gan Jennie Bunt ym mis Tachwedd 2020 a gellir ei weld [yma](#).

Roedd yr ymchwil yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth ar y defnydd o drethi incwm lleol mewn gwledydd eraill, gyda'r nod o ddeall ble a sut y'u defnyddir, yn ogystal ag unrhyw faterion sy'n codi fel ffurf ar drethiant lleol. Yn ystod yr ail gam, defnyddiwyd themâu allweddol fel y sail dros gyfweiliadau â rhanddeiliaid a oedd ag arbenigedd neu brofiad o drethiant lleol, economeg gymdeithasol a chyllid aelwydydd. Cafodd canfyddiadau'r adolygiad o lenyddiaeth a'r cyfweiliadau eu casglu at ei gilydd i ddiffinio'r ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygu treth incwm leol i Gymru.

Cymariaethau rhyngwladol

O'r cychwyn cyntaf, derbyniwyd ei bod yn annhebygol y gellid cymhwyso system ryngwladol arall at Gymru yn uniongyrchol, oherwydd nodweddion diwylliannol ac economaidd unigryw Cymru fel un o wledydd datganoledig y DU. Serch hynny, mae'r ymchwil yn ddefnyddiol am ei bod yn nodi'r ffordd y mae'n gweithredu mewn rhannau eraill o'r byd. Mae 18 o'r 37 o wledydd sy'n aelodau o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn defnyddio rhyw fath o dreth incwm leol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y dreth yn cael ei chasglu yn y tarddle drwy'r hyn sy'n cyfateb i dalu wrth ennill a CThEM ym mhob un o'r gwledydd hyn. Cyfran fach o refeniw lleol yw trethi incwm leol – llai nag 20% mewn rhai gwledydd megis UDA, Sbaen a Korea ond mae'n cyfrif **am fwy na 90% o refeniw lleol yn y Ffindir a Sweden**. Mae o leiaf chwech o'r 18 o wledydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob trethdalwr gyflwyno ffurflenni treth hunanasesu; mae disgresiwn lleol ynghylch cyfraddau treth yn gyffredin, ond mae'n amrywio o ran ystod y cyfraddau treth; ac roedd rhai gwersi defnyddiol i'w dysgu am gydraddoli cyllidol rhwng ardaloedd o Ddenmarc a Sweden.

Ni ddaeth yr ymchwil ar draws unrhyw enghreifftiau rhyngwladol cyfredol o dreth incwm leol sy'n cael ei hasesu a'i chasglu ar lefel leol ar hyn o bryd, er bod Llywodraeth Cymru yn gwybod am rai enghreifftiau lleol mewn dinasoedd yn UDA. Mae i hyn

oblygiadau wrth ei hystyried fel treth leol gyfnewid i Gymru, o ystyried mai un o'n hamcanion yw diogelu atebolrwydd democrataidd lleol. Gyda meincnodau cyfyngedig a allai fel arall gael eu defnyddio i'n helpu i ddeall gofynion ymarferol allweddol treth incwm leol sy'n cael ei gweinyddu a'i chasglu gan gynghorau, mae'n fwy anodd deall yn llawn sut y gallai treth o'r fath gael ei rhoi ar waith yn ymarferol.

Beth sy'n gyfystyr â'r 'gallu i dalu'?

Mae'r adroddiad yn trafod y cwestiwn pwysig hwn yn fanwl iawn ac yn dod i'r casgliad y byddai angen ystyriaeth ofalus o ran dangosyddion o'r gallu i dalu. Nid yn unig y byddai angen i unrhyw ddangosyddion fod yn ddibynadwy ac yn gywir, ond mae llawer o fathau o incwm a chyfoeth a allai ddylanwadu ar allu rhywun i dalu. Rydym yn cytuno â'r casgliad hwn: mae'n bosibl mai penderfynu pa rai i'w cynnwys fyddai un o'r agweddau mwyaf heriol ar ddylunio treth incwm leol. Er mai incwm o gyflogaeth fydd y prif ddangosydd o'r gallu i dalu i unigolion ac aelwydydd, gallai newid tuag at weithio amrywiadwy dros y degawd diwethaf wneud y broses o asesu incwm yn fwy cymhleth. Mae heriau o'r fath wedi'u cymhlethu gan incwm pobl hunangyflogedig, yn yr ystyr y gallai cronoleg wahanol trethu incwm hunangyflogedig achosi ei heriau ei hun. Gallai cymhlethdodau godi hefyd wrth gategoreiddio'r llu o gynilion a buddsoddiadau fel incwm trethadwy ac incwm nad yw'n drethadwy. Er nad oes yr un o'r cwestiynau hyn yn amhosibl ei ddatrys, byddai angen cryn dipyn o waith pellach, yn bennaf er mwyn deall unrhyw ganlyniadau anfwriadol sy'n deillio o wneud penderfyniadau penodol, megis y risg o guddio incwm.

Hefyd, mae'r ffaith bod incwm o Gredyd Cynhwysol neu fudd-daliadau eraill yn cael eu cynnwys yn golygu bod angen ystyried trothwy incwm isaf ar gyfer treth incwm leol. Nodwn hefyd y gall trethu pensiynwyr fod yn hollbwysig o ran y canfyddiad ynglŷn â threth incwm leol. Ar yr un llaw, drwy beidio â chynnwys pensiynwyr mewn treth incwm leol gallai hynny helpu i ymdrin â'r ddadl ynghylch pobl 'sy'n gyfoethog o ran asedau ond yn dlawd o ran arian' sy'n codi'n aml mewn trafodaethau ynglŷn â gwneud y dreth gyngor yn fwy graddoledig neu roi treth gwerth tir leol ar waith. Ar y llaw arall, mae'n codi heriau ymarferol ynglŷn â chodi refeniw. Ar hyn o bryd, mae aelwydydd o oedran pensiwn yn talu'r dreth gyngor ac mae pensiynwyr incwm isel yn cael cymorth o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Rydym yn cydnabod, pe na bai incwm pensiwn yn cael ei gynnwys o fewn cwmpas asesiad o'r gallu i dalu, y byddai hyn symud baich trethiant ar y boblogaeth o oedran gweithio.

Rydym hefyd yn cytuno mai un o fanteision allweddol treth incwm leol yw'r gallu i ymgorffori o'r cychwyn cyntaf faterion yr ymdrinnir â nhw fell arfer drwy ddisgowntiau ac esemptiadau, megis incwm isel neu statws myfyriwr. Mae hyn yn gysylltiedig â'r syniad o lwfans di-dreth, a fyddai'n peri i lawer o bobl sy'n cael disgowntiau ac esemptiadau ar hyn o bryd lithro allan o'r system dreth yn awtomatig. Dadleuir yn gyffredinol fod y system bresennol ar gyfer y dreth gyngor, sy'n cynnwys llu o ddisgowntiau ac esemptiadau ac yn cynnwys Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, yn drwsgl. Er bod y rhain i gyd yn ddulliau allweddol o leihau natur anraddoledig y dreth, mae dylunio dulliau o'r fath o'r cychwyn cyntaf yn apelio, o safbwynt gweinyddol yn ogystal ag annog pobl i'w thalu.

Asesiad ar lefel unigolyn ynteu aelwyd?

Mae'r adroddiad yn nodi y byddai angen penderfynu a ddylid parhau i ddefnyddio'r aelwyd fel uned drethu, neu anfon biliau at bob oedolyn (sy'n golygu y gallai un aelwyd dderbyn sawl bil). Cawn ein hatgoffa bod y Tâl Cymunedol yn gysylltiedig ag atebolrwydd unigolyn i dalu a bod y rhai a oedd yn gweinyddu'r dreth yn gweld bod nifer mawr o unigolion yn adleoli bob blwyddyn, i ardaloedd cynghorau newydd o bosibl.

Teimlai'r cyfweleion mai treth ar lefel aelwyd fyddai fwyaf priodol oherwydd y ffordd y defnyddir gwasanaethau, ond maent yn cydnabod yr heriau gweinyddol sy'n gysylltiedig ag aelwydydd sy'n cynnwys nifer o oedolion. Er enghraifft, er y byddai cadw'r aelwyd fel uned drethadwy yn unol â'r ffordd yr ymdrinnir â'r hawl i Gredyd Cynhwysol, gallai tai mewn amlfeddiannaeth achosi heriau unigryw, yn enwedig lle roedd un meddiannydd yn ennill cyflog mawr iawn. Mae'r ymchwil yn canfod yn rhyngwladol fod gwledydd sy'n defnyddio treth incwm leol fel arfer yn codi treth ar bob unigolyn yn hytrach na'r aelwyd. Mae hyn yn gorgyffwrdd â'r duedd i'w gwneud yn ofynnol i bobl gyflwyno ffurflenni treth hunanasesu cyffredinol, a'r ddibyniaeth ar hynny i ryw raddau, a'r ffaith bod treth incwm leol yn cael ei didynnu o gyflog yn y tarddle.

Wrth fodelu potensial treth incwm leol, tybiodd Llywodraeth yr Alban ac Ymchwiliad Lyons yn Lloegr y byddai'r dreth yn gysylltiedig â'r cyfeiriad ar y sail y byddai hyn yn cadw'r cysylltiad cryf rhwng y dreth a delir a gwasanaethau a ddarperir yn yr ardal lle mae pobl yn byw ac yn pleidleisio. Fodd bynnag, ar dreth incwm leol a gesglir yn y tarddle drwy TWE roedd y ddau ddarn o ymchwil yn canolbwyntio'n bennaf. Yn gyffredinol, byddai angen gwahaniaethu rhwng treth sy'n gysylltiedig â chyfeiriad rhywun, lle y byddai pob oedolyn yn y cyfeiriad yn cael ei filio'n unigol, ac un lle y byddai fforddiadwyedd ar y cyd yn cael ei asesu ac y byddai bil ar lefel aelwyd yn cael ei anfon. Byddai angen gwneud rhagor o waith ar hyn.

Sut i asesu'r gallu i dalu

Mae'n amlwg o'r ymchwil y byddai angen archwilio'r ffordd y rhennir data rhwng asiantaethau megis CThEM neu'r Adran Gwaith a Phensiynau a chynghorau o bosibl a datblygu hynny'n gyflym er mwyn cyflwyno system treth incwm leol. Er bod hyn yn achosi heriau, y dewis arall fyddai gofyn i gynghorau gasglu'r wybodaeth hon eu hunain o bryd i'w gilydd er mwyn asesu'r atebolrwydd i dalu. Mae'r naill opsiwn a'r llall yn codi ei rwystrau newydd ei hun.

Rydym yn gwybod eisoes fod cynghorau yng Nghymru yn cynnal asesiadau manwl o incwm aelwydydd ac amgylchiadau eraill ar is-set eithaf mawr o sylfaen drethu'r dreth gyngor, e.e. er mwyn nodi bron 300,000 o aelwydydd incwm isel sy'n gymwys o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae pasbortio o'r system fudd-daliadau yn helpu i nodi a yw aelwyd yn gymwys ond ystyrir pob math o wybodaeth arall hefyd. Mae cynghorau hefyd yn brofiadol wrth asesu incwm ac amgylchiadau aelwydydd wrth ystyried ceisiadau am ryddhad dewisol oherwydd caledi, wrth gymryd camau gorfodi a chynnal gweithgareddau adennill dyledion, ac wrth ystyried ceisiadau am ddisgowntiau, diystyriadau ac esemptiadau. Mae cynghorau hefyd yn cynnal profion modd ar gyfer nifer o wasanaethau lleol eraill. Fodd bynnag, arweiniodd y cysyniad o ymestyn prawf modd i bob un o'r 1. 4 miliwn o anheddau domestig yng Nghymru at

ddibenion codi treth leol at ddadl ddiddorol ymhlith y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw fel rhan o'r astudiaeth.

Roedd maint y dasg bosibl i gynghorau pe bai'n rhaid iddynt weinyddu a chasglu treth incwm leol yn bryder a godwyd gan nifer o'r cyfweleion a gymerodd ran yn yr ymchwil. Byddai'r cyfnod o amser ar gyfer asesu incwm yn ffactor pwysig arall gan fod hyn yn dylanwadu ar gronoleg prosesau casglu a rhagweladwyedd referniw. Os caiff incwm ei hunangofnodi, bydd hyn yn cyflwyno risg o gofnodi anghywir a bydd angen rhyw fath o broses archwilio fwy na thebyg. Ar y nodyn hwn, rydym yn cytuno â chanfyddiadau'r ymchwil, **'Mae angen bod yn realistig ynghylch pa mor fawr fyddai'r newid i dreth incwm leol o ran ei gwneud yn ofynnol i bobl gofnodi eu hincwm, o ystyried mai prin iawn y bydd y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn rhyngweithio'n uniongyrchol â'r system dreth.'** Gallai'r gwaith o gofnodi incwm ymddangos yn feichus neu'n fusneslyd, felly byddai angen bod yn ofalus wrth gyfathrebu â'r cyhoedd wrth wneud y math hwn o newidMae'n ddigon posibl y byddai pobl yn ystyried proses o gofnodi incwm yn feichus neu'n fusneslyd. Cynigir y Datganiad Ariannol Unigol fel adnodd posibl i asesu incwm. Fodd bynnag, nid yw'n darparu ar gyfer yr asesiad helaeth o incwm a fyddai'n angenrheidiol o dan dreth incwm leol, ond rydym yn cydnabod y gall gynnig man cychwyn defnyddiol.

Ar y cyfan, nodwn mai dim ond os na fydd y costau'n fwy na'r manteision o ran y referniw a godir a'r tegwch i drethdalwyr y bydd asesu a chasglu'n lleol yn opsiwn hyfyw. Ond ni fyddai newid i fath mwy radical o drethiant lleol yng Nghymru yn cael ei gyflawni dros nos, neu hyd yn oed yn y byrdymor. Byddai angen gwneud llawer mwy o waith paratoi cyn bod modd bwrw ymlaen ag unrhyw opsiwn yn y pen draw.

Disgresiwn Lleol

Mae'r ymchwil yn canfod bod y llenyddiaeth ddamcaniaethol o blaid rhoi disgresiwn i gynghorau ynglŷn â chyfraddau treth, gan y gall hyn hyrwyddo cyfrifoldeb ac annog cynghorau i wella rhagolygon trigolion. Roedd llawer o'r bobl a gymerodd ran yn y cyfweliadau hefyd o'r farn bod hyn yn un o fanteision allweddol posibl treth incwm leol, a hynny'n ymarferol ac yn symbolaidd. Awgrymodd rhai y dylid cyfyngu amrywiadau i amrediad bach er mwyn osgoi anghydraddoldebau mawr ledled Cymru.

Rydym yn cytuno â'r canfyddiad y byddai angen ystyriaeth ofalus wrth ddylunio system fel na fyddai'n cyflwyno anghydraddoldebau newydd nac yn mynd yn agored i gamfanteisio. Mae'r ymchwil yn ein hatgoffa nad oedd disgresiwn lleol dros gyfraddau yn boblogaidd ymhlith y cyhoedd pan gynhaliodd Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad ar dreth incwm leol yn 2008. Felly, byddai angen dylunio'r ffordd y cydraddolir cyllid cyffredinol yn ofalus er mwyn sicrhau na chaiff cymhellion i gynghorau ddatblygu eu potensial i godi referniw eu dileu, ac osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ran pennu cyfraddau treth lleol, ac felly amrywiol, ledled Cymru ar yr un pryd. Fodd bynnag, ar y cyfan, rydym yn haeru bod ymreolaeth leol yn un o'r ystyriaethau allweddol ar gyfer trethi lleol yng Nghymru ac y dylid rhoi ffocws penodol arni yng nghyd-destun unrhyw newid tuag at dreth incwm leol yn y dyfodol.

Trefniadau trosiannol

O ran trefniadau trosiannol o un math o dreth i un arall, mae'r ymchwil yn awgrymu y dylid cynnwys trethdalwyr ym mhob un o'r tri cham, sef dylunio, gweithredu a gwerthuso, er mwyn annog y cyhoedd i ddeall y dreth ac ennyn mwy o gefnogaeth iddi. Yn wir, byddai angen i'r newid o dreth gyngor i dreth incwm leol gael ei gynllunio'n ofalus, gan ystyried rhyddhadau a chynlluniau eraill i leddfu effaith cynnydd sydyn mewn biliau. Pe bai'r system yn fwy graddoledig, byddai llawer o drethdalwyr yn gweld gostyngiadau yn eu biliau.

Mae'r ymchwil hefyd yn ystyried y posibilrwydd o gynghorau yn gohirio rhoi treth incwm leol ar waith er mwyn rhoi digon o rybudd i drethdalwyr ynglŷn â newid tuag at fath newydd o dreth leol, yn ogystal â chynlluniau gohirio taliadau i'r rhai heb ddigon o arian i wneud taliadau fel arfer. Mae'r adroddiad yn nodi bod rhyddhadau trosiannol dros gyfnod penodedig wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn y gorffennol ond bod costau sylweddol yn gysylltiedig â'r rhain. Unwaith eto, nid yw'r cysyniad o gynlluniau rhyddhad trosiannol yn unigryw i dreth incwm leol a byddai angen iddynt fod yn ystyriaeth allweddol o ran unrhyw ddiwygiadau mawr i drethi lleol yng Nghymru.

Newid ymddygiadol

Daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad y byddai angen dylunio treth incwm leol ar sail cyfeiriad sefydlog prif breswylfa, ni waeth ble mae pobl yn gweithio, neu fel arall ni allai weithredu fel treth leol. Mae'r ymchwil yn canfod y byddai treth incwm leol yn lle'r dreth gyngor, serch hynny, yn dangos mwy o symudedd. Canfu [Comisiwn Holtham](#) yn 2010 fod 50% o boblogaeth Cymru yn byw o fewn 25 milltir i'r ffin â Lloegr, o gymharu â dim ond 3.5% o boblogaeth yr Alban a oedd yn byw o fewn 25 milltir i'w ffin â Lloegr. Mae hyn hefyd yn codi cwestiynau ynglŷn â symudedd o fewn Cymru, pe bai treth incwm leol yn cael ei dylunio fel bod angen cwmpasu 22 o ffiniau cynghorau lle y codir cyfraddau treth gwahanol. Er y gallai treth incwm leol fod yn fwy graddoledig na dulliau eraill drwy sicrhau perthynas fwy uniongyrchol ag incwm gwario aelwydydd, mae'n debygol y byddai'r rhai sy'n ennill incwm mawr iawn hefyd yn gallu symud yn rhwydd iawn pe bai'r gwahaniaeth mewn cyfraddau treth lleol yn rhy fawr. Gall y risg hon olygu y caiff sefydlogrwydd refeniw ei ffafrio dros fanteision graddoledig y dreth.

Mae'r ymchwil yn pwysleisio **hyd y ffin a'r crynodiadau o drethdalwyr mewn cynghorau ffiniol megis Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Fynwy, mwy o botensial ar gyfer ffoi cyllidol o Gymru i Loegr**, yn enwedig gan y rhai y mae treth incwm leol yn fwy costus na'r dreth gyngor ar hyn o bryd. Mae hefyd yn awgrymu y dylid bod yn arbennig o ofalus wrth ddylunio'r system i fyfyrwyr er mwyn diogelu gweithlu a sylfaen drethu'r dyfodol. Mae'n debygol y bydd ffoi cyllidol i'w weld yn bennaf ymhlith pobl ar incwm uchel sydd â'r modd i symud, ond byddai colli hyd yn oed nifer bach o'r bobl hyn yn cael effaith sylweddol ar y sylfaen drethu yng Nghymru. Mae'r ymchwil hefyd yn nodi, lle mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i bennu eu cyfraddau eu hunain, y gallai ffoi cyllidol ar lefel leol newid ffurf dosbarthiad treth ledled Cymru, gan greu risg o 'ras i'r gwaelod' er mwyn denu pobl ar incwm uchel i ardaloedd lleol.

Yn olaf, bydd y graddau y caiff trethdalwyr eu cymell i weithio neu gynilo yn dibynnu'n helaeth ar y ffordd y caiff y gallu i dalu ei ddiffinio. Bydd hyn hefyd yn penderfynu faint

o gyfleoedd a gaiff trethdalwyr i drin eu cyllid mewn ffordd sy'n lleihau eu rhwymedigaeth i dalu treth leol. Roedd y rhai a gymerodd ran yn y cyfweiliadau'n anghytuno ar faint o bobl y gallai hyn ddylanwadu ar eu penderfyniadau ynglŷn â gwaith, ac a yw problemau o'r fath eisoes i'w gweld mewn perthynas â'r dreth gyngor. Efallai mai'r pwynt allweddol i'w nodi yw, pe bai treth leol sy'n seiliedig ar incwm yn cael effaith ddatchwyddol gyffredinol ar y parodrwydd i weithio, y gallai hyn leihau'r sylfaen drethu ac amharu ar allu cyngorau i godi treth yn sylweddol.

Casgliad

Mae canfyddiadau'r adroddiad yn dangos y byddai treth incwm a weinyddir yn lleol i Gymru yn system unigryw wrth ystyried enghreifftiau rhyngwladol o drethiant lleol. Mae hefyd yn ystyried nifer o heriau, gan gynnwys sut i ddiffinio'r gallu i dalu. Yn bwysig ddigon, mae'r ymchwil yn canfod y gallai llawer o agweddau ar y broses o roi treth incwm leol ar waith ofyn am ehangu'n sylweddol y ddarpariaeth bresennol a'r sgiliau sy'n bodoli eisoes mewn cyngorau, ond un o'r manteision allweddol o bosibl yw'r gallu i lunio terfyn incwm isaf o'r cychwyn cyntaf, er mwyn cyflawni ein hamcan o drethi lleol tecach a mwy graddoledig.

Mae'r ymchwil hefyd yn tynnu sylw at y bylchau o hyd yn y dystiolaeth. Er mwyn ystyried dichonoldeb treth incwm leol yng Nghymru ymhellach, ynghyd â'i dyluniad posibl, nodir nifer o feysydd lle mae angen gwneud ymchwil bellach. Crynhoir y rhain isod:

1. Modelu gwirioneddau economaidd treth incwm leol. Prif nod gwaith modelu yw rhagweld y potensial i godi refeniw a gwella'r ddealltwriaeth o'r ffordd y gall baich trethiant lleol newid ar gyfer mathau gwahanol o ddemograffeg, gan gynnwys asesu unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb.
2. Ymchwilio i ba raddau y mae dinasyddion o oedran pensiwn yn ei chael hi'n anodd talu'r dreth gyngor, gan ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i ddiffinio'r gallu i dalu treth incwm leol a phenderfynu a fyddai angen darpariaeth amgen ar gyfer y grŵp demograffig hwn.
3. Ymchwilio'n fanylach i ddichonoldeb rhannu data mewn perthynas ag asesu'r gallu i dalu, gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol megis CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau.
4. Ymchwilio ymhellach i'r mathau o gyflogaeth sy'n cyfrannu fwyaf at y sylfaen drethu yng Nghymru, er mwyn deall y lefel o anwadalrwydd posibl yn ystod cyfnodau o ddirywiad economaidd.
5. Ymgynghori â chynghorau er mwyn deall eu barn ar ddichonoldeb treth incwm leol, unwaith y bydd set glir o opsiynau ar gyfer ei gweinyddu wedi cael ei datblygu. Dylai'r ymgynghoriad hwn ganolbwyntio ar yr heriau ymarferol y byddai angen eu goresgyn er mwyn i gynghorau allu newid i dreth incwm leol a'i gweinyddu'n llwyddiannus.
6. Ymgynghori â'r cyhoedd ar y cysyniad o dreth incwm leol ac a ddylai cynghorau gael disgrisiwn i amrywio cyfraddau treth rhwng ardaloedd. Dylai'r

ymgyngoriad hwn fod yn rhan o ymgyrch gyfathrebu ehangach sy'n esbonio sail resymegol y diwygiadau'n glir.

7. Gwneud gwaith ymchwil gyda'r cyhoedd er mwyn deall pa ffactorau sy'n llywio penderfyniadau ynglŷn â symud cartref. Gallai hyn wella dealltwriaeth o'r risg wirioneddol o ffoi cyllidol i wledydd eraill, neu rhwng ardaloedd cynghorau, mewn ymateb i ddiwygiadau treth.

Ymchwil nodedig arall

[Mae ein hadolygiad o'r dystiolaeth ynglŷn â systemau cyllid llywodraeth leol](#) yn nodi bod treth incwm leol wedi cael ei hystyried gan adolygiadau a chomisiynau yn y DU sy'n dyddio'n ôl i ddechrau'r ugeinfed ganrif. Gwrthododd y Comisiwn Brenhinol ar Drethiant Lleol yn 1901 a Phwyllgor Kempe yn 1914 y cysyniad ond, yn 1976, daeth Pwyllgor Layfield i'r casgliad mai treth incwm leol oedd yr unig ffynhonnell fawr newydd ddichonadwy o incwm i awdurdodau lleol.

Ymchwiliad Lyons (2007)

Yn fwy diweddar, cefnogodd [Lyons](#) (2007) y cysyniad ac ystyriodd ddau opsiwn a oedd yn seiliedig ar system dreth 2007 a chyfraddau fel tâl ychwanegol i gyfradd sylfaenol treth incwm ar y pryd, sef 22c. Dadleuodd Lyons fod trethi incwm yn decach na threthi eiddo, gan adlewyrchu'r gallu i dalu'n well, ond daeth i'r casgliad y byddai'n cael mwy o effaith ar y rhai o oedran gweithio na'r rhai a oedd wedi cronni cyfoeth mewn eiddo. Er i ddau senario gael eu modelu (un yn disodli'r dreth gyngor yn gyfan gwbl ac un yn rhannol), ar dreth incwm leol a oedd yn cael ei chasglu yn y tarddle drwy TWE roedd y naill a'r llall yn canolbwyntio'n bennaf. Fodd bynnag, mae'r ymchwiliad yn taflu goleuni ar ganfyddiadau o dreth incwm leol, sy'n dal yn berthnasol wrth ei hystyried fel treth a weinyddir yn lleol.

Adolygiad Burt yn yr Alban (2006)

Mewn gwrthgyferbyniad, gwrthododd Syr Peter Burt y syniad o dreth incwm leol, a hynny'n seiliedig ar bryderon a oedd yn cynnwys yr effaith ar gymhellion i weithio, a hefyd am fod trethi incwm eisoes yn cyfrif am gyfran gymharol fawr o gyfanswm refeniw treth y DU. Mae'r [adolygiad](#) yn tynnu sylw at y ffaith y *dylai* eiddo fel procsi am gyfoeth fod yn rhan o'r fasged gyffredinol o drethi yn y DU, ac na fyddai modd rhagweld faint o refeniw a godir drwy dreth incwm leol. Yn ei adroddiad terfynol, daw i'r casgliad, pe bai treth incwm leol yn cael ei chyflwyno, y dylai gael ei hasesu a'i chasglu drwy ddefnyddio'r trefniadau sydd eisoes ar waith ar gyfer treth incwm y DU (TWE). Yn bwysig ddigon, nodir y byddai treth incwm leol ond yn deg pe bai'n cael ei chodi ar *bob* math o incwm, ond y byddai hynny'n hynod gymhleth a chostus i'w wneud, ac yn enwedig os mai awdurdodau lleol oedd yn gyfrifol am ei chasglu.

Comisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol

Yn 2015, ystyriodd [Comisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol](#) dreth incwm leol i'r Alban. Roedd yn adlewyrchu strwythur treth incwm Llywodraeth y DU ac yn ychwanegu cyfradd safonol ychwanegol i'r cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac

ychwanegol yn lle'r dreth gyngor bresennol yn yr Alban. Canfu arolwg helaeth a gynhaliwyd gan y Comisiwn fod treth incwm leol yn gymharol hawdd i'w deall gan ymatebwyr, ond mae'r adroddiad terfynol yn cydbwyso'r dadansoddiad hwn â phryderon y gallai treth incwm leol amharu ar atebolrwydd lleol, yn ogystal â phryderon ynglŷn â'r ffordd y câi ei gweinyddu. Unwaith eto, mae hwn hefyd yn nodi mai'r brif her yw sicrhau bod treth incwm leol yn gymwys i bob math o incwm.

Yr hyn a ddysgwyd gennym

Gweithgor

Nododd ein Gweithgor Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yn y gorffennol mai'r cysyniad o godi trethi lleol ar sail incwm oedd y dreth fwyaf addas yn y cyd-destun domestig, ac ar hynny y mae ein hymchwil wedi canolbwyntio yn ystod y tymor hwn. Er bod y gweithgor o'r farn y gallai fod mwy o risgiau i refeniw a mwy o anwadalrwydd yn gysylltiedig â dull gweithredu o'r fath o gymharu â dulliau eraill o drethiant lleol (er enghraifft, yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad a chyflogaeth is), nodwyd bod rhai gwledydd Sgandinafaidd yn gweinyddu math o dreth incwm leol yn effeithiol iawn. Felly, roedd y cysyniad, wrth ei chymhwyso at Gymru, yn werth ei ystyried ymhellach.

Roedd ein briff ymchwil yn glir sef asesu dichonoldeb treth sy'n seiliedig ar y gallu i dalu a *weinyddir yn lleol*, a hynny am nad yw treth a gesglir drwy TWE gan CThEM yn fath o drethiant lleol a ganiateir o dan y setliad datganoli presennol. Er bod y cysyniad hwn yn eithaf gwahanol i drethi incwm lleol a ddefnyddir mewn gwledydd eraill, sy'n cael eu casglu yn y tarddle yn bennaf ac yna'u dosbarthu i lywodraethau is-genedlaethol, roedd ein gwaith yn ystod y tymor hwn yn canolbwyntio ar ymchwilio i'r ffordd y gallai'r arbenigedd mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd gael ei ddefnyddio i weinyddu math gwahanol o drethiant lleol. Byddai trefniadau gweinyddu lleol hefyd yn osgoi rhoi baich gweinyddol ychwanegol ar gyflogwyr.

Casgliadau

Roeddem yn awyddus iawn i droi'r opsiynau cysyniadol yn gamau gweithredu ymarferol er mwyn deall y prif fanteision a'r rhwystrau i weithredu. Mae'r canlynol yn amlinellu ein casgliadau.

- **Dewisiadau o ran dyluniad:** mae'r gwahanol astudiaethau yn awgrymu y byddai bandiau yn well na system gwerth arwahanol ac y byddai hyn yn fath mwy cydnabyddedig o dreth incwm. Mae'r cyfle i ddiystyru isafswm lefel incwm fel lwfans di-dreth yn atyniadol ac o ganlyniad ni fyddai angen llawer o'r cynlluniau cymorth sy'n ffurfio rhannau sylweddol o'r system bresennol. Mae hefyd yn rhoi cyfle i gysoni polisi â dewisiadau o ran Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Ond mae'n ymddangos mai'r uned drethu o dan dreth incwm leol fyddai'r aelwyd yn hytrach nag unigolyn, o ganlyniad i fwy o symudedd ymhlith unigolion, cymhlethdod a'r profiad o'r Tâl Cymunedol. Mae uned drethu ar ffurf aelwyd yn anghyffredin o ran enghreifftiau rhyngwladol o dreth incwm leol.
- **Oedran pensiwn ac oedran gweithio:** codir trethi incwm yn draddodiadol o sylfeini treth oedran gweithio ond eto nid yw'r dreth gyngor erioed wedi cael ei

chyfyngu i bobl o oedran gweithio. Nid oes unrhyw reswm ymarferol na damcaniaethol pam na allai aelwydydd oedran pensiwn gyfrannu at dreth incwm leol. Yn wir, dylai treth incwm leol fod yn fwy graddoledig na'r system bresennol, gan gefnogi'r rhai ag incwm is, ond byddai hwn yn fater ar gyfer ystyriaeth wleidyddol.

- **Data ar incwm:** un ffactor mawr sy'n codi wrth ddylunio treth incwm leol yw a allai cynghorau gael mynediad at ddata CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau, a chyrrff eraill o bosibl, rywbyrd yn y dyfodol. Byddai hyn yn lleihau'r gwaith gweinyddol i gynghorau a'r baich ar drethdalwyr yn fawr iawn. Ar y cam cynnar hwn, nid ydym wedi dechrau trafodaethau ag adrannau perthnasol, ond byddai'n elfen i'w hystyried ar unwaith pe bai'r llywodraeth am fwrw ymlaen â chynigion ar gyfer treth incwm leol a weinyddir yn lleol.
- **Beth yw incwm:** mae dangosyddion di-rif i'w cynnwys neu beidio â'u cynnwys wrth ddiffinio incwm ac efallai y bydd angen i hyn newid dros amser er mwyn cyd-fynd â newidiadau mewn trethi a budd-daliadau eraill. Bydd angen i wybodaeth am y dangosyddion fod yn ddibynadwy, yn amserol ac yn gywir. Ni fyddai angen swyddogaeth prisio eiddo ar raddfa fawr. Efallai y byddai manteision o ran rhoi rhyw fath o rôl neu gyfrifoldeb i asiantaeth annibynnol fel rhan o'r trefniadau, ar yr amod nad yw hyn yn gwanhau atebolrwydd lleol.
- **Dadansoddi effeithiau:** ni allai'r astudiaeth hon gynnwys dadansoddiad meintiol am nad oedd data ar incwm aelwydydd ar gael ar y lefel fanwl gywir sydd ei hangen. Yr unig allbwn y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio ar hyn o bryd yw amcangyfrifon o'r Arolwg o Adnoddau Teuluoedd gan y SYG, y mae'n rhaid ei ddefnyddio ar lefel gyfanredol oherwydd meintiau samplau, er ei fod ar gael ar lefel cofnodion wedi'u hanonymeiddio. Bydd angen gwneud rhagor o waith i sicrhau ffynonellau data eraill.
- **Ffoi cyllidol:** nid oes unrhyw gasgliad eto ynghylch lefel y risg o ffoi cyllidol dros y ffin o gymharu â'r hyn sydd eisoes yn rhan gynhenid o'r system treth eiddo. Mae llawer o ffactorau eraill yn cael mwy o ddylanwad ar ble mae pobl yn dewis byw na chyfraddau trethi lleol, ac mae cyfraddau'r dreth gyngor eisoes yn wahanol rhwng gwledydd a rhwng cynghorau. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai'r effeithiau yn amlwg iawn ymhlith y rhai sy'n ennill incwm uchel iawn. Nid yw'n glir a allai llywodraeth yn y dyfodol fesur y risg i reffeniw gyda digon o sicrwydd. Byddai senarios wedi'u modelu yn helpu pe gellid cael y data manwl gywir sydd eu hangen.
- **Sefydlogrwydd refeniw:** mae trethi incwm lleol yn tueddu i amrywio o ran yr hyn a godir yn unol â chyfnodau economaidd da a gwael am fod cyfradd dreth sefydlog yn cael ei chymhwyso at incwm sy'n amrywio. Fodd bynnag, efallai bod modd dylunio treth incwm leol i ddiogelu rhag amrywioldeb o'r fath, drwy edrych ar y trefniadau yn y gwledydd Sgandinafaidd. Ar hyn o bryd, mae gofyniad cyfreithiol ar gynghorau i bennu cyllideb cyn penderfynu ar swm y dreth gyngor y mae angen ei godi i dalu am y gyllideb honno. Gallai cyfraddau sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn fod yn heriol yn dechnegol ac yn anodd i drethdalwyr eu deall. Byddai rhai syniadau o ran dyluniad yn fwy agored i newidiadau mewn trethi a budd-daliadau mewn mannau eraill.

- **Gofynion deddfwriaethol a chyfansoddiadol:** mae'n debygol y byddai cyflwyno treth leol sy'n seiliedig ar incwm yn lle'r dreth gyngor, ardrethi domestig neu'r ddau yn gofyn am sawl Deddf gan y Senedd a chorff mawr o is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i gydgrynhoi a moderneiddio'r statud. Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru negodi pyrth cyfreithiol newydd er mwyn helpu i ddarparu data ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Gan na fyddai angen swyddogaeth prisio eiddo yng Nghymru mwyach, byddai angen cydsyniad Llywodraeth y DU i ddiddymu'r swyddogaeth. O ystyried ehangder y newid deddfwriaethol sydd ei angen, efallai y bydd rhwystrau cyfansoddiadol eraill a bydd angen gwneud rhagor o waith i archwilio a yw'r Senedd yn gallu deddfu yn y maes hwn heb ddatganoli rhagor o bwerau iddi.
- **Derbynioldeb ymhlith y cyhoedd:** mae cryn ymwybyddiaeth o drethi sy'n seiliedig ar incwm a derbynnir y ddadl ynglŷn â'u natur raddoedig yn gyffredinol. Fodd bynnag, byddai'r graddau y mae'r cyhoedd yn derbyn symud i dreth incwm leol yn dibynnu ar faint o'r baich gweinyddol ar roddir ar drethdalwyr, er enghraifft ffurflenni treth hunanasesu blynyddol yn erbyn bil a gyfrifir gan y cyngor drwy ddefnyddio data gweinyddol.
- **Amserlen:** yn seiliedig ar yr ystyriaethau hyn, mae'n ymddangos y gallai'r amserlen ar gyfer datblygu a gweithredu treth incwm leol fod yn fyrrach na'r amserlen ar gyfer treth gwerth tir leol. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai angen mwy nag un tymor Senedd o bum mlynedd o hyd oherwydd faint o ymgynghori a deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth fyddai'n angenrheidiol.

Yn gyffredinol, mae natur hynod raddoedig treth incwm leol yn cyflawni ein prif amcan wrth ddiwygio cyllid llywodraeth leol, ond mae'n llai hysbys sut y byddai hyn yn gweithredu yng Nghymru na mathau eraill o dreth o bosibl. Rydym yn cydnabod mai un o nodweddion allweddol y trethi lleol presennol yw'r cysylltiad daearyddol uniongyrchol rhwng lleoliad eiddo, ardal y cyngor lle y codir y dreth a ble mae penderfyniadau ynglŷn â darparu gwasanaethau lleol yn cael eu gwneud – ac mai aelwydydd yn hytrach nag unigolion sy'n cael budd o wasanaethau lleol fel arfer. Er bod yr ymchwil i dreth incwm leol yn codi nifer o ystyriaethau a meysydd ar gyfer gwaith pellach, erys cwestiynau allweddol heb eu hateb ynglŷn â'r cysyniad rydym yn ceisio ei ddeall. Nid yw hynny'n ymwneud â'r cwestiwn a ellid cymhwyso treth incwm ar ei ffurf bresennol yn lleol, ond a allai'r drefn codi treth bresennol ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig a weinyddir yn lleol gael eu dylunio mewn ffordd symlach ar sail asesiadau o'r gallu i dalu.

Ardrethi annomestig

Er nad yw'r ymchwil yn ystod y tymor hwn wedi astudio a allai treth incwm leol ddisodli ardrethi annomestig eto, mae'n ddefnyddiol nodi sut y gellid cymhwyso'r cysyniad ehangach yn y cyd-destun hwn. Mae rhai categorïau o dalwyr ardrethi eisoes yn talu ardrethi yn ôl asesiadau o drosiant a ffigurau masnach, gan fod y ffactorau hyn wedi'u cynnwys yn y gwerth ardrethol a asesir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar gyfer sawl sector a diwydiant. Mae ymchwil Jennie Bunt ar gymariaethau rhyngwladol yn dangos bod 11 o wledydd sy'n aelodau o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn cymhwyso math o dreth incwm leol at 'endidau corfforaethol'.

Mae llywodraethau olynol wedi mynd i'r afael â'r ddadl ynglŷn â thegwch i'r rhai y mae angen uned ffisegol arnynt i gynnal busnes a'r rhai nad oes angen un arnynt, ond yn fwy nag erioed o ystyried y cynnydd mewn gweithgarwch masnachol ar-lein ac effaith COVID-19. Mae hyn wedi arwain at ystyriaeth fwy difrifol o syniadau fel trethi gwerthu ar-lein gan Lywodraeth y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gall treth amgen sy'n seiliedig ar incwm yn lle ardrethi annomestig helpu i liniaru rhywfaint o'r annhegwch canfyddedig a achosir gan yr agwedd hon. Ond mae'n bwysig cofio nad yw ardrethi annomestig wedi'u dylunio ar hyn o bryd i fod yn dreth ar fusnes. Maent yn gyfraniad treth eiddo leol tuag at gost gwasanaethau mewn ardal (fel yn achos y dreth gyngor), gan gynnwys gwasanaethau ar raddfa fawr y mae talwyr ardrethi yn cael budd ohonynt megis addysgu gweithlu'r dyfodol. Ni allai rhywbeth fel treth ar werthiannau ar-lein i fynd i'r afael â'r dadleuon weithredu fel treth leol yng Nghymru.

Er mwyn aros yn dreth leol o dan y trefniadau datganoli, byddai angen o hyd i dreth amgen yn lle ardrethi annomestig sy'n seiliedig ar incwm fod yn gysylltiedig â chyfeiriad masnachol sefydlog. Fodd bynnag, drwy symud mwy tuag at asesiadau o'r atebolrwydd i dalu sy'n seiliedig ar incwm, gellid dechrau cyfuno dau fath gwahanol iawn o gyfraniad trethadwy tuag at wasanaethau lleol (yn seiliedig ar eiddo ac yn seiliedig ar fusnes). Nid busnesau yw pob talwr ardrethi, ac nid oes angen eiddo ar lawer o fusnesau i weithredu. Rydym hefyd yn awgrymu bod y cysyniad o dreth incwm leol yn rhoi llai o gyfle ar gyfer treth unigol sy'n cwmpasu cyd-destunau domestig ac annomestig nag y gallai'r syniad o dreth gwerth tir leol ei gynnig.

Meysydd ar gyfer gwaith pellach

Y meysydd allweddol i'w hystyried ymhellach os penderfynir bwrw ymlaen â threth incwm leol fyddai:

- Amlinellu gofynion data a dechrau trafodaethau ag adrannau perthnasol Llywodraeth y DU ynglŷn â dichonoldeb rhannu data yn y dyfodol. Cynnal ymarfer costio manwl ar gyfer y seilwaith digidol angenrheidiol;
- Mapio'r dull asesu amgen os na fydd rhannu data ar incwm yn ddichonadwy. Trafod safbwyntiau, cyfleoedd a chyfyngiadau â llywodraeth leol;
- Deall goblygiadau newidiadau mewn trethi a budd-daliadau eraill i'n polisi ein hunain ynglŷn â threth incwm leol. Ystyried y cysylltiad â'r polisi ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru.
- Cynnal dadansoddiad ystadegol o incwm lle y bo modd a llunio opsiynau ar gyfer dyluniadau, e.e. ar fandiau a chyfraddau treth. Ystyried a oes modd diogelu'r swm a godir rhag cyfnodau economaidd gwael;
- Dadansoddiad llawnach o'r gofynion deddfwriaethol a datganoli.

7. Diwygio'r Dreth Gyngor

Yn y bennod hon byddwn yn trafod:

- Manteision a chyfyngiadau'r dreth gyngor
- Ymchwil y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
- Ymchwil Prifysgol Sheffield
- Diwygiadau posibl eraill
- Dulliau prisio
- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
- Yr hyn a ddysgwyd gennym, gan gynnwys meysydd ar gyfer gwaith pellach.

Hyd yma yn y ddogfen hon, rydym wedi trafod dulliau amgen a fyddai'n newid radical o'r system bresennol o godi refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol. Mae'r bennod hon yn trafod sut y gellid diwygio'r dreth gyngor pe bai'r llywodraeth yn cadw system sylfaenol y dreth gyngor fel treth eiddo draddodiadol, ond dod o hyd i ffyrdd o'i gwella.

Manteision a Chyfyngiadau'r Dreth Gyngor

Mae gan y system bresennol lawer o fanteision y dylid tynnu sylw atynt a'u cadw o bosibl mewn trefniadau yn y dyfodol. Mae treth gyngor:

- yn dreth leol hynod effeithlon sy'n cyflawni cyfraddau casglu o fwy na 97% yng Nghymru yn gyson o flwyddyn i flwyddyn, gyda chostau gweinyddu isel (llai nag 1% o'r swm a godir);
- yn gymharol hawdd ei deall gan drethdalwyr oherwydd ei strwythur a'i hirhoedledd, ac mae'n fwy anodd ei hosgoi na threthi eraill;
- yn ffrwd refeniw sy'n parhau i godi lefelau da o refeniw yn naturiol oherwydd twf blynyddol yn y sylfaen drethu o ganlyniad i dwf yn y boblogaeth ac adeiladu tai;
- yn cynnig cryn dipyn o hyblygrwydd i gynghorau wrth bennu blaenoriaethau cyllidebol, gan alluogi atebolrwydd uniongyrchol ac ymgysylltu â dinasyddion ynglŷn â'r defnydd o arian cyhoeddus;
- yn un o swyddogaethau gweinyddol allweddol cynghorau, gan roi gwybodaeth hanfodol am amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, a darparu swyddi o ansawdd uchel yn y sector cyhoeddus sydd wedi'u gwasgaru ledled y wlad;
- yn diogelu aelwydydd incwm isel ac yn rhoi cymorth sylweddol i'r rhai sydd â llai o allu i fodloni eu hatebolrwydd i dalu.


Mae **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021** yn cynnwys ymrwymiad i adolygu'r dreth gyngor er mwyn ei gwneud yn decach ac yn fwy graddoledig. Mae llawer wedi'i

gyflawni tuag at y nod hwnnw yn ystod tymor y Senedd hon, fel yr amlinellir ym Mhennod 2, wrth inni ystyried opsiynau yn y tymor hwy.

A allai'r dreth gyngor fod yn fwy graddoledig?

Mae'n anodd mesur pa mor raddoledig yw'r dreth gyngor yng Nghymru am fod camau lliniaru sylweddol a hirsefydledig wedi'u hymgorffori yn y system, megis Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Roedd ein hymchwiliadau yn 2017 yn dangos mai dim ond 55% o aelwydydd ag atebolwydd i dalu sy'n gorfod talu bil llawn y dreth gyngor ac o edrych ar ddosbarthiad yr atebolwydd i dalu (yn glir o ddisgowntiau a chymorth) mae'r dreth gyngor yn llawer llai anraddoledig o'i chymharu â gwerth eiddo. Mae Ffigur tri yn dangos y cyfraddau treth mewn perthynas â gwerth eiddo ar gyfer pob brand (at ddibenion enghreifftiol rydym wedi defnyddio trothwy gwerth uchaf pob band).

Ffigur tri : Cyfraddau treth enghreifftiol sy'n seiliedig ar y trothwy gwerth uchaf



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru.

Mae cwestiynau yn codi hefyd ynghylch a ddylai'r mesur cywir o dreth 'raddoledig' ymwneud â gwerthoedd eiddo neu incwm gwario gwirioneddol neu ryw fath o fesur arall. Fodd bynnag, rydym yn cytuno bod y strwythur sylfaenol o fandiau yn anraddoledig ei ddyluniad ac y gellid ei ddylunio'n wahanol. Mae ein gallu i wneud newidiadau wedi'i gyfyngu oni chynhelir ymarfer ailbriso. Gallai newidiadau o'r fath helpu i wneud y system yn decach: er enghraifft, efallai y byddai'n bosibl ychwanegu bandiau i wneud y dreth yn fwy graddoledig neu foderneiddio'r trothwyon i gyd-fynd yn well ag amodau presennol y farchnad.

Beth yw ymarfer ailbriso'r dreth gyngor?

Mae dros 1.4 miliwn o anheddau trethadwy yng Nghymru sy'n agored i dalu'r dreth gyngor. Caiff pob eiddo ei osod yn un o naw band ar sail gwerthoedd eiddo ac amodau'r farchnad dai ar 1 Ebrill 2003, sef y tro diwethaf i sylfaen y dreth gyngor gael ei diweddarau a'i hailbriso. Cymru yw'r unig ran o'r DU sydd erioed wedi diweddarau ei

sylyfaen drethu ers ei chyflwyno, sy'n golygu bod biliau treth gyngor yn Lloegr a'r Alban yn seiliedig ar brisiadau yn 1991 (mae Gogledd Iwerddon yn gweithredu system wahanol o ardrethi domestig). Ychwanegodd Cymru fand gwerth uchaf hefyd fel rhan o'r ymarfer ailbrizio. Asiantaeth y Swyddfa Brizio yw'r corff annibynnol sydd wedi cael y dasg o gynnal y rhestr brizio ac mae'n gosod pob eiddo mewn band. Mae gan bob un o'r naw band gyfradd dreth sy'n gymharol â'r bandiau eraill a bennir gan gymarebau sy'n cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru, ond cynghorau lleol fydd yn gosod y dreth gyngor ei hun.

Tabl un: Bandiau'r Dreth Gyngor yng Nghymru

Band	Cyfradd dreth mewn cymhariaeth â Band D	Prisiad ar 1 Ebrill 2003
A	6/9	Hyd at £44,000
B	7/9	£44,001 i £65,000
C	8/9	£65,001 i £91,000
D	1	£91,001 i £123,000
E	11/9	£123,001 i £162,000
F	13/9	£162,001 i £223,000
G	15/9	£223,001 i £324,000
H	2	£324,001 i £424,000
I	21/9	Uwchlaw £424,000

Gallai cyfraddau treth pob un o'r naw band gael eu newid fel bod eiddo gwerth uwch yn talu mwy o dreth fel canran nag eiddo gwerth is. Fodd bynnag, byddai biliau treth yn dal yn seiliedig ar werthoedd eiddo 2003 nad ydynt wedi'u diweddaru ers 18 mlynedd, sy'n creu anghywirdeb ac annhegwch o bosibl drwy beidio ag adlewyrchu amodau presennol y farchnad. Nid yw gwelliannau ffisegol i eiddo ers 2003 wedi'u cofnodi eto oni bai bod yr eiddo wedi cael ei werthu, felly gallai cartref fod wedi cael ei estyn yn sylweddol, gan arwain at gynnydd yn ei werth, ond eto erys y gyfradd dreth yn ddigyfnewid. Felly, byddai modd dadlau y dylai ymgais i wneud y dreth gyngor yn fwy graddoledig fynd law yn llaw ag ymarfer ailbrizio eiddo.

Mae'r rhestr brizio a gynhelir gan Asiantaeth y Swyddfa Brizio yn gosod eiddo mewn bandiau ac nid yw'n cofnodi gwerth pris rhifyddol ar gyfer pob eiddo, fel y mae'n ei wneud ar gyfer ardrethi annomestig. Mae hyn yn golygu na allwn addasu'r strwythur bandio i greu bandiau newydd heb ailbrizio'r sylfaen drethu. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyfarwyddo Asiantaeth y Swyddfa Brizio i ailbrizio, a byddai hyn yn cael ei gynnal gan Asiantaeth y Swyddfa Brizio yn unol â'r tybiaethau a'r egwyddorion a bennir gan y Gweinidogion. Roedd yr ymarfer yn 2003-2005 wedi costio'r hyn sy'n cyfateb i £26 miliwn heddiw, roedd yn gofyn am sawl darn o ddeddfwriaeth a threfniadau cymhleth i hwyluso cyfnod pontio i drethdalwyr penodol.

Gwyddom o'r ymarfer ailbrizio blaenorol yng Nghymru nad ar chwarae bach y gellir ymgymryd ag ymarfer o'r fath. Serch hynny, byddai'n cynnig nifer o gyfleoedd i ddiwygio'r dreth gyngor a'n helpu i gyflawni ein hamcanion. Gwnaethom gomisiynu ystod o waith allanol i'n helpu i ddeall yn well y newidiadau mewn prisiau tai ledled Cymru, yr effeithiau ar aelwydydd ac ar gynghorau.


Ymchwil y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi cynnal efelychiad o ymarfer ailbrisiu'r dreth gyngor i Gymru, gan ddefnyddio'r rhestr brisiu gyflawn a'i chyfuno â nodweddion ardal wedi'u diweddarau a data ar brisiau trafodiadol gan Gofrestrfa Tir EM. Astudiodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yr opsiynau ar gyfer diwygio a sut y byddai'r rhain yn effeithio ar sylfeini trethu, biliau treth a chyllid gwahanol gynghorau; a biliau treth ac incwm ar ôl treth gwahanol grwpiau o aelwydydd. Cyhoeddwyd yr adroddiad manwl ym mis Ebrill 2020 a gellir ei weld [yma](#).

Newidiadau ym mhrisiau tai

Canfu'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod prisiau tai wedi codi yng Nghymru rhwng 2003 a 2019 ond bod hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl ardal cyngor. Y cynnydd canrannol cyfartalog oedd 1010% yn gyffredinol, yn amrywio o gynnydd o 77% yn Wrecsam i 171% ym Mlaenau Gwent.

Ffigur pedwar: Twf canrannol mewn pris eiddo cyfartalog 2003-2019, yn ôl cyngor



Ffynhonnell: Adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. SYG, Mynegai Prisiau Tai'r DU, datganiad Mawrth 2020

Opsiynau ar gyfer diwygio

Gan ddefnyddio ei phrasiadau amcangyfrifedig, aeth yr ymchwilwyr ati i fodelu nifer o opsiynau posibl i wneud y dreth gyngor yn fwy graddoledig.

1. **Ailbrisiad pur** – ailbrisiad syml sy'n rhoi eiddo mewn bandiau sy'n cyfateb i led bandiau'r dreth gyngor o dan y system bresennol.
2. **Bandiau cyfrannol** – fel Opsiwn (1) ond hefyd newid y cyfraddau treth i fod yn gyfrannol â chanolbwynt pob band.
3. **Bandiau ychwanegol a chyfrannol** – fel Opsiwn (2) ond ychwanegu bandiau ar waelod a brig y dosbarthiad.

4. **Bandiau ychwanegol a chyfraddau llai anraddoledig** – fel Opsiwn (1), ychwanegu bandiau ar waelod a brig y dosbarthiad a gwneud y cyfraddau treth yn llai anraddoledig, ond nid yn gwbl gyfrannol.
5. **System f1 barhaus a chyfrannol** – dileu'r strwythur bandio a chymhwyso cyfradd dreth sefydlog fel canran o werthoedd eiddo, ond cadw'r disgowntiau, y premiymau a'r esemptiadau presennol.
6. **System f2 barhaus a chyfrannol** – fel Opsiwn (5) ond diddymu'r disgownt i oedolion sengl.

Mae'r adroddiad yn crynhoi effeithiau pob opsiwn ar lefel uchel ac yna'n canolbwyntio'n fanylach ar Opsiwn 1, ailbrisiad pur ac Opsiwn 5, sy'n dileu'r strwythur bandio ac yn cymhwyso cyfradd dreth gyfrannol.

Ailbrisiad pur

Mae'r adroddiad yn amcangyfrif, drwy adlewyrchu dull presennol y naw band, y byddai tua hanner yr **eiddo yn newid bandiau, gyda 26% yn symud i fyny a 26% yn symud i lawr.**

Bydd amrywiadau yn nifer yr eiddo sy'n symud i fand uwch neu fand is o ardal i ardal. O ganlyniad, byddai cynghorau yn gweld newidiadau yn eu sylfeini trethu lleol ac felly newidiadau yn y referniw y gellid ei godi o bosibl ym mhob ardal. Mae tabl dau yn rhestru'r newid canrannol o'r uchaf i'r isaf o ran eiddo yn symud i fandiau uwch.

Tabl dau: Canran amcangyfrifedig yr eiddo sy'n newid band o dan ailbrisiad pur

Cyngor	Band is	Yr un band	Band uwch
Ynys Môn	15%	45%	40%
Sir Fynwy	16%	44%	40%
Gwynedd	17%	47%	36%
Blaenau Gwent	7%	58%	35%
Casnewydd	20%	48%	32%
Caerffili	17%	52%	31%
Bro Morgannwg	22%	46%	31%
Caerdydd	25%	45%	30%
Torfaen	19%	52%	29%
Powys	27%	46%	27%
Conwy	29%	46%	25%
Pen-y-bont ar Ogwr	26%	51%	24%
Ceredigion	33%	44%	23%
Merthyr Tudful	16%	61%	23%
Rhondda Cynon Taf	16%	61%	23%
Abertawe	27%	50%	23%
Sir Gaerfyrddin	33%	47%	20%
Sir Benfro	34%	46%	20%
Sir Ddinbych	33%	47%	19%


Cyngor	Band is	Yr un band	Band uwch
Castell-nedd Port Talbot	28%	54%	18%
Sir y Fflint	43%	43%	13%
Wrecsam	47%	42%	11%
Cyfartaledd Cymru	26%	49%	26%

Ffynhonnell: Adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

Effaith ar gynghorau


Mae ailbrisiu'r sylfaen drethu yn newid ei 'gwerth' ym mhob ardal leol ac felly'n newid gallu cynghorau i godi treth. Mae'r map yn ffigur pump yn dangos y newid yng ngwerth y sylfeini trethu ar ôl ailbrisiad pur (Opswn 1) ac mae'r map yn ffigur chwech yn dangos y newidiadau yn y sylfeini trethi wrth gyflwyno system gyfrannol (Opswn 5). Mae'r lliw gwyrdd yn dangos cynnydd yn y sylfaen drethu ac mae'r lliw coch yn dangos gostyngiad yn y sylfaen drethu.

Ffigur pump: Newidiadau yn y sylfaen drethu yn ôl ardal cyngor o ganlyniad i ailbrisiad pur



Ffynhonnell: Adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

Ffigur chwech: Newidiadau yn y sylfaen drethi yn ôl ardal cyngor o ganlyniad i dreth gyngor barhaus a chymesur



Ffynhonnell: Adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

O dan Opsiwn 1, sef ailbrisiad pur, byddai sylfeini trethu yn cynyddu mewn ardaloedd lle mae prisiau cymharol wedi cynyddu ac fel arall, ond mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dweud bod y newidiadau yn gymharol fach. Ac eithrio Ynys Môn (i fyny 5%), Blaenau Gwent (i fyny 5%), Wrecsam (i lawr 7%) a Sir y Fflint (i lawr 6%), byddai sylfeini trethu yn newid llai na 5% i'r naill gyfeiriad neu'r llall. Ceir patrwm rhanbarthol clir ac amcangyfrifir y bydd sylfeini trethu yn cynyddu yn y rhan fwyaf o'r de-ddwyrain a'r gogledd-orllewin ac yn gostwng yn y de-orllewin a'r gogledd-ddwyrain.

O dan Opsiwn 5, sef system barhaus a chyfrannol, byddai newidiadau mewn sylfeini trethu dipyn yn fwy nag o dan ailbrisiad pur, gan ostwng yn sylweddol yn y rhan fwyaf o ardal y Cymoedd, gyda'r gostyngiadau mwyaf yng Nghastell-nedd Port Talbot (21%) a Merthyr Tudful (24%). Er bod prisiau wedi cynyddu mwy ym Blaenau Gwent o gymharu â gweddill y wlad, dyma'r prisiau eiddo isaf yng Nghymru o hyd, ac felly, o dan system gyfrannol, byddai'r sylfaen drethu yn gostwng 23%. Yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Sir Fynwy byddai sylfeini trethu yn cynyddu rhwng 18%, 25% a 34%, gan adlewyrchu prisiau eiddo llawer uwch na gweddill y wlad.

Gall newidiadau yng ngallu cynghorau i godi refeniw gael eu gwrthbwysu gan wrthnewidiadau yn y ffordd y dosberthir grant y llywodraeth. Mae'r adroddiad yn nodi mai Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am ystyried sut y byddai'r sylfeini trethi newydd yn cael eu hystyried wrth ddyrannu'r Grant Cynnal Refeniw blyneddol gwerth £3.5 biliwn. O dan y trefniadau presennol, byddai'r fformiwla gyllido ar gyfer dyrannu'r Grant Cynnal Refeniw yn dosbarthu cyllid rhwng cynghorau yn seiliedig ar y gallu lleol i godi refeniw o'r dreth gyngor. Byddai ardaloedd lle mae'r sylfaen drethu yn cynyddu yn cael llai o gyllid o dan y Grant Cynnal Refeniw a byddai ardaloedd lle mae'r sylfaen drethu yn gostwng yn cael mwy o gyllid. Mae tabl tri, o adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, yn amcangyfrif effeithiau ailddosbarthu'r grant o dan Opsiwn 1 o gymharu ag Opsiwn 5.

Tabl tri: Newidiadau mewn cyllid grant i wrthbwysu newidiadau mewn sylfeini trethu yn llawn, yn ôl ardal cyngor

Ardal Cyngor	Ailbrisiu Pur		System Barhaus a Chymesur	
	<i>Y pen</i>	<i>Cyfanswm</i>	<i>Y pen</i>	<i>Cyfanswm</i>
Blaenau Gwent	−£15	−£1.1m	£64	£4.5m
Pen-y-bont ar Ogwr	£3	£0.4m	£27	£3.9m
Caerffili	−£9	−£1.7m	£33	£5.9m
Caerdydd	−£7	−£2.6m	−£74	−£26.9m
Sir Gaerfyrddin	£9	£1.7m	£32	£6.1m
Ceredigion	£11	£0.8m	£13	£1.0m
Conwy	£4	£0.4m	£2	£0.2m
Sir Ddinbych	£11	£1.0m	£18	£1.7m
Sir y Fflint	£29	£4.5m	£43	£6.7m
Gwynedd	−£18	−£2.2m	−£8	−£1.0m
Ynys Môn	−£25	−£1.7m	−£39	−£2.7m
Merthyr Tudful	−£3	−£0.2m	£76	£4.6m
Sir Fynwy	−£27	−£2.5m	−£189	−£17.8m
Castell-nedd Port Talbot	£5	£0.8m	£68	£9.7m
Casnewydd	−£10	−£1.5m	−£25	−£3.9m
Sir Benfro	£13	£1.6m	£20	£2.5m
Powys	£2	£0.2m	−£31	−£4.1m
Rhondda Cynon Taf	−£3	−£0.7m	£59	£14.2m
Abertawe	£3	£0.9m	£11	£2.7m
Torfaen	−£6	−£0.6m	£25	£2.3m
Bro Morgannwg	−£12	−£1.5m	−£124	−£16.4m
Wrecsam	£30	£4.0m	£52	£7.0m

Ffynhonnell: Adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

O dan ailbrisiad pur, byddai'r newidiadau yn y Grant Cynnal Refeniw yn gymharol fach – dim ond mewn un achos y byddai'n fwy na 2% o lefelau presennol y cyllid grant. Caerdydd fyddai'n gweld y gostyngiad mwyaf yn y Grant Cynnal Refeniw yn ei grynsyth (£2.6m) a Sir Fynwy fyddai'n gweld y gostyngiad mwyaf ar sail cyllid y pen (£27). Yn gyffredinol, byddai'r Grant Cynnal Refeniw yn gostwng ychydig i gynghorau yn y de-ddwyrain a'r gogledd-orllewin. Wrecsam a Sir y Fflint fyddai'n gweld y cynnydd mwyaf yn y Grant Cynnal Refeniw.

Pe bai system gyfrannol yn cael ei chyflwyno, byddai maint y newidiadau i'r Grant Cynnal Refeniw yn fwy. Byddai grant Sir Fynwy yn gostwng £17.8m i wrthbwyso ei sylfaen drethu uwch, byddai grant Caerdydd yn gostwng £26.9m a byddai grant Bro Morgannwg yn gostwng £16.4m. Byddai cynghorau'r Cymoedd yn cael cyllid ychwanegol o dan y Grant Cynnal Refeniw. Byddai Rhondda Cynon Taf, yr amcangyfrifir y byddai ei grant yn gostwng £0.7m o dan senario ailbrisiad pur, yn cael bron £14.2m o gyllid ychwanegol o dan y Grant Cynnal Refeniw o dan system gyfrannol. Fodd bynnag, byddai cynghorau'r Cymoedd yn mynd yn fwy dibynnol ar y grant gan y byddent yn disgwyl codi llai o refeniw gan drigolion drwy'r dreth gyngor.

Effaith ar aelwydydd

Mae'r astudiaeth yn mesur effaith ailbrisiad ar incwm aelwydydd drwy gymharu biliau treth gyngor cyn ac ar ôl y gwahanol ddiwygiadau a fodelwyd. Mae'r adroddiad yn ystyried yr effaith ar aelwydydd o oedran pensiwn ac o oedran gweithio, teuluoedd gyda a heb blant, perchenogion tai, pobl sy'n rhentu'n breifat neu'n rhentu tai cymdeithasol, unigolion sengl a mathau eraill o aelwydydd.

Mae Ffigur saith yn dangos o dan ailbrisiad pur:


- bod 55% o aelwydydd yn gweld newid o lai na £50 yn eu bil treth;
- bod 8% o aelwydydd ar eu colled o rhwng £50-£200;
- bod 12% ar eu colled o fwy na £200;
- bod 12% ar eu hennill o rhwng £50-£200;
- bod 13% ar eu hennill o fwy na £200.

O dan system gyfrannol, gwelir:

- bod 30% o aelwydydd yn gweld newid o lai na £50 yn eu bil treth;
- bod 7% o aelwydydd ar eu colled o rhwng £50-£200;
- bod 16% ar eu colled o fwy na £200;
- bod 14% ar eu hennill o rhwng £50-£200;
- bod 34% ar eu hennill o fwy na £200.

Ffigur saith: Dosbarthiad newidiadau arian parod yn y bil treth gyngor net (y flwyddyn)

Gain >£200 Gain £50–£200 Change within £50 Lose £50–£200 Lose >£200




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

Mae'r ffigurau'n adlewyrchu'r sefyllfa net o ostyngiadau yn y dreth gyngor, fodd bynnag, mae model y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn rhagdybio bod Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael ei ddefnyddio'n llawn, ond mewn gwirionedd nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Mae'n anodd i fodelau treth a budd wneud rhagdybiaethau ynghylch y nifer sy'n manteisio arnynt oherwydd natur hunan-gofnodedig data arolygon a'r risg annatod o danamcangyfrif faint sydd â'r hawl i'r cymorth ac oherwydd y gwahaniaethau bach ym mhatrymau gwahanol grwpiau o aelwydydd o ran manteisio ar y cynllun.

Mae mwy o aelwydydd yn gweld newidiadau llai o faint mewn biliau o dan opsiwn ailbrisiad pur, ond mae mwy o bobl ar eu hennill neu ar eu colled o dan system gyfrannol. Mae aelwydydd ag incwm uwch yn talu mwy o dreth gyngor ar gyfartaledd. Yn ddiddorol ddigon, mae'r adroddiad hefyd yn dadansoddi biliau treth gyngor ar draws dosbarthiad incwm aelwydydd a ddangosir mewn cwintelau o'r 20% o aelwydydd tlotaf i'r rhai cyfoethocaf. Mae Ffigur wyth yn dangos nad yw ailbrisiad pur yn cael unrhyw effaith ar filiau cyfartalog ar draws y dosbarthiad incwm i bob diben. Mae system gyfrannol yn fwy graddoledig ar y cyfan o ran incwm. Mae hyn yn lleihau biliau hyd at £80-£90 yn y cwintelau isaf ac yn cynyddu biliau hyd at £230 yn y cwintel uchaf. Eto, fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn rhagdybio bod Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael ei ddefnyddio'n llawn.

Ffigur wyth: Newid cyfartalog yn y bil treth gyngor net yn ôl cwintel incwm aelwydydd



Ffynhonnell: Ffigurau o atodiad ar-lein y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

O ran cyfansoddiad aelwydydd, mae'r astudiaeth yn awgrymu y byddai effeithiau cyfartalog ailbrisiad pur yn fach iawn ar gyfer pob math o aelwyd. Byddai symud i system gyfrannol yn fanteisiol i aelwydydd un person a chyplau â phlant (sy'n tueddu i fyw mewn eiddo llai gwerthfawr) a byddai'n anfanteisiol i gyplau sy'n bensiynwyr ac aelwydydd sy'n cynnwys sawl teulu (sy'n tueddu i fyw mewn eiddo mwy gwerthfawr).

Mae'r ymchwil hefyd yn rhoi rhagor o amcangyfrifon o'r effeithiau ar grwpiau demograffig. Mae effeithiau system gyfrannol yn fwy na rhai ailbrisiad pur ac maent yn fanteisiol i'r rhai sy'n tueddu i fyw mewn eiddo gwerth is, e.e. aelwydydd iau, pobl sy'n rhentu, pobl sy'n cael budd-daliadau anabledd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Mae llawer o wybodaeth fanwl yn yr adroddiad am effeithiau opsiynau eraill ar gyfer diwygio. Yn gyffredinol, mae canlyniadau opsiynau diwygio 'canolraddol' yn debyg iawn i ganlyniadau o dan system gyfrannol. Mae hyn yn wir am yr effeithiau ar bob lefel o incwm a phob grŵp demograffig.

Ystyriaethau eraill

Mae astudiaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn ystyried yn eithaf manwl y byddai treth eiddo ddelfrydol yn y dyfodol yn cynnwys cael gwared ar y disgownt i oedolion sengl am ei fod yn annog yr hyn a ddisgrifir yn ddefnydd aneffeithlon o'r stoc dai. Pe bai'r disgownt i oedolion sengl yn cael ei waredu, byddai hynny'n lleihau'r manteision i aelwydydd un person yn sylweddol wrth symud i system gyfrannol – mae'r rhain yn cynnwys aelwydydd un person o oedran gweithio, rhieni sengl ac aelwydydd un pensiynwr.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio y bydd ailbrisiad a diwygio yn cynnig heriau gwleidyddol ac ymarferol. Os gwneir hyn ar sail referniw niwtral, drwy ddiffiniad, mae'n golygu y

bydd rhai pobl ar eu hennill a rhai pobl ar eu colled ac nid yw'n glir i ba raddau y bydd pobl yn ymwybodol o'r newidiadau nac yn barod i'w derbyn. Gallai rhai aelwydydd weld effeithiau sylweddol os yw gwerth cymharol eu cartrefi wedi cynyddu'n sylweddol, neu os yw eu heiddo wedi'i 'dandrethu' ar hyn o bryd, efallai oherwydd gwelliannau ffisegol. Efallai y bydd pryder penodol am y rhai ar incwm isel a fyddai ar eu colled, gan gynnwys pensiynwyr sy'n berchen ar eiddo y mae ei werth wedi cynyddu'n sylweddol, ond sydd ag incwm presennol isel, yn ogystal â phobl ag incwm isel sy'n rhentu oddi wrth landlordiaid preifat neu landlordiaid cymdeithasol mewn rhannau drud o'r wlad. Byddai Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn inswleiddio llawer o aelwydydd incwm isel rhag bod ar eu colled ac ar eu hennill o ganlyniad i newid i system gyfrannol, ond mae hyn yn dibynnu ar faint o bobl sy'n hawlio o dan y cynllun.

Mae'r adroddiad yn trafod nifer o bolisiau posibl a allai liniaru effeithiau megis:

- Trefniadau trosiannol – cyflwyno newidiadau mewn bandiau neu filiau treth yn raddol, neu ganolbwyntio'n benodol ar helpu'r rhai a fyddai'n gweld cynnydd mawr, ond byddai angen cyllid ychwanegol ar gyfer hyn fwy na thebyg.
- Gweithredu gohiriedig – galluogi aelwydydd i ymaddasu (e.e. cynilo, symud) cyn dod yn agored i dalu'r bil treth newydd;
- Gohirio taliadau – cynghorau yn rhoi benthyg arian i aelwydydd am y rhan o'r bil na allant ei thalu ar unwaith;
- Cynlluniau cymorth ar gyfer y dreth gyngor sy'n fwy hael.

Mae Pennod 6 o adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn trafod y dystiolaeth economaidd sy'n ymwneud â baich trethiannol ac effaith bosibl diwygio'r dreth gyngor ar renti a gwerthoedd eiddo yn y dyfodol. Awgrymir y byddai disgwyl i werth eiddo lle mae biliau treth gyngor yn gostwng gynyddu, ac y byddai disgwyl i werth eiddo lle mae biliau yn cynyddu ostwng, mewn proses a elwir yn gyfalafu. Daw astudiaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid i'r casgliad na fyddai ailbrisiad pur yn cael fawr ddim effaith ar werthoedd eiddo ond y byddai system gyfrannol yn culhau dosbarthiad gwerthoedd eiddo ac felly anghydraddoldebau mewn cyfoeth.

Gallai gwerth y 10% o eiddo rhataf yng Nghymru gynyddu tua 18%, ar gyfartaledd. Gallai gwerth y 10% o eiddo drutaf ostwng tua 12% o ganlyniad i'r diwygiad, ond mae'r canfyddiadau hyn yn sensitif iawn i'r tybiaethau dadansoddiadol a wneir. Wrth edrych ar yr effeithiau hyn yn ddaearyddol, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif y byddai gwerthoedd eiddo cyfartalog ym Mlaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot a Merthyr Tudful yn cynyddu rhwng £8,200 a £9,900. I'r gwrthwyneb, byddai gwerthoedd eiddo cyfartalog yn Sir Fynwy yn gostwng tua £25,300 a rhai Bro Morgannwg yn gostwng tua £16,600. Fodd bynnag, mae'r gostyngiadau hyn yn gymharol fach yng nghyd-destun y cynnydd mewn prisiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Casgliadau

Daeth astudiaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid i'r casgliadau canlynol.

- **Nid yw'r dreth gyngor yn gyfredol mwyach, mae'n anraddoledig ac yn ystumiol. Mae angen ei hailbrisiu a'i diwygio.** Mae gwerthoedd eiddo mewn

rhannau o Gymru wedi newid yn sylweddol ers yr ailbrisiad diwethaf. Mae hyn yn golygu bod eiddo mewn bandiau sy'n gynyddol fympwyol sy'n wahanol i'r realiti sydd ohoni. Mae'r dreth gyngor hefyd yn hynod anraddoledig o ran gwerth eiddo ac mae'r disgownt o 25% i aelwydydd un person yn annog defnydd aneffeithlon o eiddo.

- **Byddai penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i addasu cyllid grant ochr yn ochr â diwygiadau i'r dreth gyngor ai peidio yn hollbwysig o ran effaith y diwygiadau o gyngor i gyngor.** Pe na bai'n gwneud hynny, byddai angen i bob cyngor godi cymaint o refeniw treth gyngor ag o'r blaen os byddai am gynnal lefelau gwario, sy'n awgrymu na fyddai dim newid yn y bil treth cyfartalog, hyd yn oed wrth i'r symiau a delir gan aelwydydd unigol gynyddu a gostwng. Drwy addasu cyllid yn llawn, byddai biliau cyfartalog yn newid i adlewyrchu newidiadau mewn sylfeini trethu lleol. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn tybio y câi cyllid ei addasu'n llawn.
- **Gallai diwygiadau wneud y dreth gyngor yn llawer mwy graddoledig.** Ni fyddai ailbrisiad ar ei ben ei hun yn cael fawr ddim effaith ar filiau treth cyfartalog gwahanol fathau o aelwydydd. Ond byddai treth gyngor gyfrannol yn lleihau biliau treth gyngor net o swm sy'n hafal i 0. 5% o incwm aelwydydd, ar gyfartaledd, i aelwydydd yn y bumed rhan isaf o'r dosbarthiad incwm, ond yn cynyddu biliau cyfartalog 0. 3% o'u hincwm i'r rhai yn y bumed rhan uchaf. Byddai aelwydydd iau, pobl sy'n rhentu a phobl sy'n cael budd-daliadau anabledd hefyd yn gweld gostyngiadau yn y dreth, ar gyfartaledd.
- **Er y byddai pryder penodol o bosibl am y rhai ar incwm isel a fyddai ar eu colled o ganlyniad i'r diwygiadau, mae'n bwysig cydnabod y byddai llawer mwy o aelwydydd incwm isel ar eu hennill.** Er enghraifft, byddai bil treth net 21% o aelwydydd yn y bumed rhan isaf o'r dosbarthiad incwm yn gostwng mwy na £200 y flwyddyn o dan dreth gyngor barhaus a chyfrannol, a dim ond 3% fyddai'n gweld cynnydd o fwy na £200 y flwyddyn. Ni fyddai fawr ddim newid, os o gwbl, i lawer o bobl am fod eu biliau yn cael eu talu'n llawn, neu gyfran fawr ohonynt, o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, y gellid ei wneud yn fwy hael pe bai Llywodraeth Cymru yn awyddus i liniaru effaith y diwygiadau ymhellach. Gallai'r llywodraeth hefyd ystyried rhyddhad trosiannol a gohirio taliadau, ond mae'n hollbwysig bod y gwaith o ddylunio cynlluniau gohirio yn cael ei wneud yn gywir er mwyn osgoi tanseilio refeniw treth.
- **Gallai ailbrisiad a diwygio'r dreth gyngor helpu i leihau anghydraddoldebau o ran cyfoeth rhwng aelwydydd ac ardaloedd daearyddol drwy effeithiau ar brisiau eiddo.** Mae newidiadau mewn trethi eiddo yn cael eu hadlewyrchu mewn rhenti a phrisiau eiddo yn llawn neu i raddau helaeth. Mae hyn yn golygu y byddai treth eiddo gyfrannol yn lleihau'r bwlch o ran cyfoeth eiddo rhwng perchenogion eiddo gwerth uchel a gwerth isel ac, os yw Llywodraeth Cymru yn dosbarthu cyllid hefyd, rhwng ardaloedd â gwerthoedd eiddo isel ac uchel. Ond mae maint yr effeithiau hyn yn ansicr iawn.

Yn gyffredinol, daw ymchwil y Sefydliad Astudiaethau Cyllid i'r casgliad y byddai ailbrisiad pur yng Nghymru ond yn cael effaith gymharol fach ar wneud y dreth gyngor yn llai anraddoledig ac mae'n dadlau o blaid opsiynau mwy radical, megis y system barhaus a chyfrannol a diddymu'r disgownt i oedolion sengl. Un casgliad allweddol o'r

ymchwil yw ei bod yn anodd iawn dod o hyd i strwythur diwygiedig sy'n wirioneddol raddoledig – lle mae'r gyfradd dreth ar gyfer eiddo gwerth uwch yn fwy na'r gyfradd dreth ar gyfer eiddo gwerth is. Yn hytrach, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi cyflwyno opsiynau sy'n llai anraddoledig na'r sefyllfa bresennol, neu sy'n 'gyfrannol' h.y. gyfradd dreth gyfartal rhwng gwerth pob eiddo.

Mae eraill yn dadlau o blaid treth gyngor gyfrannol, gan gynnwys Canolfan Llywodraethiant Cymru a Fairer Share. Mae astudiaethau yn cynnig gwahanol ffyrdd o gyflawni hyn, naill ai drwy system â bandiau neu ddyluniad gwerth arwahanol. Nid yw'r rhan fwyaf o astudiaethau yn amlinellu'r gofynion deddfwriaethol, prisio a gweithredu gwahanol iawn sydd ynghlwm wrth bob un o'r amrywiadau. Mae rhai adroddiadau hefyd yn dadlau o blaid newid yn y baich treth tuag at y dreth gyngor ac i ffwrdd o fathau eraill o dreth yng Nghymru, megis y rhai sy'n seiliedig ar drafodiadau neu incwm. Mae'n anodd i'r syniadau hyn fodloni prif amcan Llywodraeth Cymru, sef treth gyngor raddoledig (oni bai ei bod yn cael ei diwygio) neu gydnabod a diogelu atebolrwydd democrataidd lleol.

Ymchwil Prifysgol Sheffield

Cynhaliodd yr Athro Leishman a Dr Hincks (UK Collaborative Centre for Housing Evidence / Prifysgol Sheffield astudiaeth ategol i ystyried effeithiau posibl ymarfer ailbrisio a dulliau ystadegol o ymdrin ag ef. Gwnaeth yr Athro Leishman waith tebyg i Gomisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol yn 2015, gan lunio model prisio hedonig aml-lefel y gellid ei ddefnyddio i lunio amcangyfrifon ailbrisio. Mae'r model yn defnyddio cyfres amser hir o ddata trafodiadau, gwahanol elfennau geo-ofodol ac mae hefyd yn ystyried newidynnau amgylcheddol sy'n rhan o werth pris eiddo (e.e. pellter i fannau gwyrdd, perygl llifogydd). Felly, mae i'r gwaith hwn ffocws gwahanol i astudiaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, ac mae'n ddefnyddiol iawn o ran ystyried a allai dull mwy ystadegol neu awtomataidd o ailbrisio fod yn ddichonadwy yn y dyfodol. Nid yw'r ymchwil yn ceisio amcangyfrif effaith ailbrisio ar aelwydydd.

Newidiadau ym mhrisiau tai

Mae'r ymchwil yn canfod cynnydd sylweddol ym mhrisiau tai yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhwng 2003 a 2007, yna ddirwasgiad byr tua adeg yr argyfwng ariannol bydeang (2008 i 2009) ac wedyn gyfnod hir o dwf sefydlog hyd at 2019. Gwelwyd hefyd amrywiadau gofodol rhwng ardaloedd cynghorau o ran symudiadau ym mhrisiau tai ers yr ailbrisiad diwethaf yn 2003, a gwahanol ymatebion i'r argyfwng ariannol bydeang. Mae Tabl pedwar yn dangos cryn amrywio rhwng ardaloedd cynghorau wrth gymharu gwerthoedd 2003 a 2019.

Tabl pedwar: Prisiau canolrifol, a chymedrau o gymharu â 2003 ar gyfer ardaloedd cynghorau

Cyngor	2003	2019	Cymhareb
Blaenau Gwent	40,000	82,000	2.05
Pen-y-bont ar Ogwr	83,000	140,000	1.69
Caerffili	69,950	128,000	1.83
Caerdydd	132,000	219,000	1.66
Sir Gaerfyrddin	70,000	122,500	1.75
Ceredigion	127,000	177,000	1.39
Conwy	111,500	161,000	1.44
Sir Ddinbych	86,250	138,250	1.60
Sir y Fflint	95,000	153,250	1.61
Gwynedd	84,000	151,500	1.80
Ynys Môn	85,000	160,000	1.88
Merthyr Tudful	41,500	85,000	2.05
Sir Fynwy	145,000	240,000	1.66
Castell-nedd Port Talbot	55,000	108,250	1.97
Casnewydd	94,000	163,250	1.74
Sir Benfro	98,500	150,000	1.52
Powys	110,000	174,000	1.58
Rhondda Cynon Taf	48,000	91,500	1.91
Abertawe	82,000	140,000	1.71
Torfaen	79,500	133,000	1.67
Bro Morgannwg	115,000	197,750	1.72
Wrecsam	89,000	148,000	1.66

Ffynhonnell: Adroddiad Sheffield

Mae'r adroddiad yn rhoi rhagor o fanylion am y tueddiadau yn ôl math o annedd a band treth gyngor. Ymddengys mai'r patrwm mwyaf nodedig yw **twf cryfach mewn prisiau ar begwn isaf y farchnad eiddo, na phegwn uchaf y farchnad, ers 2003**. Er enghraifft, cynyddodd y pris canolrifol ar gyfer anheddau Band A o £34,000 i £69,000 (cymhareb o 2.03), o'i gymharu â chynnydd ar gyfer Band I o £485,000 i £720,000 (cymhareb o 1.48). Mae hyn yn awgrymu y gallai ailbrisio yn y dyfodol arwain at ail-leoli'r terfynau band is.

Mae'r adroddiad yn dangos, heblaw am eithriadau posibl bandiau A a B, bod terfynau'r bandiau wedi'u diweddarau a gynigir o dan 'ailbrisiad pur' (h.y. cadw'r un gyfran o eiddo ym mhob band treth gyngor fel y mae ar hyn o bryd) yn agos i'r gwerthoedd a awgrymwyd gan astudiaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.

Dangosyddion pris

Mae model yr Athro Leishman yn canfod mai'r ffactorau canlynol sy'n cael y dylanwad mwyaf ar brisiau eiddo ledled Cymru.

Tabl pump: Ffactorau sy'n dylanwadu ar brisiau eiddo yng Nghymru

Newidyn	Dylanwad (% plws neu finws)
Math o eiddo	-12. 0 i +31. 2
Oedran yr eiddo	-12. 2 i +17. 6
Parcio	-1. 4 i +11. 4
Cymdogaeth	85. 0
Ystafelloedd ymolchi	15. 7
Ystafelloedd	3. 0
Ardal gadwraeth o fewn 250m	2. 5
Ystafelloedd gwely	2. 1
Parth llifogydd risg uchel	-1. 4
Arwynebedd llawr	0. 6
Amser cerdded i ysgol uwchradd	0. 5

Ffynhonnell: adroddiad Sheffield

Mae'r model yn canfod bod y canlynol yn benderfynyddion is o ran pris (llai na 0. 5%) ond yn dal yn ystadegol arwyddocaol.

- Agosrwydd at fannau gwyrdd, coetir, mannau glas a'r arfordir;
- Agosrwydd at brif ffyrdd, gorsafoedd ac archfarchnadoedd.

Nid oedd pellter i ysbyty, lefelau llygredd aer, cyflymder band eang na chyfeiradedd tuag at yr haul yn cael unrhyw ddylanwad ar bris, neu roeddent yn rhy ansefydlog i'w mesur. Canfuwyd hefyd nad oedd pellter i ysgolion cynradd yn dylanwadu ar brisiau, sy'n syndod efallai, ond gallai hyn olygu bod y berthynas yn un rhy gymhleth i'w mesur.

Mae cymhlethdodau yn codi pan fydd y ffactorau yn dangos lefelau gwahanol o 'werth' rhwng ardaloedd a hefyd rhwng cyfnodau o amser. Ystyrir bod y math hwn o fodel yn amldefnydd ac yn gallu cofnodi'r effeithiau hyn. Fodd bynnag, mae'n awgrymu bod dewisiadau ynglŷn ag amseriad ailbrisiad a pha ddata i'w cynnwys (hyd y gyfres amser, pa ffactorau) yn benderfyniadau a fyddai'n effeithio ar y canlyniad.

Strwythurau band

Mae'r ymchwiliad yn ystyried dulliau amgen o bennu trothwyon bandiau newydd i'r dreth gyngor. Yn ogystal â'r opsiwn o 'ailbrisiad pur', dyluniwyd trothwyon bandiau er mwyn cyflawni'r canlynol:

- Sicrhau'r un dosbarthiad o eiddo â rhestr 1993;
- Fel yr oeddent yn 2005 (h.y. bandiau sy'n seiliedig ar ddull ailbrisiad 2005);
- Arwain at gyfran gyfartal o anheddau ym mhob un o'r naw band;
- Pennu toriadau naturiol a chlystyru yn y data drwy ddefnyddio dadansoddiad o glystyrau.

Mae'r opsiynau hyn yn arwain at ganlyniadau amrywiol yn y sylfaen drethu ar gyfer pob ardal cyngor, gyda'r dadansoddiad o glystyrau naturiol yn arwain at y cynnydd mwyaf yn y sylfaen drethu ar gyfer ardaloedd lle mae prisiau yn uwch megis Sir Fynwy a Bro Morgannwg.

Tabl chwech: Newid yn y sylfaen drethu sy'n codi o ddulliau bandio gwahanol

Cyngor	Er mwyn efelychu rhestr 1993	Er mwyn efelychu rhestr 2005	Dull ailbrisiad 2005	% gyfartal ym mhob band	Dadansoddiad o glystyrau
Blaenau Gwent	-5.9%	-4.0%	-2.5%	2.1%	4.2%
Pen-y-bont ar Ogwr	-4.0%	0.7%	1.5%	34.9%	14.2%
Caerffili	-5.9%	-2.0%	-0.5%	22.2%	9.0%
Caerdydd	-3.0%	3.5%	3.7%	50.1%	19.6%
Sir Gaerfyrddin	-6.5%	-1.8%	-1.0%	30.5%	11.3%
Ceredigion	-4.0%	1.9%	2.2%	47.5%	17.3%
Conwy	-2.8%	3.1%	3.5%	46.0%	17.7%
Sir Ddinbych	-5.4%	-0.1%	0.7%	37.8%	13.5%
Sir y Fflint	-9.2%	-4.3%	-3.7%	32.7%	9.0%
Gwynedd	-0.9%	4.4%	5.2%	42.9%	18.9%
Ynys Môn	0.9%	6.9%	7.2%	51.3%	22.7%
Merthyr Tudful	-8.5%	-6.3%	-4.7%	3.1%	3.1%
Sir Fynwy	1.5%	9.4%	9.3%	60.6%	28.2%
Castell-nedd Port Talbot	-7.7%	-4.4%	-3.1%	14.4%	6.0%
Casnewydd	-4.9%	0.1%	1.0%	35.4%	13.9%
Sir Benfro	-4.8%	0.9%	1.3%	40.3%	15.4%
Powys	-4.3%	1.9%	2.2%	44.1%	17.2%
Rhondda Cynon Taf	-5.5%	-2.5%	-1.4%	16.6%	7.4%
Abertawe	-6.1%	-1.3%	-0.3%	29.4%	11.9%
Torfaen	-6.8%	-2.7%	-1.3%	23.6%	9.0%
Bro Morgannwg	-0.8%	6.4%	7.0%	50.5%	23.0%
Wrecsam	-9.2%	-4.5%	-3.8%	27.9%	8.2%

O dan rai opsiynau ar gyfer diwygio, byddai cynghorau sydd â sylfeini trethu is eisoes yn wynebu rhagor o ostyngiadau yn y gallu i godi referniw a byddent yn cael mwy o gyllid o dan y Grant Cynnal Referniw gan Lywodraeth Cymru drwy fformiwla gyllido flynyddol.

Casgliadau

Daw adroddiad Prifysgol Sheffield i'r casgliad y byddai ailbrisiad yn gwneud rhywfaint i fynd i'r afael â strwythur bandio anraddoledig y dreth gyngor pe bai trothwyon bandiau yn cael eu dylunio mewn ffordd amgen. Mae tueddiadau'r farchnad ers yr ailbrisiad diwethaf yn 2005, ac ers yr argyfwng ariannol byd-eang, yn dangos bod **amseriad ailbrisiad a'r dewis o flwyddyn sylfaen yn bwysig ac y dylid eu dewis i osgoi ystumiadau byrdymor**. Mae'r adroddiad yn nodi ei bod yn debygol i bob golwg y gallai fod cyfnod o gryn addasu yn y farchnad dai o ganlyniad i bandemig COVID-19, ac y byddai'n ddoeth ystyried y goblygiadau i'r amseriad a'r dewis o flwyddyn ailbrisiad pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu symud tuag at ailbrisiad sylfaen drethu'r dreth gyngor yn y dyfodol.

O ran opsiynau diwygio, datgelodd y dadansoddiad o glystyrau naw grŵp naturiol o anheddau ac mae hyn yn adlewyrchu'n agosach y symudiadau gwahanol mewn prisiau yng Nghymru ers yr ailbrisiad diwethaf. Gallai ymchwil bellach ystyried effaith dull bandio o'r fath ar aelwydydd.

Mae'r ymchwilwyr yn awgrymu bod trothwyon band A a B wedi'u diweddarau yn wahanol i astudiaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid o bosibl am fod model Sheffield yn defnyddio cyfres amser hwy o drafodiadau (1995 i 2019), o gymharu ag astudiaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a ddefnyddiodd 2010 i 2018. Mae model Sheffield hefyd yn profi rhyngweithrediad mwy cymhleth rhwng effeithiau gofodol ac amserol, h.y. mae'r ffactorau yn wahanol rhwng ardaloedd daearyddol ond gall y gwahaniaethau hyn hefyd newid dros amser.

Daw'r ymchwilwyr i'r casgliad bod **dulliau ystadegol yn ddull effeithiol o amcangyfrif gwerth y farchnad**, gyda lefel uchel o gywirdeb rhagweladwy, y gellid ei ddefnyddio i ganiatáu monitro gwerthoedd eiddo yn amlach ac yn fwy systematig yn y dyfodol. Efallai y bydd angen bob amser mynd ati drwy ddulliau mwy penodedig a thraddodiadol bob amser ar gyfer mathau annodweddiadol o aneddiadau, meintiau neu leoliadau.

Diwygiadau posibl eraill

Adolygu disgowntiau ac esemptiadau

Mae rhai sy'n dadlau o blaid diwygio'r dreth gyngor yn awgrymu bod angen adolygu'r gyfres o ddisgowntiau, esemptiadau a diystiriadau ac ati sy'n rhan allweddol o'r system, naill ai ochr yn ochr â newidiadau ar raddfa fwy neu fel sy'n ofynnol ar gyfer y diwygiadau yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'r trefniadau yn gymhleth ac wedi tyfu'n raddol ers cyflwyno'r dreth gyngor yn 1993. Mae'r system yn cynnwys:

- **24** o gategoriâu o **esemptiadau** rhag talu'r dreth gyngor yn gyfan gwbl, sy'n cwmparu 60,650 o anheddau (neu 4% o anheddau). Y categori mwyaf yw eiddo gwag / heb ddodrefn ac anheddau myfyrwyr. Mae rhai â therfyn amser o chwe mis;
- **16** o gategoriâu o **bersonau a ddiystyrir** ar gyfer unigolion penodol wrth gyfrifo nifer y bobl sy'n byw mewn eiddo er mwyn penderfynu ar swm y dreth gyngor sy'n daladwy, e.e. myfyrwyr a gofalwyr;
- **Disgowntiau** o 25% neu 50% a gymhwysir at swm y dreth gyngor sy'n daladwy, gan gynnwys dau gategori statudol (oedolion sengl sy'n agored i dalu, eiddo gwag) a thri dosbarth o eiddo gwag lle y caniateir disgresiwn lleol. Mae 37% o anheddau yn destun un disgownt neu fwy;
- **Premiymau** a gymhwysir at swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar gartrefi gwag ac ail gartrefi yn ôl disgresiwn lleol;
- **pŵer disgresiwn** cyffredinol i gynghorau leihau biliau mewn achosion o galedi.

Mae rhesymau unigryw dros bob un o'r rhain, ond mae llawer wedi bodoli ers degawdau a gellir ystyried bod rhai yn llai perthnasol. Er enghraifft, un nodwedd allweddol o'r system bresennol yw ei bod yn seiliedig yn rhannol ar werth eiddo (50%) ac yn rhannol ar nodweddion aelwyd. Gallai adolygiad nodi newidiadau sy'n gyson â'n hamcan o sicrhau treth deg a graddoledig. Gallai atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor gael ei gynyddu ar gyfer aelwydydd penodol y tybir eu bod yn gallu fforddio talu mwy neu ei leihau ymhellach i'r rhai sydd â llai o fodd i dalu. Argymhellodd y [Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru](#) yn 2016 y dylid adolygu'r rhain gyda'r nod o wneud penderfyniadau yn fwy lleol i lywodraeth leol. Mae awgrymiadau eraill dros y blynyddoedd wedi cynnwys:

- gwneud y disgownt i oedolion sengl (25%) a'r disgownt eiddo gwag (50%) yn fwy neu'n llai hael fel canran;
- diddymu'r disgownt i oedolion sengl, gan gynnal prawf modd neu ddibynnu ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer y rhai sydd ei angen o bosibl;
- diddymu'r esemptiad ar gyfer anheddau myfyrwyr, gwneud i feddianwyr sy'n fyfyrwyr dalu (gydag anawsterau casglu o bosibl) neu drosglwyddo'r atebolrwydd i dalu i landlordiaid (ond gallai costau gael eu trosglwyddo i fyfyrwyr ar ffurf rhenti uwch);
- peidio â chaniatáu i unrhyw eiddo gwerth uwch fod yn gymwys i gael unrhyw ostyngiadau;
- cynyddu'r uchafswm y gall cynghorau lleol ei godi fel premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi ymhellach (e.e. 200% yn ychwanegol yn hytrach na 100%);
- dileu rhai o'r esemptiadau ar gyfer eiddo gwag, gan ddileu'r esemptiad ar gyfer ailfeddiannu gan wneud i sefydliadau ariannol dalu nes bod yr eiddo wedi'i werthu neu, i'r gwrthwyneb, wneud esemptiadau â therfyn amser yn fwy hael;
- gwneud y polisiau ar gyfer esemptiadau, diystyriadau a disgowntiau yn fwy lleol i gynghorau (mae premiymau a rhai disgowntiau eisoes yn lleol).

Byddai angen newid deddfwriaeth sylfaenol drwy Ddeddf gan y Senedd ar gyfer y rhan fwyaf o'r newidiadau hyn. Ar hyn o bryd, nid yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu inni ddileu disgowntiau yn llwyr ac mae gofynion deddfwriaethol eraill, megis bod yn rhaid i'r disgownt ar gyfer eiddo gwag gael ei bennu ddwywaith yn fwy na'r swm ar gyfer y disgownt i oedolion sengl.

Byddai rhai o'r newidiadau a ddisgrifir yn ychwanegu mwy o gymhlethdod yn hytrach na llai. Efallai y byddai newidiadau mewn un maes yn gofyn am newidiadau i ddisgowntiau a diystiriadau eraill. Wrth wneud newidiadau, bydd angen ystyried y rhyngysylltiadau rhwng y gwahanol feini prawf yn ofalus er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fannau llwyd yn y system a fyddai'n caniatáu achosion o dwyll ac osgoi trethi. Mae cydberthnasau cymhleth rhwng y dreth gyngor ac ardrethi annomestig y byddai angen eu hystyried hefyd. O ran derbyniad y cyhoedd, mae'n fwy anodd cael gwared ar drefniadau ar gyfer y rhai sy'n derbyn gostyngiadau sydd wedi dod yn gyfarwydd â'r trefniadau presennol, hyd yn oed lle mae'r rhesymeg dros benderfyniadau blaenorol wedi cael ei disodli.

Newidiadau i gyfraddau treth

Er gwaethaf yr ystyriaeth helaeth ynglŷn ag ailbrisio yn y ddogfen hon, gellir newid cyfraddau treth heb ailbrisio eiddo. Yn wir, cyflwynwyd y newid hwn yn yr Alban yn 2017. Byddai taliadau'r dreth gyngor yn dal i gael eu codi bob blwyddyn gan gynghorau lleol, ond gallai Llywodraeth Cymru newid y gyfres o 'gymarebau' treth ar gyfer y naw band – y berthynas gymharol rhwng y swm a godir am bob band a ddangosir yn nhabl wyth.

Tabl saith: Cymarebau'r dreth gyngor

Band	Cymarebau'r dreth
A	6/9
B	7/9
C	8/9
D	1
E	11/9
F	13/9
G	15/9
H	2
I	21/9

Gallai newid y cymarebau helpu i symud y system i gyfeiriad mwy graddoledig, fel y bydd eiddo gwerth uwch yn talu mwy o dreth nag eiddo gwerth is fel cyfran. Manteision yr opsiwn hwn yw y byddai'n gyflymach rhoi hyn ar waith na diwygiadau mwy sylweddol eraill a gellir ei gyflawni drwy basio is-ddeddfwriaeth. Ymarfer gweinyddol ydyw ar y cyfan, na fyddai'n effeithio ar y rhestrau prisio presennol na gwaith Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Gellir dadansoddi'r effaith ariannol yn fanylach gan fod prisiadau eiddo yn sefydlog. Gellir rhagweld newidiadau mewn biliau i raddau mwy nag yn achos diwygiadau eraill, yn dibynnu ar gynlluniau ar lefel cynghorau unigol ar gyfer pennu trethi yn flynyddol. Byddai angen rhai newidiadau technegol i systemau bilio lleol ond byddai'r rhain yn costio llai na diwygiadau eraill.

Roedd gan newidiadau Llywodraeth yr Alban nod penodol iawn, sef codi £100 miliwn o refeniw ychwanegol i ysgolion. Fodd bynnag, pan wnaeth Llywodraeth yr Alban y newid yn 2017, cafodd ei beirniadu am beidio ag ymgorffori ymarfer ailbrisio fel rhan o'r diwygiadau. Pe bai'r dull gweithredu hwn yn cael ei ddilyn yng Nghymru, byddai biliau treth yn dal yn seiliedig ar werthoedd eiddo 2003, sy'n golygu na fyddai'r strwythur newydd yn cynrychioli cyfoeth eiddo trethdalwyr sy'n preswyllo mewn ardaloedd o dwf uwch yn gywir. Ni fyddai gwelliannau sylweddol i eiddo yn cael eu cofnodi ychwaith pe na bai eiddo wedi cael ei werthu ers 2003.

Er bod gwybodaeth dda am y sylfaen drethu bresennol ar gael inni, mae'r gwaith o fodelu'r effeithiau mewn perthynas ag incwm gwirioneddol aelwydydd yn llawer mwy anodd ac ni fyddai modd gwneud hynny ar lefel aelwyd, neu hyd yn oed yn ôl ardal ddaearyddol fach. Mae'r dadansoddiad cychwynnol yn dangos, os rydym am gynnal refeniw ar y lefelau presennol, er mwyn lleihau'r baich treth ar eiddo yn y bandiau isaf mewn ffordd ystyrlon, y byddai angen symud mwy ohono i'r bandiau canol oherwydd y nifer bach o eiddo ar frig y raddfa. Felly, er bod hwn yn opsiwn symlach o'i gymharu â'r opsiynau eraill ar gyfer diwygio, byddai'n dal yn achosi cryn darfu i lawer o drethdalwyr.

Treth ar blastai

Caiff syniad sy'n gysylltiedig â newidiadau i gyfraddau treth ei alw'n aml yn gynigion ar gyfer 'treth ar blastai'. Yn y bôn, mae hyn yn golygu codi cyfraddau treth gyngor sylweddol uwch ar eiddo o werth uchel iawn. Weithiau, mae'r syniad yn ymwneud â'r nawfed band (Band I) neu weithiau dros drothwy pris megis £1 filiwn neu £2 filiwn. Mae tua 5,400 o eiddo ym Mand I yng Nghymru, ac nid yw 4,000 o ohonynt yn cael unrhyw ddisgowntiau neu ostyngiadau. Ni wyddys sawl eiddo yng Nghymru sy'n werth dros £1 filiwn ar hyn o bryd yn ôl prisiau heddiw. Awgrymodd datganiad dadansoddiadol gan SYG yn 2016 fod 567 o drafodiadau gwerth dros £1 filiwn rhwng 1996 a diwedd 2015.

Dim ond at fand treth cyfan y gellid cymhwyso cynnig o'r fath pe bai'r llywodraeth am gyflwyno'r newid yn gymharol gyflym a thrwy is-ddeddfwriaeth. Er mwyn cynyddu'r gyfradd dreth ar eiddo sydd uwchlaw trothwy pris penodol, byddai hynny yn gofyn am ailbrisio pob un o'r 1.4 miliwn eiddo, gan mai diben y system â bandiau yw nad oes angen prisiadau manwl gywir ar gyfer pob eiddo. Byddai treth ar blastai yng Nghymru yn codi swm bach o refeniw ychwanegol oherwydd nifer yr eiddo gwerth uchel, felly nid codi refeniw fyddai un o brif nodau'r syniad hwn. Byddai angen seilio'r nod yn fwy ar ddadleuon sy'n ymwneud â thegwch, gan sicrhau bod y rhai sy'n byw mewn eiddo drud iawn yn cyfrannu mwy at gost gwasanaethau lleol.

Dulliau prisio ar gyfer Anheddau Domestig

Yn gynharach yn y tymor hwn, ystyriwyd rhai syniadau ar gyfer dulliau prisio gwahanol yn lle'r dull prisio traddodiadol â llaw yn bennaf a ddefnyddiwyd ar gyfer y dreth gyngor yn 1991 a 2003. Ymhlith y rhesymau dros ystyried ffyrdd eraill o brisio eiddo at ddibenion treth byddai ymgais i osgoi ymarferion hirfaith, costus ac anfynych ar raddfa fawr i ddiweddarau'r sylfaen drethu.

Syniadau

Ymhlith y dulliau posibl rydym wedi dod ar eu traws mae'r canlynol:

- **Modelu ystadegol:** gwell defnydd o ddata gweinyddol i amcangyfrif prisiau sy'n seiliedig ar nodweddion eiddo a gwybodaeth economaidd. Yn ogystal â defnyddio data ar drafodiadau, mae'r dull hwn yn gofyn am sicrhau gwell mynediad at dechnolegau GIS, cronfeydd data amgylcheddol ac amrywiol wybodaeth am y farchnad eiddo;
- **Mynegeio:** sy'n defnyddio mynegeion prisiau tai i uwchraddio gwerthoedd eiddo o 2003 hyd heddiw ac yn rheolaidd o bosibl wedi hynny. Byddai hyn yn cyfrif am chwyddiant mewn prisiau dros amser ond nid nodweddion eiddo unigol nac addasiadau;
- **Hunanasesu gan aelwydydd:** lle mae talwyr y dreth gyngor yn darparu gwybodaeth am eu heiddo a'u hamgylchiadau yn rheolaidd, yn flynyddol o bosibl, a ddefnyddir wedyn i boblogi fformiwla sy'n gallu asesu'r atebolrwydd i dalu;
- **Ailbrisiadau treigl:** diweddarau rhannau o'r sylfaen drethu dros amser ar sail dreigl, a thrwy hynny ddod yn rhaglen waith fwy integredig a chyson ar gyfer y corff prisio;
- **Lleoleiddio:** y newid mwyaf radical i'r dull traddodiadol lle mae llywodraeth leol yn cael y cyfrifoldeb am asesu a phenderfynu a fyddai ailbrisiad er budd ardal leol, a gweithio gyda'r corff prisio i ddiweddarau gwerthoedd, efallai o fewn paramedrau a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Dichonoldeb

Mae **dulliau ystadegol** o brisio eiddo yn cynyddu yn sgil datblygiadau mewn systemau digidol ac argaeledd data cysylltiadwy. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi datblygu ei gallu i fodelu ers ailbrisiad 2003 yng Nghymru. Mae cwmnïau fel Zoopla yn gweithredu algorithmau sy'n gweithio ar lefelau lleol ac yn llunio amcangyfrifon o wall ystadegol. Mae'r ymchwil gan Brifysgol Sheffield a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid a ddisgrifiwyd yn gynharach yn y bennod hon yn cynnig rhagor o syniadau ac yn awgrymu y gallai fod yn ymarferol ddichonadwy llunio model at ddibenion prisio sydd â lefel uchel o rhagweladwyedd. Nododd yr astudiaethau gyfyngiadau'r modelau hefyd, megis ansawdd y data ar hyn o bryd, colli manwl gywirdeb drwy baru ac amrywiant mewn amcangyfrifon, yn dibynnu ar y data mewnbwn a'r paramedrau a ddewisir. Mae llwyddiant yn dibynnu'n fawr ar sicrhau mynediad at y data sydd eu hangen ar lefel ddigon manwl gywir. Mae'n debygol y bydd angen prisiad proffesiynol o is-set o anheddau, ynghyd â rôl sicrhau ansawdd, bob amser. Oherwydd presenoldeb digidol Zoopla a Rightmove, mae'n debygol y bydd aelodau o'r cyhoedd yn fwy ymwybodol o fodelau prisiau tai nag yr oeddent ar adeg yr ailbrisiad diwethaf. Gellid profi tybiaeth o'r fath drwy ymchwil gymdeithasol benodol.

Defnyddir dull **mynegeio** o brisio eiddo mewn rhannau o'r byd ac mae nifer o economegwyr yn y DU wedi'i gynnig. Mae Mynegai Prisiau Tai'r SYG ei hun yn fodel atchwel hedonig sy'n seiliedig ar ddata ar werthiannau, rhestr brisio Asiantaeth y

Swyddfa Brisio, nifer y bobl sy'n cwblhau morgais a dosbarthiadau o ddefnyddwyr. Gan nad yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cofnodi gwerth manwl ar gyfer pob eiddo domestig, nid yw'r dull mynegeo yn bosibl oni bai bod ailbrisiad newydd o bob eiddo yn cael ei gynnal yn gyntaf a bod gwerth manwl yn cael ei gofnodi. Ond gallai ymarferion mynegeo mwy rheolaidd rhwng ailbrisiadau fod yn opsiwn dichonadwy. Byddai mynegeo ar lefel cyngor yn tybio bod prisiau cynyddol yn effeithio ar bob eiddo yn ardal y cyngor yn yr un modd. Awgrymwyd y gellid mynegeo trothwyon bandiau yn lle eiddo unigol a chymhwysio mynegeion lleol. Yn yr achos hwn, byddai bandiau cyfan yn ardal y cyngor yn symud i fyny neu i lawr o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Efallai y byddai modd creu mynegeion prisiau tai ar gyfer ardaloedd bach. Byddai'r rhain yn seiliedig ar nifer bach iawn o achosion mewn rhai rhannau o Gymru ac mae'n annhebygol y byddent yn ystadegol gadarn.

Gweithredir **hunanasesu** yn llwyddiannus ar gyfer elfennau o dreth incwm, treth etifeddiant a threth enillion cyfalaf. O ran y dreth gyngor, gallai'r dull gweithredu hwn amrywio o sefyllfa lle mae trethdalwyr yn paratoi eu prisiad eu hunain, gan ateb set gyffredin o gwestiynau am eu heiddo a'u hamgylchiadau, gyda model yn sail i'r broses hon o baratoi prisiad (yn debyg i gael dyfynbris am yswiriant cartref, er enghraifft). Gallai proses hunanasesu sicrhau system fwy ymatebol drwy ei gwneud yn bosibl i ddata gael eu diwedddaru'n amlach ac ar lefel eiddo unigol. Byddai rôl y corff prisio yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a chydymffurfiaeth. Gallai parodrwydd y cyhoedd i dderbyn yr opsiwn hwn amrywio'n sylweddol. Gallai rymuso trethdalwyr drwy sicrhau mwy o ymwybyddiaeth a pherchenogaeth o'u biliau treth gyngor, ond byddai angen ymchwil gymdeithasol benodol a buddsoddiad mewn rhyngwyneb â chwsmeriaid. Mae'n eithaf posibl y byddai diwydiant cyngori sy'n canolbwyntio ar leihau prisiadau i aelwydydd yn datblygu, a fyddai o bosibl yn negyddu manteision gweinyddol y dull gweithredu.

Byddai **dull ailbrisio treigl** yn diwedddaru rhannau o'r sylfaen drethu ar y tro er mwyn osgoi ymarfer ar raddfa fawr. Gellid cyflawni hyn yn ddaearyddol, yn ôl band treth gyngor, neu drwy ryw briodoledd arall (er enghraifft, pan gaiff eiddo ei werthu neu ei addasu). Gall gynnwys elfennau o ddulliau eraill ond yr egwyddor sylfaenol yw y dylid lledaenu'r gost a'r broses weithredu dros gyfnod hwy. Gallai hefyd sicrhau prisiadau amlach pe bai'r gwaith yn barhaus. Fodd bynnag, byddai'r dull gweithredu hwn yn arwain at system fyddai'n llawer mwy cymhleth a fyddai'n gorfod darparu ar gyfer prisiadau mewn blynyddoedd sylfaen gwahanol. Mae'n wahanol i egwyddor sylfaenol y dylai pob prisiad fod yn gysylltiedig â dyddiad cyffredin ac rydym yn rhagweld y bydd trethdalwyr yn teimlo bod y dull gweithredu hwn yn fwy annheg.

Byddai **lleoleiddio** penderfyniadau ar brisio i gynghorau yn rhoi'r cyfrifoldeb ar lywodraeth leol i benderfynu sut y gellid gweithredu. Oherwydd amrywiannau yn y sylfaen drethu a'r amodau economaidd rhwng ardaloedd, mae'r Sefydliad Polisi Cenedlaethol a'r Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru yn dadlau o blaid mwy o leoliaeth yn y penderfyniad i ailbrisio. Efallai mai rôl Llywodraeth Cymru fyddai pennu fframwaith y gellid gwneud penderfyniadau oddi mewn iddo, megis gosod meini prawf ynglŷn â bandiau (e.e. lled, cyfraddau treth graddoledig). Po fwyaf y dewis a ganiateir, y mwyaf lleol fyddai'r dull gweithredu a byddai angen profi'r awydd am hyn gyda llywodraeth leol. Pe bai'r broses brisio yn un lleol, mae'n debygol y byddai angen gwneud Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol, ond mae

llywodraeth leol yn cefnogi cysondeb ein cynllun cenedlaethol. O ran yr opsiwn hwn, erys cwestiynau ynglŷn â'r fethodoleg.

Casgliadau

Mae'n amlwg bod ffyrdd amgen a mwy modern o brisio eiddo domestig ar gyfer system drethu leol yn y dyfodol, o ystyried y datblygiadau ym maes data a thechnoleg. Fodd bynnag, ni fyddai pob un o'r syniadau yn sicrhau ailbrisiadau amlach nac yn caniatáu ar gyfer treth gyngor raddoledig. O ran prisio amlach, mae'n ymddangos y gallai dulliau ystadegol fod yn addawol, pe gellid sicrhau'r lefel briodol o gadernid a manwl gywirdeb. Gallai'r amser paratoi i ddatblygu'r rhain yn ogystal â'r costau ymlaen llaw fod yn gymharol uchel, ond gallent arwain at arbedion ar ddulliau prisio mwy costus yn y dyfodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n debygol y bydd yr ailbrisiad cyntaf sy'n defnyddio dull gwahanol yn ymarfer mawr ei effaith ag elfen wleidyddol, ac y caiff mwy o'r manteision eu gwireddu wedi hynny. Bydd parodrwydd y cyhoedd i dderbyn y dull yn allweddol i sicrhau hyder yn y trefniadau a chydymffurfiaeth. Un cam nesaf addas fyddai ystyried, ar y cyd ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sut y gallai'r dull traddodiadol o gynnal ailbrisiad fod wedi newid ers 2003, a hynny yng nghyd-destun datblygiadau ym maes gallu technegol.

Mae Pennod 9 yn ystyried cwestiynau ehangach am ffurf swyddogaethau prisio yn y dyfodol ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig yng Nghymru ac yn cymharu â gwledydd eraill.

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mewn unrhyw fersiwn ddiwygiedig o'r dreth gyngor, mae'n debygol y bydd angen rhyw fath o gymorth i aelwydydd incwm isel ac aelwydydd eraill. Byddai'n rhesymegol tybio mai po fwyaf graddoledig y system yn y dyfodol, y mwyaf cyfyngedig fyddai'r ymyriadau angenrheidiol posibl. Yn ystod y tymor hwn, rydym wedi sicrhau gwelliannau i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a hefyd wedi ystyried ei ffurf a'i ddiben yn y dyfodol ar yr un pryd. Mae'r newidiadau polisi a'n hymchwil wedi datblygu drwy reidrwydd, wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno ei Chredyd Cynhwysol i ddisodli nifer o fudd-daliadau etifeddol.

[Cynllun cenedlaethol](#) yng Nghymru yw Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sy'n rhoi cymorth ariannol uniongyrchol i fwy na 275,000 o aelwydydd incwm isel drwy leihau eu biliau treth gyngor. Ers cyflwyno ein cynllun yn 2013-14, rydym wedi parhau i ddiogelu aelwydydd sy'n agored i niwed ac aelwydydd incwm isel drwy barhau â hawliadau llawn i gymorth er gwaethaf penderfyniadau i dorri'r cymorth mewn mannau eraill. Mae hyn yn golygu, yn 2019-20, bod tua 220,000 o aelwydydd yn parhau i dalu dim treth gyngor o gwbl. Mae'r cynllun yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at fynd i'r afael â thlodi ac yn helpu i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed rhag mynd i anawsterau ariannol, yn aml o ganlyniad i ddiwygiadau Llywodraeth y DU i'r system les.

Yn ogystal â chreu un cynllun cenedlaethol i Gymru, gwnaeth Llywodraeth Cymru iawn am y toriad ariannol o 10% a gyflwynwyd ar yr un pryd â phenderfyniad Llywodraeth y DU i roi terfyn ar Fudd-dal y Dreth Gyngor yn 2013. Gwyddom fod y dull gweithredu tecach hwn wedi helpu i atal ôl-ddyledion o ran y dreth gyngor a rhent rhag cynyddu

yng Nghymru yn ystod cyfnodau o gyni cyllidol. Yn Lloegr, rhoddwyd pwerau i gynghorau lunio eu cynlluniau gostyngiadau eu hunain. O ganlyniad, mae'r cymorth i dalu'r dreth gyngor yn amrywio yn ôl ardal cyngor ac mae ymchwil wedi dangos bod mwy na thair miliwn o aelwydydd incwm isel yn gorfod talu mwy o'u bil treth gyngor ([Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2019](#)).

Cafodd tua **275,000 o aelwydydd** yng Nghymru ostyngiad yn y dreth gyngor yn 2019-20.

Cyfanswm gwerth cofnodedig y gostyngiadau a gynigiwyd drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ar gyfer 2019-20 oedd tua **£272m**.

Ym mis Mawrth 2020:

- cafodd **111,000** o aelwydydd **pensiynwyr** ostyngiad.
- cafodd **166,000** o aelwydydd **o oedran gweithio** ostyngiad.
- **ni thalwyd unrhyw dreth gyngor** o gwbl gan **217,000** o aelwydydd.
- roedd **22%** o aelwydydd a gafodd ostyngiad yn y dreth gyngor yn cael **Credyd Cynhwysol**.
- roedd **85%** o aelwydydd a gafodd ostyngiad yn byw mewn eiddo ym **Mandiau A – C**.

Mae Credyd Cynhwysol Llywodraeth y DU yn disodli'r rhan fwyaf o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag incwm a chredydau treth i bobl o oedran gweithio ac mae'n parhau i gael ei gyflwyno ledled y DU. Mae tystiolaeth glir bod y diwygiadau hyn yn cael effaith niweidiol ar aelwydydd mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys meysydd polisi datganoledig megis cymorth i dalu'r dreth gyngor, tai cymdeithasol a dyled aelwydydd ([Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2018](#)). Er bod un o amcanion y diwygiadau lles i gynnig mwy o gymhellion i weithio yn gadarnhaol, ni all fod yn briodol bod penderfyniadau a wneir yng nghyd-destun y DU ym maes lles yn cael effaith ar benderfyniadau ar drethi lleol a meysydd polisi datganoledig eraill yng Nghymru.

Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi bod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon, o ran sicrhau ei bod yn cefnogi aelwydydd sy'n agored i niwed ac aelwydydd incwm isel yn y ffordd decaf bosibl, ac o ran ymestyn ei gyrhaeddiad. Dyma un rheswm pam y gwnaethom gomisiynu ymchwil fanwl gan Policy in Practice ym mis Ionawr 2019 i daflu goleuni ar effaith Credyd Cynhwysol ar ein cynllun cenedlaethol i roi cymorth i dalu'r dreth gyngor, dyledion treth gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru. Mae'r ymchwil fanwl a hydredol yn olrhain amgylchiadau aelwydydd yng Nghymru dros amser, gan ddefnyddio data o bob rhan o Gymru. Caiff ei hategu gan ymchwil ansoddol i brofiadau pobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol, gwasanaethau cynghori, cynghorau, cymdeithasau tai a landlordiaid preifat. Mae'r ymchwil yn eang ei chwmpas ac rydym yn ddiolchgar iawn bod pob cyngor yng Nghymru, 15 o gymdeithasau tai a sawl cynrychiolydd o'r sector rhentu preifat wedi cymryd rhan.

Roedd adroddiad interim a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 yn ystyried yn benodol effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Yna, cyhoeddwyd adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf a oedd yn ehangach ei gwmpas.

Ymchwil Policy in Practice

Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol gan Policy in Practice, *Deall Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru* ar 29 Gorffennaf 2020. Gellir ei weld [yma](#).

Mae'n cyflwyno dadansoddiad o'r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru ar gyfer gostyngiadau yn y dreth gyngor, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar ei ffurf bresennol fel y'i hamcangyfrifir yn 2021-22 pan fydd mwy o'r boblogaeth yng Nghymru wedi symud i Gredyd Cynhwysol, yn ogystal ag effaith gwneud dau fân addasiad i'r cynllun presennol ar gyfer **aelwydydd o oedran gweithio**. Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i ystyried effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion y dreth gyngor ac ôl-ddyledion rhent, yn ogystal â'r profiadau o Gredyd Cynhwysol o safbwynt hawlwr a rhanddeiliaid.

Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor yn 2019-20 a 2021-22

Mae'r adroddiad yn dangos bod tua 275,000 o aelwydydd wedi cael cymorth o dan y cynllun yn 2019-20 ac amcangyfrifwyd mai cyfanswm gwerth y gostyngiadau yn y dreth gyngor oedd £269 miliwn. Roedd y gostyngiad fesul aelwyd tua £19.00 yr wythnos ar gyfartaledd, ond roedd hyn yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r aelwyd. Mae hyn yn dangos bod ein cynllun cenedlaethol yn rhoi gostyngiad o £1,000 y flwyddyn ar gyfartaledd i bron 20% o dalwyr y dreth gyngor yng Nghymru. Roedd aelwydydd a oedd yn cael Credyd Cynhwysol yn cael llai o gymorth yr wythnos ar gyfartaledd: £16.70 yr wythnos o gymharu â'r rhai a oedd yn cael budd-daliadau etifeddol, a gafodd £19.10 yr wythnos.


Pe bai'r cynllun presennol yn parhau yn 2021-22, amcangyfrifodd Policy in Practice y gallai cyfanswm gwerth y gostyngiadau gynyddu i tua £294 miliwn, sef cynnydd o 9% ers 2019-20, sydd ychydig yn is na'r cynnydd cyfartalog yn yr atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, sef 10% yn ôl amcangyfrif. Mae'r cynnydd hwn a amcanestynnir yn deillio'n bennaf o dybiaethau modelu ar gyfer cynnydd yn y dreth gyngor yng Nghymru dros gyfnod o ddwy flynedd.

Un o ganfyddiadau pwysig yr adroddiad yw, er bod y rhan fwyaf o grwpiau yn gweld cynnydd yn y cymorth yn unol â'r cynnydd yn y dreth gyngor dros y cyfnod, fod aelwydydd sy'n gweithio ac sy'n cael Credyd Cynhwysol yn fwy tebygol o weld gostyngiadau yn y cymorth a roddir iddynt, a hynny am fod y ffordd yr asesir gostyngiad yn y dreth gyngor i bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol bellach yn wahanol i'r rhai sy'n dal i gael budd-daliadau etifeddol.

Mae'r ymchwil yn mynd yn ei blaen i nodi bod pobl sy'n cael gostyngiad o 100% o'r dreth gyngor am nad oes ganddynt incwm yn parhau i gael hynny. Fodd bynnag, i eraill, **mae'r newid i Gredyd Cynhwysol o fudd-daliadau etifeddol yn cael effaith andwyol ar y gostyngiad yn y dreth gyngor a roddir**. Mae Ffigur naw yn dangos bod cymorth i aelwydydd cyflogedig a hunangyflogedig sy'n cael Credyd Cynhwysol

yn gostwng 13% a 69% yn y drefn honno ar gyfartaledd. Mae'n debygol y byddai gostyngiadau tebyg yn cael eu gweld i aelwydydd sy'n gweithio ac yn cael y Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibynnol Personol sy'n symud i Gredyd Cynhwysol. Ar gyfer y grŵp hwn, mae'r cymorth yn gostwng 22% ar gyfartaledd. Ar y cyfan, mae'r ymchwil yn rhoi gwybodaeth werthfawr i'n helpu i ddeall ar bwy y mae cyflwyno Credyd Cynhwysol yn cael effaith negyddol yng nghyd-destun gostyngiadau yn y dreth gynor yng Nghymru.

Ffigur naw: Newid Canrannol yn y Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor a roddir o'r flwyddyn gyfredol i 2021-22, yn ôl Statws Economaidd ar gyfer Aelwydydd o Oedran Gweithio



Ffynhonnell: Adroddiad Policy in Practice.

Mae'r adroddiad yn ein hatgoffa, o ganlyniad i'r hawl i gadw enillion o dan Gredyd Cynhwysol, **na fydd pob un o'r aelwydydd hyn ar eu colled yn ariannol o reidrwydd**. Mae'r hawl hon i gadw mwy o enillion yn golygu bod swm y gostyngiad yn y dreth gyngor y mae'r aelwydydd hyn yn gymwys i'w hawlio yn gostwng. Mae'n bwysig deall i ba raddau y mae aelwydydd ar eu colled drwy newid i Gredyd Cynhwysol, a hefyd gydnabod y *gall* y newid olygu bod rhai aelwydydd yn cadw mwy o incwm. Un cwestiwn allweddol sy'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yw a ddylai enillion a gedwir o dan Gredyd Cynhwysol cael eu hystyried yn swm cyfnewid am swm y gostyngiad yn y dreth gyngor a gollir. Bydd dealltwriaeth o'r effaith yn ôl grŵp penodol, yn ogystal â'r effaith ariannol ar yr aelwydydd dan sylw, bellach yn helpu i wneud penderfyniadau polisi yn y maes hwn.

Addasu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Aeth Policy In Practice ati i fodelu nifer o addasiadau posibl i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a allai sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng aelwydydd o oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau etifeddol ac aelwydydd o oedran gweithio sy'n cael Credyd Cynhwysol. Mae'r adroddiad terfynol yn canolbwyntio'n fanylach ar un o'r opsiynau sydd ar gael, sef diwygio 'tapro' Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Y tapr yw'r gyfradd y tynnir cymorth yn ôl yn raddol pan fydd aelwyd wedi ennill incwm uwchlaw trothwy penodol. Fe'i pennir ar 20% ar hyn o bryd, sy'n golygu bod y cymorth yn gostwng 20c am bob £1 o incwm ychwanegol a enillir.

Mae lleihau'r gyfradd dapro yn cynnig cyfle i wneud Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn fwy graddoledig. Po isaf y gyfradd ganrannol, y mwyaf hael y cynllun. Amcangyfrifir y byddai gostwng y gyfradd dapro o 20% i 10% ar gyfer pob aelwyd o oedran gweithio i wneud y cynllun yn fwy hael yn fanteisiol i tua 27,000 o aelwydydd yn 2021-22. Mae'r aelwydydd hyn yn gweld cynnydd o tua £6 yr wythnos ar gyfartaledd. Yn bwysig ddigon, mae ymchwil Policy in Practice yn dangos mai aelwydydd hunangyflogedig a chyflogedig sy'n cael Credyd Cynhwysol sy'n cael y budd mwyaf o'r mesur hwn; neu aelwydydd y mae Credyd Cynhwysol yn fwy tebygol o gael effaith negyddol arnynt. Byddai cyfanswm gwerth y gostyngiadau yn cynyddu £8 miliwn yn 2021-22, ond gallai'r swm hwn newid, oherwydd gallai penderfyniad i ostwng y gyfradd dapro hefyd olygu bod mwy o bobl yn gymwys o dan y cynllun¹. Pe teimlid bod yr opsiwn hwn yn ddichonadwy, gellid ei estyn i gynnwys aelwydydd oedran pensiwn, neu gellid ei gyfyngu i'r rhai sy'n cael Credyd Cynhwysol yn unig, o ystyried y gostyngiadau y mae'r aelwydydd hyn yn eu hwynebu.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am un opsiwn ar gyfer gwella'r ffordd y gweinyddir Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Ceir tystiolaeth anecdotaidd bod Credyd Cynhwysol yn cynyddu costau gweinyddu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am fod angen ailasesiadau amlach mewn ymateb i asesiadau misol Credyd Cynhwysol. Oherwydd ailasesiadau amlach o'r fath, gall aelwydydd gael cyfres o hysbysiadau dyfarnu a biliau treth gyngor diwygiedig. Mae'r adroddiad yn awgrymu y gallai Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gynnwys mesurau i leihau'r angen hwn am ailasesiadau drwy fabwysiadu trothwy 'de minimis' ar gyfer newid. Câi newidiadau mewn incwm islaw'r trothwy eu hanwybyddu at ddibenion ailasesu. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu y byddai hyn yn debygol o fod yn fesur cost niwtral am fod tandaliadau a gordaliadau yn gwrthbwysu ei gilydd, ond byddai angen gwneud rhagor o waith, er enghraifft, i ganfod y trothwy 'de minimis' gorau. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod mater ailasesiadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o dan Gredyd Cynhwysol yn parhau'n ystyriaeth berthnasol o ran gwella'r cynllun yn y dyfodol.

¹ Dim ond ystyried aelwydydd a gynrychiolir ar hyn o bryd yn y setiau data a ddefnyddir y gall gwaith modelu ei wneud. Felly, ni all ragweld newid ymddygiadol mewn ymateb i addasiad i'r cynllun. Ni all mesurau penodol sy'n arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n gymwys fodelu cynnydd o ran llwyth gwaith na'r cynnydd canlyniadol yng nghyfanswm gwerth y gostyngiadau yn y dreth gyngor. Pan fydd hyn yn digwydd, gall gwaith modelu arwain at danamcangyfrif costau. Fodd bynnag, lle y gall addasiad arwain at gynnydd yn y llwyth achosion, nodir hyn yn yr adroddiad terfynol. Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau data, prosesu data, tybiaethau modelu a'r broses ddadansoddi yn Atodiad C i'r adroddiad terfynol.

Mae'r adroddiad interim gan Policy in Practice a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 yn cynnig opsiynau modelu eraill ar gyfer lleihau rhai o effeithiau negyddol Credyd Cynhwysol ar ostyngiadau yn y dreth gyngor a roddir yng Nghymru. Gellir ei weld [yma](#).

Mae'r adroddiad interim yn diweddarau'r dadansoddiad o'r pum addasiad canlynol i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar ei ffurf bresennol, y gallai rhai ohonynt adfer triniaeth gyfartal rhwng aelwydydd sy'n cael budd-daliadau etifeddol a'r rhai sy'n cael Credyd Cynhwysol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- newid didyniadau ar gyfer y rhai nad ydynt yn ddibynyddion;
- cyflwyno isafswm dyfarniad gwarantedig;
- gostwng yr Isafswm Terfyn Incwm tybiannol a ddefnyddir i gyfrifo ar gyfer hawlwy'r hunangyflogedig sy'n cael Credyd Cynhwysol;
- newidiadau i'r terfyn dau blentyn i deuluoedd;
- cyflwyno cynllun bandiau incwm.

Cynyddu nifer yr hawlwy'r

Mae dadansoddiad o'r arolwg gan Policy in Practice yn nodi bod dryswch ynglŷn â'r berthynas rhwng Credyd Cynhwysol a gostyngiadau yn y dreth gyngor; **roedd 25% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn credu bod cais am ostyngiad yn y dreth gyngor wedi'i gynnwys fel rhan o Gredyd Cynhwysol**. Nid felly y mae. Mae angen i aelwydydd cymwys wneud cais ar wahân am ostyngiad yn y dreth gyngor bellach. Mae Credyd Cynhwysol yn lleihau'n uniongyrchol nifer yr achosion sy'n trosglwyddo'n awtomatig, gan wneud y broses gwneud cais yn fwy cymhleth i aelwydydd cymwys a'i gwneud yn fwy anodd i gynghorau gysylltu ag aelwydydd yn rhagweithiol. Mae cynghorau hefyd yn colli gwybodaeth, gan nad yw elfen tai'r Credyd Cynhwysol, yn wahanol i'r Budd-dal Tai, yn cael ei gweinyddu gan awdurdodau lleol.

Awgrymodd ein hymchwyl fewnol yn 2017 y gallai nifer y rhai sy'n hawlio o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru fod mor isel â 55% i 65% o aelwydydd cymwys, ond mae hyn yn debyg i'r rhan fwyaf o fudd-daliadau'r DU. Cyn COVID-19, roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymateb i'r dystiolaeth hanesyddol o'r cyfraddau hawlio isel o bosibl drwy lansio ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth. Yn 2018, lansiwyd ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynllun a'r mathau eraill o gymorth i dalu'r dreth gyngor (disgowntiau ac esemptiadau) sydd ar gael. Caiff yr ymgyrch gyhoeddusrwydd ar-lein ei chefnogi gan wefan a deunydd argraffedig sy'n esbonio'r cymorth sydd ar gael a sut i wneud cais. Gwnaethom ail-lansio'r ymgyrch hon ym mis Ebrill 2019 ac ymgymryd â rhagor o waith codi ymwybyddiaeth a oedd yn canolbwyntio ar aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol neu a all fod yn gymwys i'w gael. Yn gyffredinol, mae ein hymgyrch wedi cyrraedd dros 80,000 o bobl bellach drwy wybodaeth gyffredinol a gwybodaeth wedi'i thargedu.

Mae sicrhau bod pob aelwyd gymwys, gan gynnwys aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol, yn cael y cymorth i dalu'r dreth gyngor y mae ganddynt yr hawl i'w gael wedi bod yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon, ymgyrch sydd mor berthnasol ag erioed o ystyried bod Policy in Practice wedi canfod **bod ôl-ddyledion treth gyngor yn fwy cyffredin, ac yn fwy difrifol, ymhlith y rhai sy'n cael Credyd Cynhwysol o gymharu â budd-daliadau etifeddol**. Ymddangosai fod y canlyniad hwn yn eithaf cyson rhwng gwahanol grwpiau demograffig a grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'r dadansoddiad hefyd yn awgrymu y gall rhai aelwydydd sy'n newid i Gredyd Cynhwysol

ac yn parhau i'w gael gronni ôl-ddyledion treth gyngor, yn enwedig yr aelwydydd hynny a oedd eisoes wedi cronni ôl-ddyledion. Mae'n debygol bod elfennau o'r cyfnod pontio (megis y gofyniad i aros am bum wythnos) a ffactorau parhaus (e.e. cyllidebu misol, lefelau dyfarniadau) yn cyfrannu at ôl-ddyledion treth gyngor, a disgrifiwyd patrymau tebyg yng nghyd-destun effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent. Mae'r llwybr hwn yn achos pryder ac rydym wedi cymryd camau trawslywodraethol fel rhan o'r gwaith o fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru, a lliniaru effaith diwygiadau lles anraddoledig.

Effaith COVID-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mae'n werth nodi nad yw canfyddiadau'r ymchwiliad yn ystyried unrhyw effeithiau economaidd na chymdeithasol sy'n datblygu o ganlyniad i bandemig y coronafeirws². Gwyddom fod COVID 19 wedi cael effaith ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, y dreth gyngor yn fwy cyffredinol ac ar amgylchiadau aelwydydd. Mewn ymateb i hyn, gwnaethom gomisiynu rhagor o waith ar effaith COVID-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan Policy in Practice. Cyhoeddwyd y canfyddiadau cychwynnol ym mis Chwefror 2021 a gellir ei weld [yma](#).

Er bod effaith y coronafeirws ar hawlio cymorth ariannol, gan gynnwys Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, wrthi'n cael ei hystyried, mae'r canfyddiadau cychwynnol yn cadarnhau **bod gostyngiadau yn y dreth gyngor wedi cynyddu ers dechrau'r pandemig**. Canfu Policy in Practice fod llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi cynyddu tua 5% ledled Cymru rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020, a oedd yn werth tua £17 miliwn.³ Mae hyn yn cyfateb i tua 10,000 o achosion ychwanegol sy'n cynnwys pobl o oedran gweithio, ond mae newidiadau yn y llwyth achosion yn amrywio rhwng cynghorau. Bu newid nodedig hefyd o fudd-daliadau etifeddol i hawlio Credyd Cynhwysol yn llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Cynyddodd nifer yr aelwydydd a oedd yn cael Credyd Cynhwysol 52% a gostyngodd nifer yr aelwydydd a oedd yn cael budd-daliadau etifeddol 14%. Mae hyn yn symptomatig o gyflymder y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol ledled y wlad, a hefyd yr hawlwr newydd sy'n gwneud cais o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fel ganlyniad tebygol o COVID-19. Mae Policy in Practice hefyd yn rhagweld y bydd ôl-ddyledion treth gyngor yn debygol o gynyddu.

Rydym wedi rhoi cymorth ariannol ychwanegol i gynghorau fel cyfraniad tuag at y cynnydd yn nifer yr achosion o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Ers dechrau'r pandemig, rydym wedi rhoi £10.9m yn ychwanegol i gefnogi'r rhai sydd wedi gofyn am gymorth o ganlyniad i'r effaith ariannol ar incwm aelwydydd. Byddwn yn parhau i fonitro nifer y ceisiadau o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o ganlyniad i'r pandemig ac rydym yn ymrwymedig i ymateb lle y bo'n briodol.

² Hefyd, nid oes unrhyw waith ar fodolu blynyddoedd y dyfodol yn ystyried amodau macro-economaidd na newidiadau mewn polisi o ganlyniad i newid Llywodraeth y DU. Yn benodol, nid yw'r gwaith modelu yn ystyried unrhyw effeithiau economaidd sy'n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd, nac unrhyw newidiadau polisi a all godi o ganlyniad i newid Llywodraeth rhwng 2019 a 2022.

³ Bydd rhan o'r cynnydd yng ngwerth y symiau a ddyfarnwyd yn ymwneud â'r cynnydd yn y dreth gyngor yng Nghymru o fis Ebrill 2020 ac nid y pandemig o reidrwydd.

Casgliadau

Hyd y gwyddom, y gwaith ymchwil gan Policy in Practice yw'r astudiaeth fwyaf fanwl o effaith Credyd Cynhwysol yng Nghymru hyd yma, sy'n defnyddio data ar aelwydydd unigol nad ydynt ar gael i Lywodraeth Cymru Mae'n gwella ein gwybodaeth yn y maes hwn gryn dipyn, a bydd bellach yn llywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn y dyfodol. Mae'n darparu gwybodaeth hollbwysig a fydd yn ein galluogi i ddiwygio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, os bydd angen, er mwyn lliniaru effeithiau negyddol ar grwpiau penodol o bobl.

Bydd angen i unrhyw newidiadau a wneir i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fod yn gymesur, osgoi canlyniadau anfwriadol a chael eu hystyried yng nghyd-destun ehangach gweinyddu'r cynllun, yn ogystal ag opsiynau yn y dyfodol ar gyfer diwygiadau yn y tymor hwy. Bydd angen inni ystyried yn ofalus a oes angen inni ailystyried y cynllun mewn ffordd fwy sylfaenol er mwyn lliniaru effaith diwygiadau lles a gwneud y dreth gyngor yn decach ac yn fwy graddoledig. Mae diwygio'r 'gyfradd dapro' a chyflwyno trothwy de minimis ar gyfer newidiadau mewn incwm er mwyn lleihau faint o ailfilio sydd ei angen yn opsiynau atyniadol i wella Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a lleihau costau gweinyddol. Fodd bynnag, dim ond hyn a hyn y bydd diwygiadau o'r fath yn ei gyflawni.

Rydym yn cydnabod y dadleuon dros fod yn fwy beiddgar wrth ailddylunio'r cynllun yn y dyfodol. Deallwn fod Llywodraeth yr Alban wrthi'n paratoi diwygiadau i'w chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gyda'r bwriad o sicrhau bod y rhai ar Gredyd Cynhwysol yn cael lefel y gostyngiad y byddent wedi'i chael pe baent ar fudd-daliadau etifeddol, cyn belled ag y bo'n ymarferol.

Mewn meysydd eraill, mae dealltwriaeth o effeithiau ehangach Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion treth gyngor ac ôl-ddyledion rhent yn rhoi sylfaen dystiolaeth werthfawr i lywio trafodaethau pellach ar y ffordd y gweithredir Credyd Cynhwysol, prosesu taliadau a'r dull o symud hawlwy'r o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol sydd â chostau tai, mewn ffordd reoledig. Mae [Sefydliad Bevan](#) yn awgrymu y dylid ehangu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gwmpasu pawb sy'n cael Credyd Cynhwysol fel achosion sy'n trosglwyddo'n awtomatig. Fodd bynnag, ni fyddai gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth dros ba fudd-daliadau, credydau treth neu fathau o aelwydydd a allai gael eu cynnwys yn y Credyd Cynhwysol yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd ati mewn ffordd drawslywodraethol i fynd i'r afael â thlodi a lliniaru effaith diwygiadau lles anraddoledig.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi rhagor o waith ar effaith COVID-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac rydym yn ymrwymedig i fonitro'r effaith. Mae dirwasgiadau economaidd a digwyddiadau ysgytwol na welwyd eu tebyg o'r blaen fel y coronafeirws yn rhoi pwysau ychwanegol ar systemau cymorth ond hebddynt, byddai'r goblygiadau i aelwydydd yng Nghymru yn llawer gwaeth. Mae'r rhwydi diogelwch pwysig hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ond byddant yn parhau i achosi heriau wrth i amgylchiadau ac anghenion newid. Yn ddelfrydol, byddai systemau yn y dyfodol yn cael eu dylunio i fod yn llai cymhleth ac yn llai beichus yn weinyddol. Fodd bynnag, ni welsom fawr ddim dystiolaeth y gallai neu y dylai system yn y dyfodol weithredu'n hollol ar wahân i system les y DU a'r gwir amdani yw bod cymorth wedi'i dargedu yn dibynnu ar asesiadau manwl o sefyllfa ariannol aelwydydd.

Mae ein gwaith yn ystod y tymor hwn yn cynnig opsiynau addawol ar gyfer gwelliannau ar raddfa lai a allai fynd dipyn o'r ffordd i gyflawni'r nodau hyn. Er y credwn ei bod yn debygol y byddai angen rhwyd ddiogelwch i rai aelwydydd o hyd, ni waeth beth fydd y system drethu leol yn y dyfodol, byddai systemau mwy graddoledig yn gyffredinol yn gofyn am set gulach o ymyriadau.

Yr hyn a ddysgwyd gennym

Mae'r bennod hon yn amlinellu rhychwant eang o opsiynau ar gyfer y dreth gyngor yn y dyfodol pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu cadw system treth eiddo leol debyg i bob pwrpas, yn hytrach na chynnig math sylfaenol wahanol o dreth leol, megis treth gwerth tir neu dreth incwm leol. Mae llawer o'r syniadau yn rhai arwyddocaol o ran yr adnoddau a fyddai'n angenrheidiol, y cyfnod paratoi, deddfwriaeth, proses weithredu ymarferol a maint y newid i aelwydydd a chynghorau. Dyma'r pwyntiau allweddol sydd wedi taro tant â ni.

Cyflawni amcanion: mae ymchwil y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Phrifysgol Sheffield yn gwneud cyfraniadau unigryw ac arwyddocaol i'r ddadl ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer diwygio'r dreth gyngor yng Nghymru, sy'n defnyddio data nad ydynt wedi bod ar gael i ymchwilwyr cyn hyn. Mae'r gwaith o ansawdd uchel ac yn dangos bod posibilïadau er mwyn cyflawni ein hamcan o sicrhau bod y dreth gyngor yn fwy graddoledig. Fodd bynnag, mae'r amrywiaeth o opsiynau mor eang ar hyn o bryd, y bydd angen dewis a dethol o'u plith er mwyn bwrw ymlaen gyda gwaith datblygu polisïau. Mae ailbrisiad yn agor y drws i fwy o opsiynau nag addasu'r system sy'n seiliedig ar werthoedd 2003.

Effaith ar gynghorau: mae sicrhau bod y dreth gyngor yn fwy graddoledig yn gofyn am ailddosbarthu'r baich treth o'r ardaloedd lleiaf cyfoethog i'r ardaloedd mwyaf cyfoethog yng Nghymru, sy'n golygu y byddai cynghorau lle mae lefelau uwch o amddifadedd yn codi llai o dreth ac yn mynd yn fwy dibynnol ar gyllid grant gan y llywodraeth. Felly, mae un dewis i Lywodraeth Cymru o ran diwygiadau yn y dyfodol yn aml yn mynd yn gyfaddawd rhwng tegwch i aelwydydd a'r gallu i godi refeniw lleol.

Effaith ar aelwydydd: mae'r holl ystod o effeithiau ar aelwydydd yn rhy eang ac amrywiol i'w crynhoi yn un set o gasgliadau, ond mae'n amlwg bod potensial i ailddosbarthu'r atebolrwydd i dalu mewn ffordd fwy graddoledig. Mae'n hollbwysig ein bod yn ceisio data manylach. Efallai y bydd y cyfyngiadau yn ein hatal rhag mesur yr union effaith ar bob aelwyd a'r berthynas rhwng hynny a'r gallu gwirioneddol i dalu, er enghraifft nid oes fawr ddim gwybodaeth ar gael i Lywodraeth Cymru am incwm aelwydydd ar lefel is-genedlaethol. Byddai rhai o'r opsiynau yn fanteisiol i rai aelwydydd incwm uwch am fod gwerth eiddo ond yn rhoi amcan rhannol o incwm.

Cymorth i'r rhai sydd ei angen: down i'r casgliad y bydd angen rhyw fath o gymorth o hyd fel rhwyd ddiogelwch ar aelwydydd incwm isel ac aelwydydd eraill, ni waeth pa system o dreth gyngor a ddewisir yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid ydym wedi llwyddo i ganfod i ba raddau y gellid datgysylltu'r trefniadau oddi wrth system les y DU. Rydym wedi dysgu drwy ein dadansoddiad ein hunain, a thrwy adroddiadau'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid a Policy in Practice, ei bod yn anodd tu hwnt deall cyfradd hawlio

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. O ganlyniad i hyn, dim ond dadansoddi'r opsiynau y gallai gan dybio naill ai dim cyfradd hawlio neu gyfradd hawlio lawn o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, er ei bod yn rhywle yn y canol mewn gwirionedd.

Atebolrwydd lleol: dylai'r dreth gyngor aros yn dreth leol ac felly, er mwyn i ddiwygiadau gryfhau ymreolaeth a hyblygrwydd lleol, bydd angen i Lywodraeth Cymru ddeall yn well pa elfennau o'r system sy'n gofyn am gysondeb cenedlaethol er mwyn gallu cyflawni amcanion a ble y gall fod mwy o ddisgresiwn lleol.

Dyluniadau â bandiau: os ydym am gadw bandiau, mae'n ymddangos bod dewisiadau diderfyn ynglŷn â ble i osod bandiau newydd a chyfraddau treth yn y dyfodol. Y fantais yw bod hyn yn cynnig llawer o hyblygrwydd i'r llywodraeth wrth ddylunio system yn unol â'i hamcanion. Rydym yn ymwybodol bod ailbrisiad yn rhoi ciplun o amgylchiadau ar adeg benodol, ac yn gofyn am gryn dipyn o amser rhwng ymgynghori, priso a gweithredu. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod amseriad ailbrisiad yn bwysig iawn.

Dyluniadau gwerth arwahanol: un opsiwn ar y pegwn mwyaf radical o'r sbectrwm fyddai dileu'r bandiau a dychwelyd yn rhannol i'r hen system ardrethi domestig. Mae'r math hwn o system yn rhagddyddio'r dreth gyngor ac mae'n dal i fod ar waith yng Ngogledd Iwerddon ac felly gallai gwaith pellach geisio nodi manteision ac anfanteision drwy ystyried y profiad blaenorol a'r profiad ar hyn o bryd. Mae'n werth nodi y byddai mwy o apeliadau o bosibl gan drethdalwyr. Mae gwersi i'w dysgu oddi wrth ddiwylliant o hap-apeliadau sy'n bodoli yng nghyd-destun eiddo annomestig ar gyfer sylfaen drethu lawer llai o faint.

Prisio: p'un a fydd y system a ddewisir yn y dyfodol yn gofyn am ymarfer ailbrisiad ai peidio, mae dewisiadau ynghylch y dull prisio yn y dyfodol. Mae'r canlyniadau tebyg rhwng astudiaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ac astudiaeth Prifysgol Sheffield, heblaw am rai gwahaniaethau ar y pegwn isaf o'r farchnad eiddo, yn awgrymu rhywfaint o ddibynadwyedd ac yn dangos o bosibl y gallai dulliau ailbrisiad fod yn fwy seiliedig ar ddulliau ystadegol yn y dyfodol, ac o bosibl osgoi rhywfaint o'r angen i gynnal ailbrisiadau llafurus â llaw, fel y digwyddodd yn 2005.

Dim ailbrisiad: mae'r newidiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn yr Alban yn dangos y gellid gwneud addasiadau cymharol fach i'r cyfraddau treth presennol heb ailbrisiad, ond y gall hyn gadw anghywirdeb ac annhegwch yn sylfeini'r system. Mae dadansoddiad yn awgrymu, er mwyn lleihau'r atebolrwydd i dalu ar eiddo mewn bandiau is, y byddai angen symud mwy o'r baich treth i'r bandiau canol oherwydd y niferoedd bach o eiddo ar frig y farchnad eiddo yng Nghymru. Gallai hyn arwain at 'wasgu' incwm canol.

Newid sydyn ar raddfa fawr yn erbyn newid graddol: os dewisir ailbrisiad, ond ni ffeirir newid sydyn ar raddfa fawr, gallai fod diwygiadau eraill a allai sicrhau gwelliant mwy graddol, er enghraifft, cyflwyno fesul cam, gohirio, mynegeo blynyddol neu brisiadau fesul tipyn. Mae profiad blaenorol yn awgrymu bod cyflwyno newidiadau polisi yn raddol yn ychwanegu cymhlethdod ac mai'r rhain a gaiff eu deall leiaf gan ddinasyddion a rhanddeiliaid. Y cam nesaf fyddai trafod y posibilïadau ag Asiantaeth y Swyddfa Brisiad.

Ymgysylltu â'r cyhoedd / derbynoldeb: unwaith eto, mae'r dewis o opsiynau yn rhy fawr i allu dod i gasgliadau ynglŷn â pharodrwydd y cyhoedd i dderbyn system dreth gyngor yn y dyfodol. Ond mae'r ymchwil yn nodi'n glir bod pob opsiwn yn gofyn am welliannau i'r ffordd y caiff treth ei chyfleu a'i deall a'r ffordd y mae pobl yn rhyngweithio â hi.

Gofynion deddfwriaethol a chyfansoddiadol: mae pob opsiwn o fân ddiwygiadau i ddiwygiadau ar raddfa fawr yn gofyn am rywfaint o newid deddfwriaethol. Mae hyn yn creu cyfleoedd i foderneiddio a chydgrynhoi'r statud. Byddai angen cydsyniad Llywodraeth y DU ar gyfer opsiynau sy'n golygu addasu'r swyddogaeth brisio, gan gynnwys system gwerth arwahanol neu fethodoleg brisio wahanol. Yn dibynnu ar ehangder y newid deddfwriaethol sydd ei angen, efallai y bydd rhwystrau cyfansoddiadol eraill.

Amserlenni: mae'r amserlen ar gyfer datblygu newidiadau a'u rhoi ar waith yn amrywio gryn dipyn, yn dibynnu ar faint y newid. Ar y pegwn mwy sylweddol o'r sbectwm, h.y. system barhaus heb fandiau, byddai hyn yn gofyn am amserlen o fwy nag un tymor o bum mlynedd. Gellid cyflawni ymarfer ailbrisio ac ailfandio symlach erbyn tua diwedd y tymor nesaf ond byddai'r cyfnod pontio i aelwydydd a chynghorau yn debygol o barhau i mewn i ail dymor. Gellid gwneud newidiadau llai o faint megis adolygiad o gynlluniau cymorth mewn tua thair blynedd oherwydd gofynion deddfwriaethol. Mae pob un o'r opsiynau yn dibynnu'n fawr ar ba newidiadau fydd eu hangen ar y swyddogaeth brisio a gallu Asiantaeth y Swyddfa Brisio i'w cyflawni.

Gweithgor

Trafododd y Gweithgor Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol nifer o ddiwygiadau i'r dreth gyngor yn fanwl yn 2016-2018. Un ffocws allweddol yn ystod y drafodaeth oedd yr angen i nodi'n glir beth fyddai diben bwriadedig y dreth gyngor yn y dyfodol, a ddylai gael ei dylunio a'i hystyried yn dâl am ddefnyddio gwasanaethau, yn dreth ar gyfoeth, neu'n gyfuniad o'r ddau. Cafodd y gweithgor drafodaeth helaeth ar ystyr bod yn raddoledig mewn perthynas ag eiddo, incwm ac agweddau eraill ar fforddiadwyedd. Ystyriodd y gweithgor hefyd y rhyngweithio rhwng y system ardrethi domestig ac annomestig, a'i bod yn bwysig bod y ddwy dreth yn gweithio gyda'i gilydd.

Cytunodd yr aelodau, pa newidiadau bynnag a ystyrir, y dylai symleiddio'r system yn hytrach na'i chymhlethu fod yn un o'r prif nodau. Roedd y gweithgor yn teimlo y dylid adolygu'r gyfres o ddisgowntiau ac esemptiadau, gan nodi manteision ac anfanteision disgowntiau i oedolion sengl a myfyrwyr o ran tegwch a hwyluso trefniadau gweinyddol. Nodwyd pwysigrwydd cadw rywfaint o hyblygrwydd lleol o safbwynt disgowntiau ac esemptiadau. Yn olaf, nododd yr aelodau bwysigrwydd cyfleu newidiadau polisi mewn ffordd glir a thryloyw, gan ddysgu'r gwersi o newidiadau blaenorol megis ailbrisiad 2005.

Meysydd ar gyfer gwaith pellach

Y meysydd allweddol i'w hystyried ymhellach pe bai'r dreth gyngor yn cael ei chadw fyddai:

- Cael trafodaethau manylach â llywodraeth leol ac eraill a chytuno ar set o egwyddorion a fyddai'n helpu i chwynnu rhai o'r opsiynau ar gyfer diwygio;
- Trafod y dulliau prisio presennol a'r rhai fydd yn bosibl yn y dyfodol ar gyfer prisio eiddo domestig ag Asiantaeth y Swyddfa Brisiog, gan gynnwys deall yn llawn i ba raddau y gellid cynnal ailbrisiadau drwy ddefnyddio modelau prisio hedonig;
- Ymchwilio i'r potensial i gael gwell data a data mwy manwl gywir ar aelwydydd ac incwm a fydd yn ein helpu i ddeall effeithiau'n fanylach;
- Monitro effaith COVID-19 ac ymadael â'r UE ar sylfeini trethu lleol a threthdalwyr;
- Deall goblygiadau newidiadau mewn trethi a budd-daliadau eraill ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor;
- Cynnal dadansoddiad llawnach o'r gofynion deddfwriaethol a datganoli.

8. Diwygio Ardrethi Annomestig

Yn y bennod hon trafodwn y canlynol:

- Manteision a chyfyngiadau ardrethi annomestig
- Prisio ac apeliadau
- Cyfraddau treth a lleoliaeth
- Cynlluniau rhyddhad
- Diwygiadau posibl eraill
- Yr hyn a ddysgwyd gennym, gan gynnwys meysydd ar gyfer gwaith pellach.

Hyd yma yn y ddogfen hon, rydym wedi trafod dulliau amgen a fyddai'n newid radical o'r system bresennol o godi refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol. Mae'r bennod hon yn trafod sut y gellid gwella ardrethi annomestig pe bai llywodraethau yn y dyfodol yn dymuno cadw'r system sylfaenol fel treth eiddo, yn hytrach na symud tuag at un o'r dulliau amgen a drafodir yn y ddogfen hon.

Manteision a chyfyngiadau Ardrethi Annomestig

Mae gan y system bresennol lawer o fanteision y dylid tynnu sylw atynt a'u cadw o bosibl mewn trefniadau yn y dyfodol. Y system ardrethi annomestig:

- Mae ei chyfradd dreth yn un gyfrannol ac (ar y cyfan) mae'n ffrwd refeniw ddibynadwy sy'n parhau i godi lefelau da o refeniw yn naturiol ar gyfer gwasanaethau lleol;
- Mae'n gweithredu fel cronfa genedlaethol sy'n dosbarthu'r swm a godir ymhlith cynghorau er mwyn caniatáu ar gyfer yr amrywiant mawr yn y gallu i godi trethi, gan sicrhau tegwch cyffredinol;
- Mae'n gallu bod yn hyblyg er mwyn rhoi cymorth sylweddol i'r rhai sy'n llai abl i fodloni eu rhwymedigaethau, megis meddianwyr eiddo bach a rhai sectorau yn ystod cyfnodau economaidd anodd;
- Mae'n cryfhau cydberthnasau lleol rhwng cynghorau a chymunedau busnes, gan gynnal gwybodaeth leol o'r dirwedd fusnes a hwyluso'r ffordd i greu cysylltiadau â pholisïau economaidd ehangach cynghorau.

Yn debyg i'r dreth gyngor:

- mae hefyd yn dreth leol hynod effeithlon sy'n cyflawni cyfraddau casglu o fwy na 97% yn gyson o un flwyddyn i'r llall, gyda chostau gweinyddu isel (llai nag 1% o'r swm a godir);

- mae'n hirhoedlog ac yn fwy anodd i'w hosgoi na mathau eraill o dreth;
- mae'n un o swyddogaethau gweinyddol allweddol cynghorau, gan ddarparu swyddi o safon uchel yn y sector cyhoeddus ym mhob rhan o'r wlad.

Yn **Symud Cymru Ymlaen 2016-2021**, ymrwymwyd i leihau ardrethi annomestig i 70,000 o dalwyr ardrethi, gan gynnwys lleihau biliau i ddim ar gyfer hanner y talwyr ardrethi cymwys. Cyflawnwyd y nod hwnnw drwy roi Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach ar ddechrau tymor y Senedd hon a'i sefydlu fel cynllun parhaol o 1 Ebrill 2018, ochr yn ochr â chyflawniadau eraill a amlinellir ym Mhennod 2.



Ai treth ar eiddo ynteu treth ar fusnesau yw ardrethi annomestig?

Mae'r system drethu leol yn gweithredu ar sail hereditamentau sy'n cael eu diffinio'n rhai domestig neu annomestig. Codir ardrethi ar berchenogion neu feddianwyr *hereditamentau* annomestig, sef term ac iddo ystyr llawer ehangach nag adeilad brics a mortar traddodiadol. Mae'r rhestr brisio yn cynnwys hereditamentau megis seilwaith trafndiaeth a chyfleustodau mawr, e.e. meysydd awyr, rhwydweithiau telathrebu, seilwaith ar gyfer cyflenwi nwy, trydan a dŵr. Nid busnes yw pob talwr ardrethi ac yn sicr nid oes angen eiddo masnachol ar bob busnes i weithredu.

Felly, mae'r cwestiwn yn codi ai treth eiddo leol, ynteu treth ar fusnesau a ffordd o ysgogi twf economaidd yw ardrethi annomestig. Mae'r system bresennol yn cynnwys elfennau o'r naill a'r llall. Treth ar eiddo annomestig i ariannu gwasanaethau lleol yw ardrethi yn anad dim – cyfraniad mewn ardaloedd lleol yn yr un ffordd ag y mae'r dreth gyngor yn gyfraniad ar gyfer eiddo domestig: dyluniwyd y ddwy dreth i ategu ei gilydd yn lle'r ardrethi cyffredinol. Fodd bynnag, ni ellir anwybyddu'r ffaith bod biliau ardrethi yn gost allweddol i lawer o fusnesau a thalwyr ardrethi eraill, ochr yn ochr â chost rhent, cyfleustodau, cyfarpar, cydnabyddiaeth staff a stoc / deunyddiau crai ac ati (yn yr un modd ag y mae'r dreth gyngor yn gost allweddol i aelwydydd). Mae cymunedau busnes cynaliadwy yn diogelu ffyniant i bawb. Gall ceisio cydymffurfio â'r ddau gysyniad mewn ardrethi annomestig greu cymhlethdod ac achosi dryswch ynglŷn â'u diben.

Pam y mae'r system ardrethi annomestig yn gymhleth?

Mae'r cyfuniad o'r fethodoleg brisio a'r trefniadau rhyddhad ac esemptio helaeth yn gwneud y system yn gymhleth. Mae natur y sylfaen drethu annomestig – gwerthoedd a defnyddiau eiddo – yn llawer mwy amryfath na sylfaen drethu eiddo domestig. Mae ardrethi annomestig hefyd yn system gwerth arwahanol yn hytrach na system â bandiau fel y dreth gyngor, ac mae'n seiliedig ar werthoedd rhentu yn hytrach na gwerthoedd cyfalaf. Roedd cysyniadau creiddiol ardrethi yn bodoli ymhell cyn

cyflwyno'r fersiwn gyfredol o ardrethi annomestig yn 1990, sy'n dyddio'n ôl i'r ardrethi cyffredinol yn y 1960au a thu hwnt. Mae dulliau prisio wedi dod yn fwy manwl gywir (ac felly'n fwy cymhleth) dros amser, wrth i weithwyr proffesiynol ym maes ardrethi ymdrechu i gyfrif am gymhlethdodau amodau cymharol y farchnad ac ymaddasu i newidiadau. Mae pum ymarfer ailbrisio wedi cael eu cynnal ers llunio'r rhestr ardrethi wreiddiol yn 1990. Gweithredwyd rhestrau wedi'u diweddarau yn 1995, 2000, 2005, 2010 a 2017.

Mae ardrethi yn cynnwys rhai agweddau ar asesu nad ydynt yn ymwneud ag eiddo, megis asesiadau o dderbyniadau a gwariant neu unedau allbwn, er mwyn llunio'r gwerth ardrethol cyffredinol ac mae hwn yn amrywio yn ôl y sector. Mae gwerth asedau penodol hefyd yn cael ei ystyried, a elwir yn beiriannau a pheirianwaith, e.e. ffitiadau a gosodiadau. Ceir nifer o ddulliau mesur hefyd, megis parthau manwerthu, fformiwlâu ac arolygon. Mae angen defnyddio dulliau eraill lle nad oes fawr ddim tystiolaeth o rentu ar gyfer eiddo nad yw'n cael ei osod yn aml. Mae cannoedd o gategoriâu sectoraidd ac mae'r dull ardrethu ar gyfer y rhain yn golygu ymgysylltu ag arbenigwyr yn y diwydiant. Caiff dulliau a chysyniadau ardrethu eu herio'n amlach yn y llysoedd nag sy'n digwydd yn achos anheddau domestig, gan arwain at gryn dipyn o ymglyfreitha a chynseiliau cyfreithiol yn y system ardrethu.

Gellir ystyried bod y cymhlethdod hwn yn fanteisiol i'r system bresennol ac yn cyfyngu arni. Ar y naill law, mae'r manylder yn sicrhau dosbarthiad teg o'r atebolrwydd i dalu sy'n adlewyrchu amodau'r farchnad (ar yr amod y caiff ailbrisiadau eu cynnal yn rheolaidd). Mae'r proffesiwn prisio yn un hyfedr iawn yn dechnegol ac yn un sy'n fuddiol i gymdeithas ehangach. Ar y llaw arall, mae'r manylder hwn yn peri cymhlethdod, na all pobl leyg ei ddeall, gan arwain at nifer anghymesur o apeliadau a diwylliant o ymglyfreitha.

Yn y bennod hon, rydym yn ystyried rhai o'r syniadau ar gyfer diwygiadau i'r ardrethi annomestig rydym wedi dod ar eu traws. Daw'r rhain o [Adolygiad Barclay o Ardrethi Busnes](#) (2017) yn yr Alban, Panel Ardrethi Busnes (2015) Llywodraeth Cymru, [Ymchwiliad Lyons](#) (2007) ac amrywiol adolygiadau gan Lywodraeth y DU, [Business rates: delivering more frequent revaluations](#) a [Fundamental review of business rates](#). Nid oes fawr ddim tystiolaeth ddiweddar y gallwn ei defnyddio sy'n benodol i Gymru ynglŷn â'r manteision a'r anfanteision, felly bydd angen gwneud rhagor o ymchwil i rai o'r syniadau hyn yn y dyfodol agos.

Ailbrisio ac Apeliadau

Ailbrisiadau amlach

Caiff tegwch a chywirdeb ardrethi annomestig eu cynnal drwy ailbrisiadau o bryd i'w gilydd, sy'n ailddosbarthu'r baich treth yn seiliedig ar newidiadau cymharol yn amodau'r farchnad, a thrwy hynny'n sicrhau bod y sectorau a'r ardaloedd hynny sydd wedi tyfu'n fwy o gymharu ag eraill yn cyfrannu mwy. Ar hyn o bryd, mae ailbrisiadau yn digwydd bob pum mlynedd, gyda rhai wedi'u gohirio yn ystod y blynyddoedd

diwethaf am amrywiol resymau⁴. Daw rhestr ardrethi newydd i rym ddwy flynedd ar ôl y dyddiad dewisedig y mae'r ailbrisiadau yn ymwneud ag ef – y 'dyddiad prisio rhagflaenol'. Caiff yr ailbrisiad nesaf yng Nghymru ei roi ar waith ym mis Ebrill 2023 yn seiliedig ar ddyddiad prisio rhagflaenol o 1 Ebrill 2021.

Bu nifer o bobl yn galw am ailbrisiadau amlach a llai o fwlch rhwng y dyddiad prisio rhagflaenol a'r dyddiad y daw'r rhestr ardrethi newydd i rym. Mae'r rhai sy'n dadlau o blaid y syniad hwn yn awgrymu y byddai'n gwneud y system yn fwy ymatebol i amodau'r farchnad ac yn sicrhau bod biliau yn llai anwadal a bod ardrethi annomestig yn decach ac yn fwy derbyniol i dalwyr ardrethi. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad yn 2016 a oedd yn amlinellu dymuniad i symud tuag at ailbrisiadau bob tair blynedd yn Lloegr. Mae'r ystyriaeth hon bellach yn rhan o Adolygiad Sylfaenol Trysorlys EM o Ardrethi Busnes sy'n mynd rhagddo ac a ddaw i ben yn ystod hydref 2021. Mae Deddf Ardrethi Annomestig (yr Alban) 2020 yn darparu ar gyfer ailbrisiadau bob tair blynedd yn yr Alban yn dilyn argymhelliad gan Adolygiad Barclay. Ar hyn o bryd, bwriedir symud i ailbrisiadau bob tair blynedd o 2023.

Ar y sail bod rhai gwledydd yn cynnal prisiadau blynyddol ar gyfer trethi eiddo, edrychodd Ymchwiliad Lyons ar gynnal ailbrisiadau annomestig bob blwyddyn, gan awgrymu y byddai hyn yn fanteisiol yn economaidd drwy leihau'r baich treth ar rai busnesau yn ystod dirwasgiadau. Awgrymodd Lyons y gallai fod modd lleihau neu ddileu rhyddhad trosiannol, gan wneud ardrethi yn llai cymhleth. Daeth y [Sefydliad Astudiaethau Cyllid](#) yn 2017 hefyd i'r casgliad y gallai ailbrisiadau amlach fod yn ffordd well o lyfnhau newidiadau dros nos na chynlluniau rhyddhad trosiannol cymhleth. Fodd bynnag, amlinellodd Lyons yr anfanteision hefyd, megis costau uwch a llai o sefydlogrwydd i fusnesau oherwydd, o dan y system bresennol, gall talwyr ardrethi amcangyfrif eu biliau dros gyfnod o bum mlynedd. Gallai sectorau nad ydynt yn cael eu prisio ar sail dulliau gwerth rhenti fod o dan anfantais. Awgrymodd Lyons y dylai datblygiadau technolegol ei gwneud yn bosibl i gynnal prisiadau blynyddol ac, os nad oedd hynny'n bosibl, y gellid cyflwyno system o ailbrisiadau treigl â llaw ar gyfer rhannau o'r sylfaen drethu bob blwyddyn tra bod eraill yn cael eu huwchraddio drwy ddefnyddio dadansoddiadau ystadegol o'r newidiadau mewn prisiau ar y farchnad.

Mae rhanddeiliaid hefyd wedi galw am lai o amser rhwng y dyddiad prisio rhagflaenol a'r dyddiad y daw'r rhestr ardrethi i rym. Argymhellwyd hyn yn Adolygiad Barclay yn yr Alban a bwriedir y bydd dyddiad rhagflaenol o flwyddyn yn cael ei weithredu yno o 2023. Tybir bod hyn yn ddichonadwy oherwydd maint sylfaen drethu'r Alban. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio o'r farn bod dyddiad rhagflaenol o flwyddyn i Gymru a Lloegr yn peri cryn risg i gywirdeb am ei bod yn cymryd mwy o amser i brisio maint cyfunol y sylfeini trethu ac ni all gynnal rhestrau ardrethi ar wahân ar gyfer y naill wlad neu'r llall ar hyn o bryd. Pe bai amserlen fyrrach i gasglu tystiolaeth, ni fyddai modd cynnwys tystiolaeth allweddol ynglŷn â rhenti megis adnewyddu prydlesau ac adolygiadau rhent, sy'n golygu y byddai prisiadau yn seiliedig ar fwy o dybiaethau sy'n dibynnu ar wybodaeth arall am y farchnad.

⁴ Gohiriwyd y rhestr ardrethi y bwriadwyd ei rhoi ar waith ar 1 Ebrill 2015 tan 1 Ebrill 2017. Daw'r rhestr nesaf y bwriadwyd ei llunio yn 2021 i rym yn 2023 bellach oherwydd pandemig y coronafeirws.

Dulliau amgen

Er mwyn cynnal ailbrisiadau'n amlach, ceisiodd ymgynghoriad Llywodraeth y DU yn 2016 safbwyntiau ar ddulliau amgen, gan gynnwys hunanasesu a fformiwla. O ran hunanasesu, roedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd hyn mor ddichonadwy ar gyfer prisiadau ardrethi ag y mae ar gyfer trethi eraill yn y DU, ac y byddai'n arwain at gostau cynyddol i dalwyr ardrethi, a fyddai'n cael effaith anghymesur ar fusnesau bach a chanolig. Byddai hunanasesu yn trosglwyddo rôl prisio i dalwyr ardrethi a byddai Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn dod yn gorff cydymffurfiaeth. Nid oedd fawr ddim cefnogaeth ymhlith asiantau prisio i'r opsiwn o gyflwyno fformiwla, a nodwyd y byddai angen i'r fformiwla fod yr un mor gymhleth â phrisiadau traddodiadol ac felly y byddai'n annealladwy i dalwyr ardrethi. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau llywodraeth leol yn wahanol, a oedd yn ffafrio symlrwydd a sefydlogrwydd posibl. Yn gyffredinol, mynegwyd y farn y gallai dulliau amgen megis y rhain fod yn ddichonadwy ar gyfer prisio rhai rhannau o'r sylfaen drethu, er enghraifft, eiddo llai o faint sy'n debygol o gael rhyddhad rhag talu bil sut bynnag. Penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â bwrw ymlaen â dulliau amgen.

Mae ardrethu peiriannau a pheirianwaith yn elfen bwysig o waith prisio. Nid yw'r rhan fwyaf o beiriannau a pheirianwaith a ddefnyddir i redeg busnes yn cael eu cynnwys mewn gwerthoedd ardrethol, a dilyni'r egwyddor gyffredinol na ddylai offer crefft gael eu hardrethu. Pan fydd busnes yn buddsoddi mewn peirianwaith prosesu i weithgynhyrchu cynhyrchion, ni fydd yn talu ardrethi ar y peirianwaith hwnnw. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, gall peiriannau a pheirianwaith gael eu hardrethu, megis:

- lle maent yn darparu pŵer neu wasanaethau i'r hereditament;
- lle maent yn seilwaith, e.e. pibellau, gwifrau, ceblau a ffeibr; neu
- lle maent mor fawr maent yn debyg i adeilad neu strwythur o ran natur, e.e. tanciau mawr.

Mae'r broses o brisio peiriannau a pheirianwaith yn hynod gymhleth ac yn un o elfennau allweddol y fethodoleg brisio gyfredol. Mae rhai sectorau, er enghraifft ynni adnewyddadwy, wedi galw am adolygiadau o'r ffordd y caiff peiriannau a pheirianwaith eu cynnwys mewn gwerthoedd ardrethol. Mae heriau cyfreithiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith sylfaenol ar brisio yng Nghymru a Lloegr. Byddai adolygiad o ardrethu peiriannau a pheirianwaith yn dasg sylweddol a thechnegol ac iddi oblygiadau o ran y sylfaen drethu gyfan.

Diwygio trefniadau apelio

Mae gan dalwyr ardrethi yr hawl i apelio yn erbyn prisiad os credant ei fod yn anghywir ac mae hyn yn rhan annatod o'r system ardrethi annomestig. Mae'n bwysig bod talwyr ardrethi yn talu'r symiau cywir o ardrethi ac, os nad yw hynny'n digwydd, y caiff cywiriadau eu gwneud mor fuan â phosibl. Dylai pob talwr ardrethi ymddwyn mewn ffordd gyfrifol wrth ddefnyddio'r system apelio, am fod hap-apeliadau yn arafu'r broses ar gyfer apeladau dilys ac yn ychwanegu at gostau gweinyddu'r system, sy'n mynd ag adnoddau oddi wrth wasanaethau eraill.

Mae nifer yr apeliadau yn amrywio dros oes rhestr brisio ac maent yn aml yn codi tuag at ei diwedd. Mae newidiadau mewn polisi hefyd yn arwain at niferoedd mawr o apelwyr sy'n ceisio achub y blaen. Bu cynnydd mawr yn nifer yr heriau i'r rhestr brisio yn ystod pandemig COVID-19. Mae talwyr ardrethi yng Nghymru wedi cyflwyno 27,000 o heriau i restr brisio 2017 Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n cyfrif am 22% o'r sylfaen drethu. O'r rhai sydd wedi cael eu datrys hyd yma, mae tua 45% wedi arwain at newidiadau i'r rhestr. Gall talwyr ardrethi hefyd herio penderfyniad Asiantaeth y Swyddfa Brisio drwy gyflwyno her i Dribiwnlys Prisio Cymru. Mae apeliadau yn erbyn ardrethi annomestig yn cyfrif am y mwyafrif o lwyth gwaith Tribiwnlys Prisio Cymru, gyda mwyafrif helaeth o'r achosion yn cael eu setlo drwy gyd-drafodaeth rhwng talwyr ardrethi ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio cyn i'r tribiwnlys wneud penderfyniad ffurfiol. Mae'r weithdrefn hon yn un aneffeithiol sy'n defnyddio llawer o adnoddau yn achos nifer mawr o heriau.

Ni waeth a fydd unrhyw newidiadau yn y dyfodol i amllder prisiadau neu'r dull prisio ai peidio, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio dros y blynyddoedd diwethaf i ystyried gwelliannau i'r system apelio. Cynhaliwyd [ymgyngoriad](#) gennym yn 2017 a oedd yn ceisio barn ar gofrestru a ffioedd, darparu gwybodaeth, amserlenni ac ôl-ddyddio. Ar y cyfan, cydnabuwyd bod y system apelio yn gweithio'n eithaf da yng Nghymru a nodwyd rhai meysydd i'w gwella. Ond ar y pryd, roed llawer o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd y system Gwirio, Herio, Apelio a oedd yn cael ei chyflwyno yn Lloegr yn addas at y diben ac na ddylid ei rhoi ar waith yng Nghymru. Mae ein penderfyniad ers hynny i ohirio'r ailbrisiad nesaf tan 2023 yn golygu y cawn gyfle i edrych o'r newydd ar ofynion apeliadau.

Erys problemau o hyd yn y system. Mae talwyr ardrethi yn aml yn teimlo bod y wybodaeth a ddarperir am brisiadau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn rhy gyfyngedig, sy'n arwain at heriau. Nid yw talwyr ardrethi nac asiantau yn cyflwyno digon o wybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn ystod camau cychwynnol her er mwyn i'r her fynd rhagddi. Felly, yn aml, nid yw cyd-drafodaethau rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisio neu ei hasiantau yn dechrau o ddifrif nes y bydd apêl wedi'i rhestru ar gyfer gwrandawriad gan y tribiwnlys.

Cafodd y system Gwirio, Herio, Apelio ei beirniadu'n gyffredinol ar ei cham cychwynnol oherwydd problemau i'w rhoi ar waith a safbwyntiau ynglŷn ag amserlenni newydd, ffioedd, tystiolaeth a ganiateir a chulhau rôl tribiwnlysoedd ar y cam terfynol. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â chymorth ac arweiniad annigonol i dalwyr ardrethi heb gynrychiolaeth a oedd yn ei chael hi'n anodd mynd drwy'r system a bodloni'r gofynion o ran tystiolaeth, gan eu gorfodi i ddefnyddio asiantau'n amlach. Fodd bynnag, mae elfennau manteisiol yn perthyn i'r system Gwirio, Herio, Apelio ac mae cyfle i ystyried diwygiadau sydd wedi'u teilwra at anghenion Cymru ochr yn ochr â'r rhaglen ehangach hon o ddiwygiadau. Nod y system Gwirio, Herio, Apelio yw lleihau nifer yr hap-apeliadau drwy ofyn am fwy o wybodaeth a thystiolaeth ar gamau cynharach. Hefyd, darperir llwyfannau digidol newydd lle y gall talwyr ardrethi gofrestru a holi ynghylch gwybodaeth am eu heiddo. Gallai'r gwelliannau hyn gael eu gwneud i system apelio Cymru yn ystod tymor y Senedd nesaf.

Byddai angen gwneud rhai diwygiadau i'r system apelio pe cyflwynid prisiadau amlach ac mae hyn yn gofyn am ystyriaeth ofalus. Mae rhai rhanddeiliaid o'r farn na fyddai nifer yr apeliadau a gyflwynir bob blwyddyn yn lleihau pe cyflwynid ailbrisiadau amlach,

ac y byddai llai o amser o fewn pob cyfnod ailbrisio i ymdrin â'r un nifer o apeliadau. Gellid hefyd effeithio ar lwyth gwaith Tribiwnlys Prisiau Cymru.

Cyfraddau Treth a Lleoliaeth

Y lluosydd

Yng Nghymru, gosodir ardrethi annomestig gan Lywodraeth Cymru drwy un lluosydd cenedlaethol sy'n cael ei uwchraddio bob blwyddyn yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Mae'r swm a godir yn cyfrif am tua 13% o wariant gros llywodraeth leol ac mae wedi aros yn ddigyfnewid ers y 15 mlynedd diwethaf (mewn gwrthgyferbyniad â'r dreth gyngor sydd wedi tyfu fel canran o'r gwariant). Ond o safbwynt talwyr ardrethi, ar ddechrau'r 1990au roedd biliau ardrethi yn cyfateb i ryw draean o gost rhenti ac mae ardrethi bellach yn cyfateb i ychydig dros hanner y gost. Mae'r refeniw a godir yn hollbwysig o ran cynaliadwyedd gwasanaethau lleol, ond mae talwyr ardrethi yn dadlau bod baich ardrethi ymhlith yr holl filiau a delir gan fusnes yn rhy uchel. Mae hyn yn ysgogi dadl ynglŷn â dulliau eraill o bennu cyfraddau treth a defnyddir dulliau gwahanol iawn gan wledydd y DU.

Mae Tabl wyth yn nodi'r gwahaniaethau rhwng y polisiâu pennu cyfraddau. Pennir ardrethi annomestig yng Ngogledd Iwerddon mewn dwy ran; gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon a chan yr 11 o gynghorau dosbarth. Mae'r gyfradd gyffredinol yn is na'r cyfraddau yn y gwledydd eraill am nad oes gan gynghorau dosbarth yng Ngogledd Iwerddon yr un cyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau. Y pwynt mwyaf nodedig yw nad ydynt yn darparu gwasanaethau addysg na thai sy'n feysydd mawr o wariant cyhoeddus a ddarperir gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae system haenog o dair cyfradd wahanol yn yr Alban ac mae lluosyddion ar wahân ar gyfer busnesau bach a mawr yn Lloegr.

Tabl wyth: Lluosyddion (neu 'bunt daliadau') ardrethi annomestig yn 2020-21

	Polisi	Punt daliadau 2020-21	A bennir gan
Cymru	Cyfradd genedlaethol unffurf	53.5c	Llywodraeth Cymru
Gogledd Iwerddon	Cyfradd ranbarthol	27.9c	Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon
	Cyfraddau dosbarth	Yn amrywio o 21.8c i 30.9c	Cynghorau Dosbarth
Yr Alban	Cyfradd sylfaenol (gwerth ardrethol <£51,000)	49.8c	Llywodraeth yr Alban
	Cyfradd ganolraddol (gwerth ardrethol £51,000 - £95,000)	50.3c	

	Polisi	Punt daliadau 2020-21	A bennir gan
	Cyfradd uwch (gwerth ardrethol <£95,000)	51.6c	
Lloegr	Busnesau bach (gwerth ardrethol <£51,000)	49.9c	Llywodraeth y DU
	Pob busnes arall	51.2c	

Rydym wedi cyflwyno nifer o newidiadau polisi yn ystod tymor y Senedd hon i leihau'r costau i dalwyr ardrethi yng Nghymru. Roedd y lluosydd am flynyddoedd lawer yn cynyddu yn unol â mesur chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu. Ers 2018-19, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r lluosydd yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr sy'n fesur is. Hefyd, cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 y bydd y lluosydd ar gyfer 2021-22 yn cael ei rewi, sy'n golygu na fydd cynnydd oherwydd chwyddiant i dalwyr ardrethi yn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn cefnogi'r adferiad economaidd yn sgil COVID-19. O ganlyniad i newid y mesur chwyddiantol i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr a rhewi'r lluosydd yn 2021-22, bydd talwyr ardrethi yng Nghymru yn arbed dros £90 miliwn ar eu biliau ardrethi ers 2018-19. Mae'r penderfyniadau polisi hyn, yn anochel, yn arwain at gostau ychwanegol sylweddol i bwrs y wlad ac felly maent yn tueddu i fod yn benderfyniadau yn y byrdymor sy'n seiliedig ar hyblygrwydd cyllidol mewn unrhyw flwyddyn benodol. Mae'n werth ystyried opsiynau ar gyfer pennu cyfraddau treth ochr yn ochr â diwygiadau eraill i ardrethi annomestig. Mae'r opsiynau yn cynnwys:

- Lluosyddion haenog ar gyfer meintiau gwahanol eiddo (bach a mawr; neu fach, canolig a mawr);
- Cyfradd rannol-genedlaethol gyda phwerau i lywodraeth leol bennu symiau atodol lleol neu ranbarthol ychwanegol;
- Lleoleiddio'r broses o bennu cyfraddau treth i brif gynghorau neu strwythurau llywodraeth leol ranbarthol, e.e. cyd-bwyllgorau corfforedig.

Mae ychwanegu lluosyddion haenog yn gwneud y system yn fwy cymhleth a gall fod yn fwy anodd i dalwyr ardrethi ei deall. Fodd bynnag, mae hefyd yn rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru deilwra'r polisi ar ardrethi annomestig at anghenion Cymru. Gallai cyfraddau haenog symud y system i gyfeiriad mwy graddoledig yn hytrach na chyfrannol. Gallai rhywfaint o'r refeniw a godir, neu'r holl refeniw, gael ei ddefnyddio i wrthbwysu cost cymorth i fusnesau bach neu sectorau penodol. Mae'r sylfaen drethu yng Nghymru yn aml yn cael ei chymharu ag un Lloegr ac mae llai o eiddo (yn gyfrannol) â gwerthoedd ardrethol mawr yng Nghymru, sy'n golygu bod busnesau mawr yn debygol o wynebu atebolrwydd anghymesur i dalu trethi. Byddai angen i'r refeniw ychwanegol a godir gyfiawnhau'r gwaith gweinyddol ychwanegol.

Creodd y system ardrethi annomestig a sefydlwyd yn 1990 y gyfradd genedlaethol unffurf ond o dan y system ragflaenol, sef ardrethi cyffredinol, roedd y rhain yn cael eu pennu'n lleol. Mae cynseiliau eraill dros bennu trethi ar lefel leol neu ranbarthol yng Nghymru o ystyried bod cyfrifoldebau ar gynghorau a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau i bennu cyfraddau'r dreth gyngor bob blwyddyn. Gwrthododd Lyons (2007) y syniad o ddychwelyd yn llawn i reolaeth leol ac, yn lle hynny, cynigiodd y dylid rhoi'r

pŵer i gynghorau godi treth atodol leol, mewn ymgynghoriad â busnesau. Gallai'r pŵer i bennu cyfraddau lleol yn rhannol neu'n llawn gryfhau cydberthnasau lleol â chymunedau busnes a gwneud y system yng Nghymru yn fwy penodol i Gymru, gan leihau'r cymariaethau â gwledydd cyfagos sydd â sylfeini trethu tra gwahanol. Gallai llywodraethau yn y dyfodol ystyried ar y cyd â llywodraeth leol a oes awydd am fwy o ymreolaeth yn y system, ac a allai polisi o'r fath weithio ar ei ben ei hun neu a fyddai angen ei ymgorffori mewn mwy o ddatganoli, megis mwy o ddisgresiwn o ran cynlluniau rhyddhad a chadw refeniw yn lleol. Mae'n bwysig nodi nad yw pennu cyfraddau lleol yr un peth â chadw refeniw lleol.

Cyfuno refeniw yn erbyn ei gadw yn lleol

Oherwydd yr amrywiad yn y gallu i godi refeniw rhwng y 22 o gynghorau yng Nghymru, caiff y symiau a godir drwy ardrethi annomestig eu cyfuno a'u dosbarthu ar sail poblogaeth, fel rhan o'r setliadau llywodraeth leol blynyddol. Mewn gwrthgyferbyniad, caiff y symiau a godir drwy'r dreth gyngor eu pennu a'u cadw'n lleol ac mae'r rhain yn cael eu hystyried wrth ddosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw⁵. Mae cadw refeniw yn lleol yn cyfeirio at ddiddymu'r trefniadau cyfuno a chaniatáu i gynghorau lleol gadw'r symiau a gesglir yn eu hardal. Mae gwahanol adolygiadau wedi galw am gadw refeniw yn lleol er mwyn cryfhau atebolrwydd lleol a rhoi cymhelliant i gynghorau dyfu eu refeniw a'u sylfeini trethu.

Gan fod cyfraddau casglu o tua 97-98% eisoes, ychydig o fudd a fyddai'n deillio o ymgais i sicrhau bod y refeniw mwyaf posibl yn cael ei gasglu o'r sylfaen drethu bresennol, ond efallai y byddai'n rhoi cymhelliant i gynghorau gynnal rhestr ardrethi lleol yn fwy gweithredol, er enghraifft drwy sicrhau bod eiddo newydd neu estynedig yn cael ei ardrethu'n gywir, a thrwy fuddsoddi mwy o amser yn y gwaith o ymchwilio i dwyll a gwallau. Fodd bynnag, y prif nod yw tyfu maint sylfeini trethu yn y dyfodol drwy ysgogi economaidd a fydd wedyn yn arwain at fwy o gyllid ar gyfer gwasanaethau lleol. Gellid dadlau bod digon o gymhellion i lywodraeth leol wneud hynny eisoes, gan gynnwys sicrhau mwy o ffyniant yn lleol, llunio lleoedd drwy strategaethau tir ac eiddo, gwasanaethu cymunedau llewyrchus a thyfu ffynonellau o refeniw trethi sy'n bodoli eisoes. Mae polisiâu cenedlaethol a pholisiâu ar lefel y DU yn ogystal â thueddiadau byd-eang hefyd yn effeithio ar allu cynghorau lleol i ysgogi'r economi. Serch hynny, os ystyrir y byddai ymreolaeth fwy uniongyrchol a chymhellion ar gyfer ardrethi annomestig yn fuddiol, mae sawl dewis o ran polisi gan gynnwys:

- Caniatáu i refeniw gael ei gadw'n lleol ond addasu'r Grant Cynnal Refeniw yn unol â hynny er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn deg;
- Caniatáu i refeniw lleol gael ei gadw'n llawn a pheidio ag addasu'r Grant Cynnal Refeniw, sy'n golygu newidiadau mawr mewn gwariant cyhoeddus rhwng ardaloedd;
- Caniatáu i refeniw gael ei gadw'n rhannol drwy system o gymhellion ymylol.


Gallai'r dewisiadau hyn gael eu gwneud ar sail daearyddiaeth cyngor neu ranbarth. Mae'r gallu i gadw refeniw yn lleol ac addasu'r Grant Cynnal Refeniw yn newid

⁵Mae'r Grant Cynnal Refeniw yn ystyried swm tybiannol a godir drwy'r dreth gyngor ar gyfer pob ardal yn seiliedig ar y data diweddaraf ar y sylfaen drethu a chyfradd dreth gyfartalog.

gweinyddol ar y cyfan, sy'n rhoi rhyw lefel o ymreolaeth leol newydd dros ardrethi annomestig, ond byddai'r cymhellion uniongyrchol i greu twf yn wannach o dan yr opsiwn hwn. Byddai cymhellion yn cael mwy o effaith o dan y ddau opsiwn arall, gydag effaith mwy sylweddol ar degwch. Efallai y byddai gallu rhai rhannau o Gymru i ddenu gweithgarwch busnes newydd yn lleihau oherwydd ffactorau daearyddol ac economaidd, ni waeth pa gymhellion sy'n cael eu hymgorffori yn y system. Byddai angen cryn dipyn o ddeddfwriaeth newydd ar gyfer pob un o'r syniadau.

Nid oedd cadw'r holl ardrethi yn uchelgais bolisi i'r Senedd hon oherwydd cynigion ehangach i ddiwygio llywodraeth leol a'r effeithiau sylweddol y byddai hyn yn eu cael ar rai cynghorau yng Nghymru. Mae cadw ardrethi yn golygu mwy o risg ariannol i ardaloedd lleol yn sgil cau busnesau mawr ac apeliadau. Ar hyn o bryd, mae'r risgiau hyn yn cael eu cyfuno a'u hysgwyddo ar lefel genedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau Cymru yn rhy fach i reoli risg o'r fath, yn enwedig y rhai lle mae swm mawr o'r gwerth ardrethol wedi'i grynhoi mewn nifer bach iawn o eiddo. Mae Ffigur deg yn dangos yr amrywiad mewn cyfraniadau a delir i mewn i'r gronfa gan bob cyngor yn 2019-20, gyda Chaerdydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf o bell ffordd. Ar hyn o bryd, dim ond i bedwar o'r 22 o gynghorau y byddai'n fanteisiol cadw'r ardrethi llawn. Hyd yn oed ar gyfer y pedwar cyngor hyn, byddai llwyddiant yn dibynnu ar eu gallu i gynyddu eu twf o flwyddyn i flwyddyn.

Ffigur deg: Cyfraniadau Ardrethi Annomestig i'r gronfa genedlaethol gan bob cyngor 2019-20



Bu sawl ymgais wahanol i gadw ardrethi mewn rhannau eraill o'r DU. Dechreuodd Llywodraeth y DU roi proses ar waith o gadw ardrethi lleol yn Lloegr yn 2013-14, gan ddechrau drwy gadw 50% gyda'r nod o gyrraedd 100% erbyn 2020. Mae'r amserlen hon wedi cael ei hestyn ers hynny, gyda chynghorau yn cymryd rhan mewn cynlluniau peilot i gadw 75% o ardrethi. Bu'r dull gweithredu yn rhan o newidiadau ehangach i gyllid llywodraeth leol a oedd yn cynnwys lleihau'r Grant Cynnal Refeniw i bron ddim. Mae'r system yn Lloegr yn dal i gynnwys rhywfaint o aiddosbarthu er mwyn llyfnhau'r amrywiadau mawr yn y gallu i godi refeniw. Cyflwynir hyn drwy system gymhleth o

dariffau, symiau ychwanegol a rhwydi diogelwch sydd wedi'i gwneud yn fwy cymhleth ac yn llai tryloyw. Er mwyn gwrthbwysu'r risgiau lleol o anwadalrwydd, gall cynghorau ddod ynghyd i gyfuno eu refeniw a godir drwy ardrethi.

Mae'r Alban wedi gweithredu Cynllun Cymell Ardrethi Busnes ar raddfa lai ers 2012 fel rhan o'i setliad cyllid llywodraeth leol blynyddol. Y nod yw rhoi cymhelliant i gynghorau gasglu'r swm uchaf posibl a thyfu sylfeini trethu. Yn wreiddiol, roedd y cynllun yn seiliedig ar dargedau cenedlaethol, lle roedd cynghorau a oedd yn rhagori ar y targedau hyn yn gallu cadw 50% o'r refeniw ychwanegol o'r ardrethi, gyda'r 50% arall yn cael ei dalu i mewn i'r gronfa genedlaethol. Fodd bynnag, effeithiwyd ar y broses o bennu targedau gan apeliadau hwyr a 'digwyddiadau arwyddocaol' ysgytwol i'r sylfaen drethu. Ataliwyd y cynllun dros dro am gyfnod byr tra bod ymchwiliad yn cael ei gynnal. Yn 2014, rhoddwyd cynllun diwygiedig ar waith a oedd yn cynnwys targedau unigol i gynghorau a oedd yn fwy seiliedig ar eu gallu i ddylanwadu ar dwf, yn hytrach na ffactorau y tu allan i reolaeth leol. Llywodraeth yr Alban sy'n cadw'r risg o fethiant cynghorau i gyflawni amcangyfrifon o incwm, drwy warantu 'isafswm dosbarthadwy' ac ychwanegu ato o grant cyffredinol ychwanegol yn ôl yr angen. Ar gyfartaledd, mae ychydig dros chwarter y cynghorau yn rhagori ar y targed o ran twf ac yn cadw rhywfaint o'r refeniw a godir drwy ardrethi. Y swm mwyaf y mae cyngor unigol wedi'i gadw mewn blwyddyn benodol yw £3.4 miliwn, gan Ddinas Aberdeen yn 2015-16.

Argymhellodd y [Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol Cymru](#) y dylai cynghorau gadw ardrethi annomestig yn llawn, ac yn y flwyddyn weithredu, y dylid rhoi trefniadau cyfuno neu addasu'r Grant Cynnal Refeniw ar waith er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw gyngor ar ei ennill nac ar ei golled yn ariannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Argymhellodd hefyd y dylid caniatáu i ranbarthau gyfuno refeniw er mwyn llyfnhau amrywiadau lleol a rhoi pŵer iddynt ychwanegu cyfradd atodol er mwyn helpu i dalu am brosiectau cyfalaf mawr. Dylai unrhyw gyngor lle mae ei adnoddau yn crebachu'n gyflym ar unrhyw adeg benodol gael cymorth drwy grantiau dros dro gan Lywodraeth Cymru y tu allan i'r system hon. Cyflwynwyd y set hon o argymhellion fel ffordd o gynyddu rheolaeth leol dros refeniw. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y mesurau sydd eu hangen i liniaru risgiau yn fwy sylweddol ac yn fwy cymhleth na'r trefniant cyfuno sydd eisoes ar waith.

Ystyriwyd y cynnig i gadw ardrethi'n lleol hefyd gan [Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025](#) yn 2018, yng nghyd-destun datblygiad partneriaethau twf rhanbarthol. Ystyriodd fodel cymell enillion a rennir yn rhanbarthol, ond mae'n cydnabod bod angen cyfaddawdu o ran aildosbarthu ac a ellir cyfiawnhau anghydraddoldeb rhwng rhanbarthau. Amlinellodd nifer o fodelau ymarferol ar gyfer cadw ardrethi'n rhanbarthol, ond cytunodd mai cyfyngedig oedd y dystiolaeth o dwf mewn gwledydd eraill o ganlyniad i fodelau cadw ardrethi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ystyried rhyw fath o drefniant o gadw ardrethi'n rhannol ar lefel ranbarthol mewn cysylltiad â datblygiadau Bargeinion Dinas a Thwf lle y gellir dangos bod camau gweithredu'r rhanbarthau wedi arwain at dwf ychwanegol yn sylfaen drethu ardrethi annomestig. Rydym wedi gwahodd y rhanbarthau i gyflwyno cynigion.

Cynlluniau rhyddhad



Un elfen bwysig o unrhyw system dreth yw'r gallu i lywodraethau canolog neu leol helpu rhai trethdalwyr gyda'u hatebolrwydd i dalu am amrywiol resymau, naill ai dros dro neu'n barhaol. Mae'n rhaid i'r penderfyniadau hyn gael eu cydbwyso'n ofalus rhwng ymateb i amgylchiadau penodol a chynnal cyllid hollbwysig ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Mae tabl naw yn manylu ar nifer o gynlluniau rhyddhad sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer ardrethi annomestig. Mae'r holl gynlluniau statudol yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Tabl naw: cynlluniau rhyddhad presennol ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru, 2020-21

Cynllun	Nodweddion	Nifer yr eiddo	Gwerth yn 2020-21
Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach	Mae eiddo sydd â gwerth ardrethol o hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100%. Rhyddhad wedi'i dapro ar gyfer gwerthoedd ardrethol rhwng £6,001 a £12,000. Ar hyn o bryd, mae rhyddhad mwy hael i ddarparwyr gofal plant a swyddfeydd post.	65,000	£129m
Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch	Cymorth estynedig oherwydd COVID-19 yn 2020-21: mae pob eiddo yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol o hyd at £500,000 yn cael rhyddhad o 100%.	25,000	Cymorth estynedig oherwydd COVID-19 yn 2020-21 hyd at £350m

Cynllun	Nodweddion	Nifer yr eiddo	Gwerth yn 2020-21
	Cynllun blaenorol yn 2019-20: Wedi darparu hyd at £2,500 o ryddhad ar gyfer biliau ardrethi ar gyfer pob manwerthwr a gwerth ardrethol o hyd at £50,000.	15,000	£23.6m yn flaenorol yn 2019-20
Rhyddhad dewisol lleol	Gall cynghorau hefyd ddarparu hyd at 100% o ryddhad i dalwyr ardrethi yn ôl eu disgrisiwn am y rhesymau canlynol: • Caledi • Eiddo a feddiennir yn rhannol • Cyrff nid er elw (heblaw elusennau cofrestredig a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol).	600	£8m
Rhyddhad Elusennol	Mae elusennau cofrestredig a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol yn gymwys i gael rhyddhad gorfodol o 80%. Gellir rhoi rhyddhad arall o 20% yn ôl disgrisiwn cynghorau. Gall cyrff nid er elw eraill hefyd fod yn gymwys i gael rhyddhad o hyd at 100% yn ôl disgrisiwn y cyngor.	6,000	£68m
Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag	Rhyddhad o 100% am gyfnod o 3 mis neu 6 mis (ar gyfer safleoedd diwydiannol) pan fydd eiddo yn mynd yn wag.	Anhysbys	£30m
Cynllun Grant ar gyfer Ynni Dŵr	Gall prosiectau ynni dŵr sydd â gwerth ardrethol o hyd at £50,000 wneud cais am gymorth tuag at eu hatebolrwydd i dalu ardrethi.	59	£403,000

Er bod rhyddhadau yn werthfawr i dalwyr ardrethi ac weithiau'n hanfodol i oroesi yn ystod cyfnodau heriol, mae'r trefniadau yn arwain at gryn gymhlethdod, gwaith gweinyddu a chostau ychwanegol, ac yn gwneud y system yn llai dealladwy i dalwyr ardrethi. Mae hefyd yn dileu cryn dipyn o'r gallu i godi refeniw ar gyfer cyfnodau mwy economaidd ffafriol yn y dyfodol. Drwy roi rhyddhad o 100% mae hynny hefyd yn creu pellter rhwng busnesau a thalwyr ardrethi eraill a'r system drethu leol yn gyfan gwbl. Mae'r gallu i dargedu rhyddhad tuag at y derbynyddion a ddymunir yn dibynnu'n fawr ar y wybodaeth a ddelir am dalwyr ardrethi ac eiddo gan gynghorau ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gynlluniau gael eu cymhwyso'n ddiamwahan yn aml a'u bod yn llai penodol nag y byddem fel arall yn ei ddymuno. Yn yr adran hon, rydym yn ystyried a ellid gwella'r system drwy ymdrin â rhyddhadau mewn ffordd wahanol.

Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar ardrethi annomestig?

Mae'r pandemig yn parhau i gael effaith negyddol ar lawer o fusnesau a thalwyr ardrethi ledled Cymru. Erbyn mis Rhagfyr 2020, amcangyfrifwyd bod y gyfradd casglu ardrethi 7% yn is nag ydoedd ar yr un adeg o'r flwyddyn mewn blynyddoedd ariannol blaenorol, a hynny oherwydd cyfuniad o gytundebau i ohirio taliadau, i beidio â gwneud taliadau ac am fod rhai busnesau, yn anffodus, wedi mynd i'r wal. Bydd cyfanswm y golled yn dibynnu ar weithgarwch casglu yn yr ychydig fisoedd olaf o'r flwyddyn ariannol ac unrhyw benderfyniadau i barhau i gymryd camau adfer yn y dyfodol. Yn ystod tri mis cyntaf y pandemig, gwelodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio nifer mawr o apeliadau newydd yn erbyn y rhestr brisio wrth i dalwyr ardrethi geisio herio effaith y cyfyngiadau symud cyntaf ar werthoedd ardrethol. Bydd unrhyw apeliadau llwyddiannus yn arwain at golli refeniw yn barhaol.

Mae effeithiau COVID-19 yn y tymor canolig a'r tymor hwy yn debygol o arwain at ragor o fusnesau yn cau ac eiddo gwag. Mae Llywodraeth Cymru wedi lliniaru hyn hyd y gellir drwy gynnig y pecyn mwyaf hael o gymorth i fusnesau yn y DU. Ar wahân i'r rhyddhad newydd ar gyfer ardrethi, crëwyd cynlluniau busnes grant nad ydynt yn rhan o'r system ardrethi annomestig ond sy'n gysylltiedig a gwerthoedd ardrethol ac sy'n cael eu gweinyddu gan gynghorau lleol sy'n meddu ar wybodaeth am sylfeini trethu lleol. Oherwydd yr arbenigedd lleol a geir ledled Cymru ym mhob cyngor, roeddem yn gallu gweinyddu'r cymorth brys hwn yn gyflym ac yn effeithlon. Hyd yma, rhoddwyd 153,000 o grantiau gwerth £1.2 biliwn i fusnesau.

Ymchwil Arolwg Omnibws Busnes Cymru

Yn gynharach eleni, cyhoeddwyd canfyddiadau cwestiynau arolwg a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru drwy Arolwg Omnibws Beaufort Research o BBaChau. Gellir gweld yr ymchwil [yma](#). Ystyriodd ymwybyddiaeth o'r cynlluniau rhyddhad ardrethi a chanfyddiadau yn eu cylch a gwahanol nodweddion busnesau sy'n cael rhyddhad. Canfu'r astudiaeth fod ymwybyddiaeth o'r cynlluniau rhyddhad yn isel ymhlith BBaChau. Nid oedd dros draean o'r busnesau a arolygwyd (36%) wedi clywed am unrhyw un o'r cynlluniau sydd ar gael yng Nghymru. Y cynllun mwyaf adnabyddus oedd y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach (58% yn ymwybodol ohono), yna'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer y Stryd Fawr (26%) a'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Trosiannol (9%). Roedd y gyfran a oedd yn cael rhyddhad yn uwch ymhlith busnesau â llai na 10 cyflogai, y rhai a oedd yn rhentu eu heiddo; a'r rhai â throsiant llai o faint.

Teimlwyd bod Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yn bwysig ac yn effeithiol o ran amrywiol agweddau ar fasnachu mewn nifer o weithgareddau busnes. Y sectorau â'r gyfran uchaf o ymatebwyr a oedd yn cael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach oedd 'cyfanwerthu neu fanwerthu' a 'gwasanaethau gwesty a gwasanaethau eraill'.

Roedd y canfyddiadau yn datgelu bod y rhan fwyaf o'r busnesau a arolygwyd o blaid y cynlluniau rhyddhad ardrethi, yn enwedig er mwyn sicrhau bod busnesau mewn cymunedau difreintiedig a gwledig yn goroesi. Er mai canfyddiadau rhagarweiniol ydynt, oherwydd maint y samplau a natur y fethodoleg, maent wedi ein helpu i asesu effeithiolrwydd rhyddhad ardrethi ac wedi cynnig rhai meysydd ar gyfer rhagor o ymchwil fanwl.

Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach

Mae Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yn gynllun hirsefydledig sy'n cefnogi tua 65,000 o feddianwyr eiddo annomestig bach, neu 53% o'r sylfaen drethu gyfan, ar hyn o bryd. Mae'n fuddsoddiad sylweddol o arian cyhoeddus i helpu busnesau bach i ffynnu mewn economïau lleol. Gwnaethom ymgynghori a chyflwyno cynllun parhaol gwell yn 2018, gan ychwanegu nodweddion er mwyn sicrhau mwy o degwch. Un o'r nodweddion manteisiol a ychwanegwyd oedd cyfyngu nifer yr eiddo sy'n gymwys i gael rhyddhad i ddau fesul busnes ym mhob ardal cyngor, gan atal busnesau mwy o faint a chadwyni cenedlaethol rhag cael budd o gynllun sydd â'r nod o gefnogi busnesau bach. Gwnaeth hyn ddatgloi refeniw a oedd yn ei gwneud yn bosibl i gyflwyno gwelliannau eraill:

- Rhyddhad ychwanegol ar gyfer safleoedd gofal plant i gefnogi ein hymrwymiad pwysig i gynnig 30 awr o ofal plant am ddim i rieni o oedran gweithio a phlant tair a phedair oed;
- Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer prosiectau ynni cymunedol;
- Estyniad i'r cynllun rhyddhad ardrethi ar gyfer y stryd fawr;
- Cyllid ychwanegol i gynghorau roi rhyddhad dewisol i fusnesau lleol a thalwyr ardrethi eraill, a fyddai'n cael budd o gymorth a bennir yn lleol.

Wrth inni werthuso llwyddiant y cynllun diwygiedig, rydym yn parhau i ystyried syniadau sy'n gofyn am gyfnod paratoi hwy i'w datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys targedu ein buddsoddiad mewn rhyddhad yn well i gefnogi blaenoriaethau sy'n cydfynd ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru.

Bydd ein gallu yn y dyfodol i dargedu rhyddhad ardrethi at flaenoriaethau ehangach yn dibynnu ar y wybodaeth am fusnesau a ddelir gan gynghorau fel gweinyddwyr a chan Lywodraeth Cymru fel y sawl sy'n llunio polisiau. Mae'n rhaid inni hefyd ystyried gwelliannau posibl yn y dyfodol yng nghyd-destun creu mwy o gymhlethdod i dalwyr ardrethi ac i gynghorau sy'n gweinyddu rhyddhad.

Y stryd fawr, manwerthu a hamdden

Mae'n dra hysbys bod y sector manwerthu yn wynebu heriau o ganlyniad i nifer o ffactorau hyd yn oed cyn y pandemig: Newidiadau mewn tueddiadau ymhlith defnyddwyr i siopa ar-lein, gwasgu ar incwm gwario pobl, costau cynyddol, mwy o

amrywiaeth a chystadleuaeth. Er bod llawer o'r rhain yn dueddiadau economaidd bydeang, rydym yn ymrwymedig i wneud popeth o fewn ein gallu yng Nghymru i helpu cymunedau lleol i gadw eu hunaniaeth a'r cyfleusterau y mae pobl yn eu dymuno. Mae hyn yn ysgogi ffyniant, yn mynd i'r afael a thlodi ac yn lleihau anghydraddoldeb.

Mae rhai yn dadlau nad yw ardrethi annomestig wedi ymaddasu i'r defnydd o eiddo annomestig sy'n newid o ganlyniad i dueddiadau defnyddwyr i ddefnyddio gwasanaethau manwerthu a gwasanaethau eraill ar-lein. Mae'r galw is am adeiladau brics a mortar at ddibenion traddodiadol y stryd fawr wedi arwain at sawl un yn galw am drethu gweithgarwch ar-lein. Mae hwn yn fater heriol i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef ar ei phen ei hun yn ein system dreth ac yn enwedig o ran ardrethi annomestig. Ar hyn o bryd, nid oes modd cyflwyno treth gwerthiannau ar-lein oherwydd cyfyngiadau cyfansoddiadol. Efallai y bydd modd adolygu'r fethodoleg brisio i gynnwys mwy o ddangosyddion nad ydynt ymwneud ag eiddo mewn gwerthoedd ardrethol, ond byddai hyn yn newid sylfaenol a fyddai'n effeithio ar bob sector. Fodd bynnag, dylid nodi bod y sail leol ffisegol dros drethiant yn nodwedd fwriadol o'r system ardrethi annomestig (a'r dreth gyngor wrth gwrs). Caiff trethi eraill, a godir at ddibenion gwahanol, eu codi ar incwm ac elw busnesau.

Mae'r lefel bresennol o gymorth gennym ar ffurf rhyddhad ardrethi i'r sector manwerthu a sectorau eraill yng Nghymru dipyn yn fwy na'r hyn a ddarparwyd cyn COVID-19, oherwydd gwariant ychwanegol ar sail y DU gyfan a'r hyblygrwydd ychwanegol a roddir inni yn ein cyllideb ein hunain. Rydym wedi mynd ymhellach drwy ehangu cymhwysedd a chynnig y pecyn mwyaf hael o gymorth ariannol mewn unrhyw ran o'r DU. Mae ein Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yn darparu £350 miliwn ar gyfer 25,000 o drethdalwyr yn y sectorau hynny. Cyn y pandemig, roedd Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer y Stryd Fawr yn darparu £24 miliwn ar gyfer 15,000 o dalwyr ardrethi. Mae dewis heriol o ran lefelau cymorth i'r sectorau hyn yn y dyfodol ac ar ba ffurf. Mae hyn yn dibynnu ar ddarpariaeth gyllidebol a bydd angen iddo cael ei lywio gan nodau strategol ehangach, megis adfer ar ôl COVID-19 a gwella canol trefi. Mae ein menter Trawsnewid Trefi yn cydnabod bod y stryd fawr a chanol trefi yn datblygu i ddiwallu gwahanol anghenion, gyda'r angen am drawsnewid yn cael ei ddwysáu gan y pandemig. Mae ysgogwyr polisi ac ariannol eraill y gall Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol eu defnyddio i gynnal ffyniant, gan gydnabod y stryd fawr fel ffynonellau o hunaniaeth a llesiant. Daw pwysigrwydd llunio lleoedd a fathwyd gan Lyons yn 2007 yn fwy amlwg.

Rhyddhad elusennol

Mae elusennau, sefydliadau nid er elw a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi gorfodol o 80% ac mae rhyddhad o 20% arall ar gael yn ôl disgresiwn lleol cynghorau (yr ariennir rhan ohono gan Lywodraeth Cymru hefyd). Mae'n rhaid i'r eiddo gael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben elusennol. Mae cymorth ariannol i'r sector elusennol yng Nghymru yn dal i fod yn bwysig, ond mae mwy o amrywiaeth yn y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y sector, gyda rhai sefydliadau mwy o faint yn meddiannu cyfran eithaf mawr o arwynebedd manwerthu. Mae materion yn codi o ran twyll ac osgoi trethi hefyd, a drafodir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon. Rydym wedi ymgynghori ar effeithiolrwydd y rhyddhad hwn yn 2013 a 2018. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi newid rhyddhad ardrethi i elusennau yn ystod tymor y Senedd hon, ond bydd yn elfen

o unrhyw system ddiwygiedig yn y dyfodol. Mae'r syniadau ar gyfer newidiadau yn y dyfodol yn cynnwys:

- Cynyddu neu leihau'r swm o ryddhad gorfodol a dewisol;
- Gwneud rhyddhad yn gwbl orfodol neu'n gwbl ddewisol;
- Cael cysylltiad mwy uniongyrchol rhwng cymhwysedd a statws elusen gofrestredig. Fodd bynnag, nid yw cofrestru yn swyddogaeth ddatganoledig ac mae rhai ymarferwyr ym maes ardrethi o'r farn ei bod yn gymharol hawdd sicrhau statws elusennol. Nid yw statws elusen gofrestredig yn golygu bod yr eiddo yn cael ei ddefnyddio at ddiben elusennol o reidrwydd;
- Ei gwneud yn ofynnol i dalwyr ardrethi gyflwyno rhyw fath o dystiolaeth bod y defnydd o'r eiddo yn cyd-fynd â diben elusennol y sefydliad.

Ystyriodd Adolygiad Barclay yn yr Alban a yw'n briodol i ddarparwyr gwasanaethau tebyg yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, megis ysgolion ac ysbytai, gael eu trin yn wahanol mewn perthynas â rhyddhad ardrethi. Yn 2019 [ymgynghorwyd](#) gennym ar y mater hwn er mwyn canfod a oedd posibilrwydd o gystadleuaeth annheg, ac a ddylai darparwyr yn y sector preifat sy'n elusennau fod ag atebolrwydd i dalu ardrethi, gan sicrhau eu bod yn cael eu trin yr un fath â'r rhan fwyaf o ysgolion ac ysbytai'r GIG a ariennir gan y wladwriaeth sy'n talu ardrethi. Mae hwn yn faes y gellid ei ystyried yn y dyfodol.

Eiddo gwag

Mae rhyw fath o ryddhad ardrethi i berchenogion eiddo gwag wedi bod yn rhan o ardrethi annomestig ers eu cyflwyno yn 1990. Mae llywodraethau wedi defnyddio rhyddhad mewn ffyrdd amrywiol dros y blynyddoedd, weithiau fel sbardun i ddylanwadu ar ymddygiad ac annog perchenogion eiddo gwag i'w defnyddio unwaith eto. Mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag yn rhoi rhyddhad am 3 neu 6 mis pan fydd eiddo yn mynd yn wag, er mwyn cefnogi'r perchennog tra bydd yn chwilio am denant newydd. Wedi hynny, mae'r ardrethi llawn yn daladwy ond mae rhai eithriadau, er enghraifft eiddo o dan werth ardrethol o £2,600 ac adeiladau rhestredig. Yn 2008 y cafodd y cynllun ei ddiwygio'n sylweddol ddiwethaf, a hynny er mwyn cynyddu'r ardrethi sy'n daladwy ar eiddo gwag o 50% o'r atebolrwydd i dalu i 100%, yn dilyn argymhellion gan Ymchwiliad Lyons yn 2007.

Mae dystiolaeth o darfu ar y farchnad eiddo oherwydd COVID-19 yn dod i'r amlwg ac mae'n fwy tebygol ar hyn o bryd fod rhesymau dilys pam mae eiddo yn wag am gyfnodau hwy nag arfer. Efallai fod maint y cymorth ariannol sy'n cael ei roi i fusnesau yn cuddio effeithiau'r pandemig yn y tymor canolig a'r tymor hwy o ran nifer yr eiddo gwag. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa a'r trefniadau rhyddhad ardrethi. Roedd rhai o'r newidiadau a gynigir ar gyfer y cynllun hwn o fis Ebrill 2022 yn ymwneud â thwyll ac osgoi trethi ac fe'u trafodir yn ddiweddarach. Erys y ffordd y trinnir eiddo gwag yn elfen bwysig o unrhyw system ardrethi annomestig ddiwygiedig.

Diwygiadau posibl eraill

Diwygiadau mwy radical

Mae rhai syniadau a fyddai'n wahanol i ddyluniad y system bresennol ond eto sy'n dal yn gyson â'r cysyniad cyffredinol o dreth eiddo leol. Mae'r rhain yn cynnwys troi ardrethi annomestig yn system â bandiau fel y dreth gyngor, a allai eu gwneud yn llai cymhleth, caniatáu ar gyfer cyfraddau treth graddoledig a'i gwneud yn bosibl i ddarparu i ryw raddau ar gyfer newidiadau yn y farchnad rhwng ailbrisiadau. Yr her yw penderfynu ar nifer y bandiau y bydd eu hangen a'r trothwyon gwerth, gan fod eiddo annomestig yn llawer mwy amrywiol nag eiddo domestig. Byddai angen ystyried a yw'n ddichonadwy symleiddio'r broses brisio o ystyried hanes ardrethi ac a fyddai system â bandiau yn cynnig unrhyw fanteision mewn gwirionedd. O gofio pa mor hen yw ardrethi fel system gwerth arwahanol, efallai na fyddai diwygiad o'r fath yn dderbyniol i'r gymuned fusnes.

Mae amrywiol adolygiadau wedi ystyried a ddylai gwerthoedd ardrethol fod yn seiliedig ar werthoedd cyfalaf yn hytrach na gwerthoedd rhentu. Esboniodd cais mwyaf diweddar Trysorlys EM am dystiolaeth fod rhai gwledydd ac awdurdodaethau yn seilio trethi eiddo annomestig ar werthoedd cyfalaf. Mae'r dreth gyngor hefyd yn rhannol seiliedig ar werthoedd cyfalaf. Gall hyn ateb rhai o'r beirniadaethau nad yw'r dull rhenti blyneddol safonol yn adlewyrchu'r rhenti a delir mewn gwirionedd. Byddai angen ystyried yn fanwl i ba raddau y byddai tystiolaeth reolaidd o werthoedd cyfalaf ar gael ar gyfer rhai sectorau. Mae adolygiad Trysorlys EM yn nodi pryderon ynglŷn â newid yr atebolrwydd i dalu i'r perchennog yn hytrach na'r meddiannydd fel rhan o'r newid hwn, ond, nid oes angen i hyn ddigwydd fel y dangoswyd gan y dreth gyngor sy'n seiliedig ar werth cyfalaf a'r meddiannydd.

Cymell buddsoddiad

Un feirniadaeth gyffredin o ardrethi annomestig yw eu bod yn datgymell busnesau rhag ehangu a buddsoddi. Mewn cysylltiad â hyn, trafododd y Panel Ardrethi Busnes (2015) y baich trethiannol ac ai'r perchennog sy'n ei ysgwyddo, ynteu'r meddiannydd a hynny ar ffurf rhenti uwch neu is. Awgrymodd y panel fod gostyngiadau dros dro mewn ardrethi er mwyn cymell twf yn debygol o fod yn fanteisiol i berchenogion (am fod rhenti yn aml yn cael eu gosod am sawl blwyddyn ar y tro), ac mae mesurau parhaol yn debygol o fod yn fanteisiol i berchenogion a landlordiaid ar ffurf gwerthoedd cyfalaf uwch a rhenti uwch.

Mae'r Alban wedi gweithredu cynllun Rhyddhad Cyflymu Twf Busnes ers 2018 ac mae'n bwriadu ei ehangu o fis Ebrill 2021. Mae'n rhoi cymorth ar gyfer eiddo newydd ei adeiladu ac eiddo sydd wedi cael ei estyn neu ei wella. Lle mae eiddo wedi cael ei estyn neu ei wella, ni chaiff y cynnydd yn y gwerth ardrethol ei godi am 12 mis. Yn ei Chyllideb ar gyfer 2021-22, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban y byddai'n ychwanegu at y rhyddhad hwn er mwyn cwmparu unrhyw gynnydd o ganlyniad i newid defnydd am 12 mis. Mae hefyd yn bwriadu estyn cyfnod y rhyddhad ar gyfer eiddo gwag a adeiladwyd o'r newydd i dair blynedd.

Yng Nghymru, rydym wedi gweithredu amrywiol gynlluniau yn flaenorol gyda'r nod o gymell hapddatblygiadau neu aifeddiannu eiddo gwag, e.e. y cynllun Ar Agor am Fusnes a'r cynllun Datblygiadau Newydd rhwng 2013 a 2016. Caewyd y cynlluniau oherwydd y nifer bach a oedd yn eu defnyddio, a daethpwyd i'r casgliad bod cynlluniau rhyddhad ardrethi at ddibenion o'r fath yn ysgogwyr gwan. Efallai y bydd cynlluniau i gymell twf busnes yn ystyriaeth ar gyfer system yn y dyfodol. Mae'n bosibl hefyd y tybir y bydd yn symlach ac yn fwy effeithiol cyflawni'r nod hwn drwy ddewisiadau polisi eraill, megis cymhellion ariannol ar wahân, penderfyniadau cynllunio a buddsoddiad wedi'i dargedu mewn seilwaith.

Cysondeb o ran bilio, gwell llwyfannau

Mae'r broses o dalu ardrethi yn un arferol i lawer o dalwyr ardrethi ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dewis talu drwy randaliadau awtomatig neu fel cyfandaliad, gan ei gwneud yn dreth gymharol effeithlon i'w chasglu. Mae rhai wedi galw am fwy o gysondeb a thryloywder yn y broses filio a thynnodd ein hadolygiad darganfod digidol yn 2020 sylw at rai materion. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fformat safonol ar gyfer biliau ardrethi a baratoir gan bob cyngor, heblaw am rai darnau o wybodaeth ragnodedig y mae'n rhaid ei chynnwys. Oherwydd cymhlethdod y system a nifer y rhyddhadau ac ati, gall biliau fod yn anodd eu deall ac maent yn anghyson. Mae gan bob cyngor ei restr ardrethi leol ei hun, sy'n golygu bod cwmnïau mawr sy'n gweithredu mewn sawl ardal yn cael biliau ar wahân ar gyfer eiddo ym mhob ardal. Gellid rhoi rhywfaint o ystyriaeth yn y dyfodol i wella profiad talwyr ardrethi ochr yn ochr â moderneiddio digidol.

Lleihau nifer yr achosion o osgoi trethi

Mae cyfraddau osgoi ac efadu trethi yn is ar gyfer trethi eiddo na threthi eraill oherwydd natur weladwy ac ansymudol yr eiddo y codir treth arno. Serch hynny, mae problemau o ran ardrethi annomestig yn bodoli, yn enwedig mewn perthynas â chwmnïau cragen, rhyddhad elusenol a rhyddhad eiddo gwag. Bu'n uchelgais gan Lywodraeth Cymru ers dechrau tymor y Senedd hon i fynd i'r afael â thwyll ac osgoi ardrethi annomestig ac mae'n rhoi pecyn o fesurau ar waith. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi pwerau ymchwilio cryfach i gynghorau, gan gynnwys y gallu i gynnal archwiliadau o eiddo a gofyn am wybodaeth gan dalwyr ardrethi ac eraill. Mae'r Ddeddf hefyd yn paratoi'r ffordd ar gyfer dyletswydd gyfreithiol newydd ar dalwyr ardrethi i hysbysu cynghorau am newid yn eu hamgylchiadau, fel y mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o drethdalwyr ei wneud o dan y rhan fwyaf o gyfundrefnau treth. Bwriedir cyflwyno rhagor o reoliadau i ddwyn y ddyletswydd hon i rym o fis Ebrill 2022.

Mae rhagor y gellid ei ystyried mewn perthynas ag osgoi ardrethi megis creu Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi Trethi. Ymgynghorwyd ar hyn yn 2018 gyda'r nod o ddatblygu deddfwriaeth yn y dyfodol ar ôl i'n mesurau eraill gael eu rhoi ar waith. Byddwn hefyd yn gallu dysgu gwersi o gyflwyno Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi Trethi yn yr Alban yn 2020. Byddai rheol gyffredinol ar atal osgoi trethi yn gymwys i'r rhai sy'n cymryd camau i osgoi talu eu trethi a'r rhai sy'n hyrwyddo cynlluniau osgoi trethi. Mae Rheol Gyffredinol ar Atal Osgoi Trethi eisoes ar waith ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru.

Yr hyn a ddysgwyd gennym

Mae llawer i'w ystyried pe theimlid mai system gyffredinol ardrethi annomestig oedd y dull mwyaf priodol o godi refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol yng Nghymru yn y dyfodol. Daeth Barclay (2017) i'r casgliad "some form of property tax is still an appropriate way to fund the local services provided by councils, as the whole of society benefits from the services they provide". Nododd y Panel Ardrethi Busnes (2015) fod angen i'r llywodraeth yn y dyfodol benderfynu beth yw lle arfaethedig ardrethi annomestig ar y sbectrwm o godi refeniw sefydlog ac fel adnodd a all fod yn hyblyg i sbarduno twf economaidd. Dadleuodd Lyons (2007) "changes to business taxation can provide greater local flexibility for communities to invest in themselves and in the infrastructure needed to support growth, and improved incentives for the efficient use of land".

Lleoliaeth

Byddai'n fuddiol pe bai mwy o ymwybyddiaeth bod system cyllid llywodraeth leol yn gyfraniad y mae'r gymuned fusnes a sefydliadau eraill yn ei wneud tuag at y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio yn yr ardal lle maent yn gweithredu. Mae hyn yn bosibl oherwydd eu natur fel treth eiddo. Mewn gwrthgyferbyniad â threth sy'n seiliedig ar enillion neu elw, gellir creu cysylltiad cliriach rhwng y dull o gynhyrchu'r dreth a'r nwyddau neu'r gwasanaethau y mae'r refeniw wedyn yn eu hariannu. Mae cymunedau busnes a chyflogwyr eraill nid yn unig yn cael budd uniongyrchol o wasanaethau megis plismona a seilwaith trafnidiaeth, ond yn fwy cyffredinol drwy weithluoedd medrus ac ardaloedd atyniadol.

Mae'n briodol cydnabod y gall cryfder y cysylltiad â democratiaeth leol gael ei wanhanu gan nodweddion penodol, megis cyfuno a'r gyfradd dreth genedlaethol. Gall ardrethi annomestig gael eu hystyried yn dreth genedlaethol a gesglir 'ar ran' Llywodraeth Cymru, er gwaethaf yr hanes o fod yn dreth leol ers 30 mlynedd a'r ffaith bod yr holl refeniw yn cael ei ddosbarthu i ariannu gwasanaethau lleol. Gallai'r cyfuniad o nodweddion lleol a chanolog y system gael eu hailystyried yn y dyfodol. Mae llawer o opsiynau y gellir dewis o'u plith a bydd angen i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol fod yn glir ynglŷn â'u nodau ar y cyd.

Fodd bynnag, mae ailystyried y nodweddion hyn yn gofyn am gyfaddawdu amlwg o ran tegwch rhwng cynghorau. Os mai creu systemau teg a graddoledig yw ein prif nod, mae'n debygol y bydd angen rhywfaint o ailddosbarthu o hyd o ran ardrethi annomestig yn y dyfodol. Cymysg yw'r dystiolaeth o ran a yw mesurau megis cadw ardrethi yn lleol mewn mannau eraill wedi bod yn gymhelliant i dwf. Ym marn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, mae'n ymddangos na fyddai'r cysyniad o gadw ardrethi ar ei ffurf lawnaf yn fanteisiol i sylfaen drethu benodol Cymru, ei fod yn gymhleth a'i fod yn creu risgiau anghymesur. Gallem brofi cymhellion twf ar raddfa lai yn seiliedig ar ardaloedd diffiniedig lle mae tystiolaeth o effeithiau cadarnhaol. Rydym yn dal yn ymrwymedig i'r dull 'rhannu ac ennill' sy'n gysylltiedig â Bargeinion Dinesig a Thwf.

Mae [Canolfan Llywodraethiant Cymru](#) yn dadlau y dylai unrhyw gymhellion gyd-fynd yn briodol ag amcanion economaidd ehangach Llywodraeth Cymru. Mae polisïau eraill

sy'n ymwneud â'r economi, sgiliau, addysg a thai yn cael dylanwad uniongyrchol ar berfformiad sylfaen drethu Cymru, e.e. rhoi cymhelliant i raddedigion i aros yng Nghymru, neu seilwaith trafnidiaeth sy'n ei gwneud yn bosibl i gymudo i swyddi â chyflog uchel.

Prisio ac apeliadau

Mae i ailbrisiadau amlach fanteision ond nid ydym wedi ymrwymo ar hyn o bryd i hyn yn yr un ffordd â'r gwledydd eraill oherwydd ein hystyriaeth o ddiwygiadau ehangach i gyllid llywodraeth leol. Nid oes fawr ddim tystiolaeth ymarferol sy'n cymharu manteision prisiadau blynyddol o'u cymharu â phrisiadau bob tair blynedd. Ar gyfer y ddau opsiwn, byddai gwerthoedd ardrethol yn dilyn amodau'r farchnad yn agosach a allai eu gwneud yn fwy derbyniol ac yn decach, ond ni fyddai hyn o reidrwydd yn arwain at newid llai o faint mewn biliau i dalwyr ardrethi bob tro. Fel rydym wedi dysgu o'r ymchwil i ailbrisiadau dreth gyngor, mae'r canlyniadau yn amrywio yn dibynnu ar y cyfnod a ddewisir, y data sydd ar gael a faint o amser y mae'r ymarfer yn ei gymryd.

Efallai y byddai tueddiadau economaidd yn y tymor canolig a'r tymor hwy yn llai tebygol o effeithio ar brisiadau blynyddol ond nid yw hynny'n wir am ddiwydiadau ysgytwol sydyn, megis yr Argyfwng Ariannol Byd-eang a phandemig y coronafeirws, ond gallai ailbrisiadau gael eu gohirio yn yr achosion hynny nes bod adferiad. Ni allwn brofi a fyddai prisiadau amlach yn dileu'r angen am gynlluniau rhyddhad trosiannol. Mae'n debygol y bydd unrhyw ailbrisiad yn cael cryn effaith ar rai talwyr ardrethi, er cyn amled.

Mae'r dulliau gweithredu mewn rhannau eraill o'r DU yn cadarnhau y dylem barhau i ystyried gofynion prisio ac apeliadau sydd wedi'u teilwra i Gymru. Mae hawl trethdalwyr i apelio yn hanfodol er mwyn sicrhau uniondeb a thegwch systemau trethi lleol. Gellir gwneud gwelliannau graddol yn y byrdymor a'r tymor canolig ond bydd angen i ddewisiadau ar gyfer systemau apelio yn y dyfodol gael eu llywio gan ddiwygiadau ehangach.

Mae prisio ac apeliadau yn feysydd allweddol i'w diwygio os bydd llywodraethau'r dyfodol am gadw system o ardrethi annomestig sy'n debyg yn fras i'r system bresennol. Byddai hyn ochr yn ochr â thrawsnewid digidol a'n diddordeb mewn dulliau prisio amgen ar gyfer y dreth gyngor fel y'u hamlinellir ym Mhennod 7. Fel y mae Pennod 9 yn esbonio'n fanylach, nid yw systemau gweithredol na systemau TGCh Asiantaeth y Swyddfa Brisiadau wedi'u cyflunio ar hyn o bryd i gynnal prisiadau neu ddefnyddio dulliau ar wahân i Gymru na rhai amlach na Lloegr, ond mae proses moderneiddio TGCh drawsnewdiol yn mynd rhagddi. Bydd angen inni gydbwyso'n ofalus rhwng yr hyn sy'n ddichonadwy ymarferol a'r hyn sy'n bosibl wrth deilwra ein hanghenion.

Rhyddhad Ardrethi

Mae rhyddhad yn gymhorthdal ariannol sylweddol o bwrs y wlad ac felly mae'n briodol ei fod yn cael ei adolygu'n barhaus o ran diben ac effaith. Mae'n rhaid inni sicrhau ei fod yn cyrraedd y rhai y bwriadwn eu cynorthwyo a'i fod ond ar waith gyhyd ag sy'n angenrheidiol. Er bod ein rhyddhadau yn cael eu hariannu'n llawn, drwy roi rhyddhad, gellir rhoi baich cymharol uwch ar drethdalwyr nad ydynt yn gymwys. Mae ardrethi

annomestig yn dreth lle na fydd hanner yr holl dalwyr ardrethi yn talu unrhyw dreth o gwbl. Mae'n gwrthgyferbynnu â thua 16% o sylfaen drethu'r cyngor.

Mae'r amrywiaeth o gynlluniau a meini prawf o fewn pob cynllun yn gwneud gwaith polisi, deddfwriaeth a threfniadau gweinyddu yn fwy cymhleth. Yng Nghymru, mae rhai rhyddhadau yn gweithredu drwy'r gronfa genedlaethol, mae eraill yn gweithredu drwy gyllid grant, mae rhai yn cael eu rhagnodi mewn deddfwriaeth ac mae eraill yn seiliedig ar wneud cais. Oherwydd y cymhlethdod hwn a hirhoedledd y system ardrethi, mae'n anodd canfod a yw'r trefniadau yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ar hyn o bryd. Mae adolygiad ac ymarfer i gydgrynhoi'r trefniadau (gan gynnwys esemptiadau) yn opsiwn pe bai system ardrethi annomestig sy'n debyg yn fras i'r system bresennol yn parhau.

Gweinyddu

Mae llawer o argymhellion adolygiadau blaenorol yn canolbwyntio ar wella profiad talwyr ardrethi a'r ffordd y gweinyddir y system. Gallai'r rhain gael eu rhoi ar waith ar eu pen eu hunain neu ochr yn ochr â newid ar raddfa fwy, yn enwedig os bydd angen moderneiddio digidol cyn cyflwyno diwygiadau eraill. Byddai'n rhaid cydgynhyrchu â chynghorau a thalwyr ardrethi er mwyn sicrhau llwyddiant y gwelliannau hyn. Byddwn yn parhau i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael â chyfraddau osgoi trethi a monitro ymddygiadau dichellgar newydd sy'n dod i'r golwg.

Gweithredu

Er mwyn cyflwyno rhai o'r newidiadau mwyaf radical i'r system bresennol bydd angen cryn dipyn o ddeddfwriaeth sylfaenol newydd, er enghraifft, mwy o leoliaeth a newid sylweddol yn y broses brisio neu'r dyluniad bras o werth arwahanol a lluosydd. Bydd angen Cydsyniad y Goron ar gyfer diwygiadau a fyddai'n gyfystyr ag addasu'r swyddogaeth brisio. Mae'n debygol y byddai'n cymryd rhwng pump a deng mlynedd i gyflwyno diwygiadau o'r fath. Byddai modd cyflawni newidiadau ar raddfa lai, megis gwelliannau gweinyddol a newidiadau i'r cynlluniau rhyddhad yn ystod tymor nesaf y Senedd.

Meysydd ar gyfer gwaith pellach

Y meysydd allweddol i'w hystyried ymhellach pe bai'r ardrethi annomestig yn cael eu cadw fyddai:

- Ystyried canlyniad Adolygiad Sylfaenol Trysorlys EM o Ardrethi Busnes, a ddaw i ben yn ystod hydref 2021 ac unrhyw oblygiadau o ran cyflymder newidiadau yng Nghymru;
- Monitro effaith COVID-19 ac ymadael â'r UE ar sylfeini trethu lleol a thalwyr ardrethi;
- Ymchwilio i'r awydd am fwy o leoliaeth a'i manteision, gan wneud dadansoddiad penodol o'r effeithiau yng Nghymru, yn enwedig yng ngoleuni effeithiau'r pandemig yn y dyfodol;
- Parhau â'n gwaith ar ddichonoldeb, gan edrych ar yr hyn a fyddai ynghlwm wrth ddatblygu prisiadau a swyddogaethau apelio pwrpasol i Gymru;

- Deall effeithiolrwydd cynlluniau rhyddhad a goblygiadau newidiadau i dalwyr ardrethi; Ystyried cydgrynhoi a chynnal dadansoddiad manylach o ymddygiadau;
- Cynnal dadansoddiad llawnach o'r gofynion deddfwriaethol a datganoli;
- Cynnal ymchwil gymdeithasol ac ymddygiadol sy'n benodol i Gymru, gan ystyried ymwybyddiaeth, derbyniad ac agweddau tuag at ddiwygiadau.

9. Crynodeb o'r Canfyddiadau

“Land and property have been taxed for centuries, certainly for longer than income, and they continue to form an important part of the tax base in most advanced economies” Mirrlees, 2011.

Mae mwy a mwy o bobl o'r farn y gallai pandemig y coronafeirws arwain at newid sylweddol mewn anghydraddoldeb a fydd yn para dipyn yn hwy na'i effeithiau uniongyrchol. Mae llawer wedi dioddef colledion ariannol, iechyd gwaeth a chanlyniadau addysg gwaeth. Mae'r argyfwng hinsawdd a'r twf mewn poblogaeth yn ymddangos ar y gorwel ychydig y tu ôl i'r pandemig, gan beri i arweinwyr cyrff cyhoeddus ailfeddwl blaenoriaethau a newid i ddulliau atal yn hytrach na gwella. Mae'n rhaid inni liniaru effeithiau anghymesur ar y rhai ag incwm isel, menywod, pobl anabl a phobl o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae rôl llywodraeth leol yn hollbwysig yn yr ymateb ar y cyd. Bydd ei system gyllid yn gwneud cyfraniad gwerthfawr.

Mae casglu cyfraniadau rheolaidd oddi wrth y boblogaeth leol i ariannu gwasanaethau ar gyfer grwpiau penodol yn dyddio'n ôl i Gyfraith y Tlodion Oes Elisabeth yn y 1600au. Mae'r fersiynau presennol o drethiant lleol sy'n seiliedig ar eiddo wedi'u gwreiddio yn Neddf Ardrethi Cyffredinol 1967, deddf a oedd yn cydgrynhoi dros 30 o statudau ynglŷn â chyfraniadau lleol i wasanaethau. Bu llawer o newidiadau i rôl llywodraeth leol ers hynny ond erys ei diben creiddiol yr un fath: cynrychioli ei phobl a llywodraethu ar eu rhan; a phenderfynu ar wasanaethau cyhoeddus lleol i'r rhai mewn angen.

Drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rydym yn adeiladu llywodraeth leol gydnerth ar wedd newydd i genedlaethau'r dyfodol. Mae casgliad dylanwadol Layfield o 45 mlynedd yn ôl yn dal yn berthnasol heddiw: bod y ffordd y dylunnir systemau cyllid yn dibynnu ar y berthynas rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, a beth yw rôl llywodraeth leol. Roedd yn hyrwyddo llywodraeth gyfrifol ac atebol ar bob lefel, a oedd yn cyd-fynd â'r cyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau. Ni chynigiodd Layfield ddau opsiwn ar y naill begwn neu'r llall (canolog yn erbyn lleol) fel y'i camddehonglir yn aml. Yn hytrach, dangosodd sbectrwm, gan ddadlau o blaid partneriaeth wirioneddol, gydag eglurder rhwng lefelau llywodraethu ac felly hefyd rhwng lefelau codi cyllid.

Mae'r rhan fwyaf o'r ddogfen hon yn ystyried trethi lleol fel elfennau allweddol o gyllid sy'n ennyn cryn dipyn o drafodaeth. Mae newidiadau yn effeithio ar y system gyfan: y ffordd y dosberthir grantiau, fforddiadwyedd cymorth i grwpiau penodol a chydbwysedd cyllid rhwng yr hyn a ddarperir yn ganolog a'r hyn a godir yn lleol. Mae sefyllfa gyllidol Cymru yn y DU yn cyfyngu ar ddiwygiadau i elfennau eraill o'r system, ond eto rydym wedi diogelu cyllid llywodraeth leol cymaint â phosibl yn ystod tymor y Senedd hon. Mae gwaith pwysig arall yn gysylltiedig â hyn, gan gynnwys ar drethi datganoledig a thirwedd cyllid gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Mae damcaniaethau eraill ynglŷn â modelau economaidd i'w hystyried hefyd, megis twf sy'n rhoi gwerth ar

natur fel ein hased mwyaf, lle y caiff economïau eu hailddiffinio ar sail canlyniadau iechyd a llesiant. Mae [Adolygiad Dasgupta](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn amlinellu sut i drethu effeithiau niweidiol gweithgarwch economaidd a chymorthdalwyr effeithiau buddiol. Mae model o'r fath yn gofyn am newid byd-eang, ond eto gallai'r egwyddorion gael eu hystyried ar ffurf gulach mewn perthynas â dewisiadau cyllidol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Mae'r diwygiadau a amlinellir yn y ddogfen hon yn cynnig dewisiadau a allai gyfrannu at Gymru decach, fwy cyfartal a gwyrddach. Mae cyfleoedd i gydnabod ymhellach allu llywodraeth leol fel gwarcheidwaid ariannol a gweinyddwyr trethi. Mae cyfleoedd hefyd i foderneiddio swyddogaethau allweddol a meithrin mwy o ymwybyddiaeth ymhlith dinasyddion. Er ei bod yn tynnu sylw at y gallu i gyflawni amrywiaeth o amcanion polisi, mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi'r risgiau a'r rhwystrau i ddiwygio. Bydd angen i'r dulliau amgen fod yn amlwg well na'r trefniadau presennol, nid dim ond yn wahanol.

Y pum uchelgais

Ar ddechrau'r ddogfen hon rydym yn nodi pum uchelgais ar gyfer system gyllid i lywodraeth leol yn y dyfodol: tecach, lleol, cynaliadwy, symlach a dealladwy. Mae ein myfyrdodau cyffredinol ar yr holl opsiynau sydd ar gael mewn perthynas â'r uchelgeisiau hyn fel a ganlyn:

TECACH

Ymdrechu i sicrhau trefniadau codi refeniw mwy graddoledig lle y bo modd, a mwy o degwch o ran y ffordd y caiff trethdalwyr eu trin. Ni ddylid peryglu tegwch daearyddol yng Nghymru a rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol.

Yr opsiwn mwyaf graddoledig fyddai seilio'r broses o godi refeniw lleol ar incwm trethdalwyr, ond o ran ei roi ar waith, dyma'r opsiwn a ddeallir leiaf ac mae'n dwyn mwy o risgiau o ran osgoi trethi, yn enwedig mewn perthynas â chyfoeth alltraeth neu gudd. Mae treth gwerth tir leol yn ymddangos yn addawol o'i chymharu â'r systemau presennol, pe bai modd bodloni'r gofynion o ran seilwaith data. Drwy ailbrisio ac ailfandio'r dreth gyngor, gellid cyflawni treth llai anraddoledig neu fwy cyfrannol mewn perthynas â chyfoeth eiddo yn hytrach nag incwm. Ni fyddai diwygiadau ar raddfa fach i'r dreth gyngor yn gwireddu'r uchelgais hon ar eu pen eu hunain. Mae'r ddadl ynglŷn â thegwch ardrethi annomestig yn tueddu i ganolbwyntio ar y gyfradd dreth ac ar dueddiadau newydd ymhlith defnyddwyr. Mae'r angen am refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol a chyfyngiadau datganoli yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd modd ymdrin â'r materion hyn yn llawn, ond gellid cyfrannu drwy ehangu'r sylfaen drethu. Mae pob diwygiad yn gofyn am ystyried 'sgil effeithiau' newid, h.y. y baich trethiannol gwirioneddol a chyfalafu cyfoeth. Bydd pob diwygiad yn gofyn am ailddosbarthu'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn sicrhau tegwch ac nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb.

LLEOL

Cryfhau yn hytrach na gwanhau democratiaeth, ymreolaeth a hyblygrwydd lleol. Ategu'r diwygiadau ehangach i lywodraeth leol, sy'n ei gwneud yn bosibl i drawsnewid gwasanaethau ac annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn democratiaeth leol.

Mae pob opsiwn yn cynnig yr hyblygrwydd i wireddu'r uchelgais hon, yn dibynnu ar y dewisiadau cymhleth a wneir wrth ddatblygu polisi, e.e. ar bennu cyfraddau treth, eu casglu a'u gweinyddu. Mae manteision gwybodaeth ac arbenigedd lleol o dan y trefniadau presennol yn amlwg. Byddai angen i'r llywodraeth ystyried pa elfennau sy'n gofyn am gysondeb cenedlaethol er mwyn sicrhau tegwch, a gallai hyn gynnwys meysydd megis cymorth i'r rhai sy'n llai abl i fodloni eu rhwymedigaethau. Byddem yn anelu at gydgyhyrchu system ddiwygiedig â llywodraeth leol cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol. Bydd y broses o roi Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith yn ysgogi rhagor o weithgarwch i ddarparu gwasanaethau ar sail ranbarthol a chydweithredol, ynghyd â gweithgarwch cynyddol y Bargeinion Dinesig a Thwf. Ni waeth pa opsiynau a ddewisir yn y dyfodol, bydd angen i systemau cyllid ddatblygu dros amser i ystyried hyn a haenau newydd o wneud penderfyniadau ynglŷn â blaenoriaethau gwario ac anghenion.

CYNALIADWY

Diogelu cynaliadwyedd y gwasanaethau i gymunedau yn y dyfodol drwy ffrydiau cyllido sefydlog. Diogelu ffyniant a thwf mewn economïau lleol.

Er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, bydd angen i unrhyw ddiwygiadau fod yn refferni niwtral ar lefel Cymru gyfan ar gyfer llywodraeth leol. Bydd angen hefyd iddynt gyflwyno twf graddol yn y sylfaen drethu. Gallai pob un o'r opsiynau gyflawni hyn ond gydag effeithiau amrywiol iawn ar bobl a lleoedd. Gallai'r broses o geisio systemau graddoledig a pharhau i godi lefelau da o refferniw ar yr un pryd ddigwydd yn arafach pe dymunid. Mae cyfnodau pontio'n raddol yn bosibl ond yn aml yn gostus. Bydd system y mae cylchoedd economaidd yn effeithio fwy arni megis treth incwm leol yn arwain at effeithiau niweidiol yn ystod dirwasgiadau a digwyddiadau ysgytwol, ond gellid dadlau y byddai modd cyflwyno mesurau cyllidol eraill yn yr achosion hyn. Mae effeithiau yn cael eu lliniaru i ryw raddau yn achos trethi tir ac eiddo. Mae cyfaddawd amlwg rhwng cynnal refferniw ar gyfer gwasanaethau ac ysgogi twf economaidd drwy ryddhad trethi. Drwy gynnal gwasanaethau gwneir cyfraniad enfawr at ffyniant drwy ddarpariaeth addysg o safon, tai digonol, diogelwch y cyhoedd, gwasanaethau llesiant a chydlyniant cymunedau.

SYMLACH

Ymdrechu, lle y bo modd, i leihau cymhlethdod yn y ffordd y caiff ein systemau eu dylunio yn y dyfodol. Dylai trefniadau gweinyddu trethi lleol fod yn effeithlon gyda chostau cymesur.

Mae cyfaddawd i'w chyrraedd rhwng systemau targededig a chymhleth ar un llaw a'r rhai symlach ond amhendant ar y llaw arall. Mae llawer o'r agweddau cymhleth ar y system yn deillio o'r myrdd o feini prawf sy'n pennu'r atebolrwydd i dalu, cyfraith achosion sy'n tyfu a threfniadau prisio. Mae treth gwerth tir yn cynnig cyfle i anelu at leihau cymhlethdod o'r fath o leiaf, ond y gwir yw y gall y rhesymeg dros fwy o fanwl gywirdeb fodoli o hyd (oherwydd dadleuon ynglŷn â thegwch). Byddai cymhlethdod treth incwm leol yn deillio o'i diffiniad o incwm trethadwy ac i ba raddau y byddai data manwl gywir ar gael i gynghorau. Heb ddata, byddai asesiadau lleol ar sail prawf modd yn creu llawer mwy o faich gweinyddol. Gallai opsiynau sy'n seiliedig ar fersiynau o'r systemau presennol gael eu symleiddio drwy gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth ac adolygu disgowntiau, esemptiadau a rhyddhadau. Fodd bynnag, byddai system gwerth arwahanol ar gyfer y dreth gyngor yn fwy cymhleth o ran prisio, gweinyddu ac apeliadau. Ni wyddys i ba raddau y byddai unrhyw system newydd yn mynd yn fwy cymhleth dros amser ac efallai nad oes modd osgoi hynny.

WEDI'I DEALL

Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r trefniadau. Moderneiddio sut y caiff systemau eu cyflwyno a manteisio ar drawsnewid digidol.

Bydd parodrwydd y cyhoedd i dderbyn diwygiadau a'u ddealltwriaeth ohonynt yn cynnwys sawl agwedd ac efallai na fydd hynny'n glir nes bod pobl yn dechrau teimlo eu heffeithiau, h.y. ar ôl eu cyflwyno. Mae trethi lleol yn amhoblogaidd ond yn hirsefydledig. Gan y bydd pob opsiwn yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd ac felly gyfnodau o gryn ymgysylltu â'r cyhoedd, mae cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o ddiben ac effaith diwygiadau. Bydd system gwbl newydd yn fwy tebygol o chwalu'r camsyniadau sydd wedi bodoli ers amser maith. Fodd bynnag, bydd yn fwy anodd inni roi enghreifftiau o'r union effeithiau ar unigolion o ganlyniad i'r syniadau ynglŷn â threth gwerth tir a threth incwm leol. Mae maes gweinyddu trethi a systemau cyllid lleol yn opsiwn posibl addawol ar gyfer trawsnewid digidol yn y dyfodol agos, ni waeth pa opsiwn a ddewisir, ond efallai y bydd opsiynau sy'n debyg yn fras i'r systemau presennol yn llai o sbardun i foderneiddio.

Mae'n fater mwy na threthi

Mae trethi lleol yn cyfrannu tua thraean o refeniw llywodraeth leol ac maent yn rhan annatod o'r system gyllid ehangach. Mae'r diagram yn Atodiad 2 yn amlinellu gwahanol elfennau'r system fel yr oedd hi cyn pandemig COVID-19. Mae'r system yn gweithio ar sail y dull y mae llywodraeth leol yn ei ddilyn wrth bennu cyllidebau

blynyddol. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i brif gynghorau a chyrff praeseptio bennu cyllideb gytbwys bob blwyddyn, sy'n golygu na ellir cael gorwariant na thanwariant sylweddol yn erbyn cynlluniau (ac eithrio'r defnydd doeth o gronfeydd wrth gefn). Mae hon yn un o egwyddorion craidd llywodraeth leol fel gwarcheidwad arian cyhoeddus yn ei rhinwedd ei hunan, ar wahân i Lywodraeth Cymru.

Drwy gydol y ddogfen hon, dangosir y bydd y syniadau amrywiol ar gyfer diwygio yn effeithio ar y system gyfan. Mae newidiadau mewn refeniw a godir yn lleol yn effeithio ar bŵer gwario ac ar ddosbarthiad y Grant Cynnal Refeniw. I'r gwrthwyneb, mae newidiadau mewn cyllid a ddarperir yn ganolog yn effeithio ar y gofyniad i godi refeniw lleol i fodloni cynlluniau gwario. Bydd diwygiadau'n effeithio ar ddibyniaeth rhai cynghorau ar gyllid grant y llywodraeth. Ceir effeithiau gerio lle mae angen, er mwyn creu cynnydd o 1% mewn cyllideb, codi swm cymharol o tua 3.5% yn y dreth gyngor. Mae'r cyfrannau hyn yn wahanol rhwng ardaloedd cyngor sydd â seiliau treth gwerth uwch ac is ac mae lefelau treth hanesyddol yn dylanwadu arnynt. Mae'r cydbwysedd cywir o ran cyllid rhwng ffynonellau a godir yn lleol ac a ddarperir yn ganolog yn gysylltiedig yn ei hanfod â chwestiynau ynghylch llywodraethiant ac atebolrwydd ehangach.

Mae'r Is-grŵp Dosbarthu, sy'n is-grŵp technegol o Gyngor Partneriaeth Cymru, yn datblygu'r fethodoleg ariannu ar gyfer y setliad refeniw blynyddol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Lle bo angen, bydd y grŵp yn ystyried, maes o law, oblygiadau unrhyw newidiadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon ar y ffordd y caiff y setliad ei adeiladu. Mae'r grŵp hefyd yn ystyried ffyrdd o wella'r fformiwla ariannu yn y tymor canolig i'r tymor hwy, gan fynd i'r afael â materion fel cymhlethdod a'r defnydd o ddata hanesyddol a dibyniaeth arno.

Mae elfennau arwyddocaol eraill o'r system gyllid. Mae cynghorau fel arfer yn codi tua £1.3bn y flwyddyn drwy ffioedd a thaliadau lle y caniateir hynny, ee. parcio, cyfleusterau hamdden, ond mewn rhai achosion rhaid codi'r rhain ar sail adennill costau. Mae gwariant cyfalaf yn elfen bwysig arall o'r system sy'n galluogi buddsoddi mewn asedau, seilwaith a gwella gwasanaethau. Yn ystod tymor y Senedd hon gwnaethom newidiadau i gynyddu hyblygrwydd llywodraeth leol, gan gynnwys defnyddio derbyniadau cyfalaf i ariannu trawsnewid, llacio'r cyfyngiadau ar drafodion cyfalaf benthygiadau, rhannu trafodion cyfalaf a bondiau. Mae dewisiadau lleol ynghylch ariannu cyfalaf yn dibynnu ar fforddiadwyedd refeniw hirdymor a risg.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer cydweithredu rhanbarthol rhwng cynghorau drwy Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae hefyd yn darparu Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i gynghorau, gan eu galluogi i ymrwmo i drefniadau ariannol arloesol, gan gynnwys mentrau masnachol. Felly, gall gwahanol anghenion a phatrymau gwario ddod i'r amlwg dros amser. Mae cyfleoedd hefyd i uno cynghorau'n wirfoddol yn y dyfodol, ac mae'n bosibl y bydd angen ystyried hynny ymhellach mewn perthynas â chyllid. Mae gwariant llywodraeth leol yn amodol ar ofynion llywodraethu ariannol ac archwilio llym i ddiogelu uniondeb y pwrs cyhoeddus a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd angen ystyried y fframwaith mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiadau a ddatblygir yn y dyfodol. Wrth gwrs, bydd angen inni hefyd fonitro effaith digwyddiadau fel y pandemig ac ymadawiad y DU â'r UE ar y system ac asesu a yw effeithiau o'r

fath yn rhai dros dro ynteu a ydynt yn golygu bod angen newidiadau strwythurol yn y tymor hwy.

Mae llawer mwy i'w ystyried mewn perthynas ag elfennau 'nad ydynt yn dreth' yn y system, gan gynnwys a oes rhagor o hyblygrwydd ariannol y gellid ei ddarparu i lywodraeth leol. Cynhelir y trafodaethau hyn yn ystod tymor nesaf y Senedd ochr yn ochr â thrafodaethau am ddiwygio'r dreth leol.

Swyddogaethau prisio yng Nghymru

Un o'n prif uchelgeisiau o ran diwygio yw bod ein systemau yn cael eu teilwra'n well at anghenion ac amgylchiadau Cymru yn y dyfodol, a bod mwy o hyblygrwydd i'r llywodraeth ar y pryd wneud dewisiadau polisi unigryw. Mae hyn yn dibynnu'n fawr ar y gallu i ragnodi'r swyddogaethau prisio. Rydym yn ddiolchgar i Asiantaeth y Swyddfa Brisio am ei hymwneud â'n gwaith diwygio.

Cyflawnir y swyddogaeth brisio ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig yng Nghymru gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, un o asiantaethau gweithredol CThEM, ac felly cyflawnir ei swyddogaeth weinyddol ar sail Cymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gynnal y rhestrau prisio i Gymru, gan reoli perfformiad a newidiadau polisi bob blwyddyn drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth a darparu cyllid. Fodd bynnag, mae prisiadau i Gymru yn gweithredu yng nghyd-destun polisi strategol, gweithredol ac ehangach ac iddo ffocws ar Gymru a Lloegr.

Mae i'r trefniant hwn fanteision ac anfanteision. Mae'r arbenigedd proffesiynol sydd ar gael yn hanfodol i lwyddiant trethiant lleol ac mae arbedion maint yn weinyddol ac yn ariannol. Mae cydberthnasau gwaith rhwng yr Asiantaeth a Swyddogion Llywodraeth Cymru yn hirsefydledig. Fodd bynnag, bu cryn gyfyngiadau ar y dewisiadau polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chylchoedd ailbrisio ar gyfer ardrethi annomestig, er enghraifft, oherwydd materion gweithredol a strategol. Mae penderfyniadau gan Lywodraeth y DU ynglŷn ag ailbrisio ardrethi yn Lloegr, sy'n llywio'r rhan fwyaf o'r gwaith prisio, wedi atal yr Asiantaeth rhag cyflwyno trefniant ar wahân i Gymru. Nid ydym wedi llwyddo i gyflwyno diwygiadau yn ystod tymor presennol y Senedd y byddwn fel arall wedi dymuno eu hystyried yn fanylach ar y cyd ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Rhagnodir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fod Gweinidogion Cymru yn gallu pennu'r rhagbybiaethau a'r egwyddorion o ran sut y cynhelir prisiadau. Mae nifer o hyblygrwyddau yn ymwneud â phrisio ardrethi annomestig yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Byddai llawer o'r syniadau ar gyfer diwygiadau a ddisgrifir yn y papur hwn yn gofyn am newidiadau mawr i weithdrefnau prisio, sy'n gyfystyr ag addasu swyddogaethau CThEM sy'n gofyn am gydsyniad Llywodraeth y DU. Hyd yn oed lle y gellid dadlau bod syniad ar gyfer diwygiad yn dod o fewn yr hyblygrwyddau datganoledig, mae'r profiad diweddar yn awgrymu na fyddai modd cyflwyno syniadau o'r fath yn weithredol.

Mae mathau eraill o drefniadau yn bodoli yn y DU. Cynhelir prisiadau o eiddo yn yr Alban gan Gymdeithas Aseswyr yr Alban, sef sefydliad gwirfoddol sy'n cynnwys aseswyr annibynnol sy'n gyfrifol am rannau gwahanol o'r Alban. Mae pob cyngor yn

yr Alban yn Awdurdod Prisio sy'n penodi aseswyr (mae 14 o aseswyr yn cydweithio rhwng 32 o gynghorau). Yng Ngogledd Iwerddon, cynhelir prisiadau gan y Gwasanaeth Tir ac Eiddo sy'n rhan o Adran Gyllid y Llywodraeth. Mae'n atebol i Weinidogion ac i Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Gan fod systemau trethi lleol wedi mynd yn fwyfwy gwahanol rhwng y gwledydd, efallai y byddai'n ddymunol ystyried a oes manteision i gyflwyno ffurf neu swyddogaeth wahanol ar gyfer prisio yng Nghymru. Wrth fyfyrio ar y syniadau ar gyfer dulliau gweithredu amgen, ni fyddai angen i brisiadau gael eu cynnal gan gorff yn yr un ffordd ag y mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cyflawni'r swyddogaeth hon ar hyn o bryd. Er enghraifft, gallai fod yn agosach i lywodraeth leol (fel yn yr Alban), yn agosach i Lywodraeth Cymru (fel yng Ngogledd Iwerddon), neu o fewn un sefydliad neu fwy sy'n bodoli eisoes. Un ystyriaeth fyddai a ddylai'r swyddogaeth brisio barhau i fod yn annibynnol ar swyddogaethau polisi treth a chasglu treth, fel y mae ar hyn o bryd. Gallai ymarferion ailbrisio cyfnodol hefyd fod yn swyddogaethau ar wahân i'r gwaith o gynnal y rhestrau.

Mae'n amlwg bod y trefniant datganoli presennol yn cyfyngu ar hyblygrwydd ac ymreolaeth Llywodraeth Cymru dros elfennau mawr o'r polisi treth lleol, er bod llywodraeth leol a threthi lleol yn faterion sydd wedi'u datganoli. Mae'r dasg o ddatblygu syniadau ar gyfer trefniadau gwahanol yn un sylweddol, ond yn un a fydd yn cael effaith sylfaenol ar lwyddiant system gyllid llywodraeth leol yn y dyfodol.

Data a gallu digidol

Pa un a fydd Llywodraeth Cymru yn dymuno parhau â'r trethi eiddo traddodiadol yn fras neu newid i opsiynau radical amgen yn y dyfodol, mae ein gwaith wedi dangos bod cyfleoedd gwirioneddol i wella gallu technegol ac mai dyna beth mae trethdalwyr a rhanddeiliaid yn ei ddisgwyl. Dylai gwell rhyngwyneb â defnyddwyr, data amser real, technolegau GIS a llwyfannau gweinyddol mwy modern fod yn nodweddion craidd unrhyw ddiwygiadau. Gwelsom yn uniongyrchol sut mae gallu o'r fath wedi datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban at ddibenion trethi lleol. Mae'r amrywiol ddarnau o ymchwil a amlinellir yn y ddogfen hon yn cadarnhau nad yw'r gofynion o ran data er mwyn rhoi systemau graddoledig ar waith yn cael eu bodloni ar hyn o bryd.

Mae ein harchwiliad o systemau meddalwedd cynghorau yn awgrymu y daw adeg, cyn bo hir, pan fydd angen i gynghorau fuddsoddi mwy mewn llwyfannau amgen ar gyfer gweinyddu trethi, er mwyn lleddfu materion yn ymwneud ag awtomeiddio, mynediad at ddata a chydymffurfio a pholisïau a roddir ar waith. Mae cryn dipyn o weithgarwch trawsnewid digidol eisoes yn mynd rhagddo mewn llywodraeth leol ar gyfer gwahanol wasanaethau. Bydd y **Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Leol** a benodwyd yn ddiweddar yn rhoi arweiniad newydd ar gyfer technoleg ddigidol mewn gwasanaethau lleol. Mae hwn yn adnodd penodol i nodi, rhannu a hyrwyddo dull gweithredu cydgysylltiedig o gyflwyno mentrau digidol ym mhob rhan o lywodraeth leol. Drwy ein Cronfa Trawsnewid Digidol i Lywodraeth Leol, rydym wedi darparu dros filiwn o bunnau yn y flwyddyn ariannol hon i gefnogi gweithgarwch trawsnewid digidol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae **Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru** a sefydlwyd yn 2020 wrthi'n profi set ddrafft o safonau ar gyfer mabwysiadu dulliau digidol mewn cyrff cyhoeddus. Bydd y safonau yn dadlau y dylai pob gwasanaeth ganolbwyntio ar ddefnyddwyr a mabwysiadu dull gweithredu amlddisgyblaethol. I ba gyfeiriad bynnag y bydd diwygiadau i gyllid llywodraeth leol yn mynd, mae'r ymgyrch hon dros ddarpariaeth ddigidol wedi creu momentwm a allai fod yn hynod ddefnyddiol.



CWESTIYNAU ALLWEDDOL I'W HATEB GAN LYWODRAETHAU'R DYFODOL

- Pa fanteision sydd gan y systemau presennol y byddem yn anelu at eu cadw? Beth yw'r materion â blaenoriaeth y dylid mynd i'r afael â nhw?
- Beth ddylai fod yn sail i set o egwyddorion neu ganlyniadau i lywio'r gwaith o ddatblygu polisiau?
- Sut y gallai system gyllid llywodraeth leol ein helpu i gyflawni'r saith nod yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a sefydlu'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy ymhellach?
- A all system gyllid llywodraeth leol gyfrannu at economïau gwyrdd a sylfaenol a chynnal refeniw ar yr un pryd? A allai gynnwys ysgogwyr i liniaru heriau cymdeithasol, megis tlodi tai a datgarboneiddio, heb wanhau diben nac ychwanegu cymhlethdod?
- Sut y gallem archwilio ymwybyddiaeth o ddiwygiadau ac agweddau tuag atynt?
- A fyddai'n fanteisiol cyflwyno un system drethu leol yn lle'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig?
- Os bwriadwn gadw'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig fel trethi lleol ar wahân, i ba raddau y bydd angen i ddyluniad y naill ategu'r llall? Beth yw'r rhesymeg dros drefniadau mwy cyfath neu fwy gwahanol?

Atodiad 1. Agweddau'r Cyhoedd tuag at Drethi Lleol

Gwyddom fod y dreth gyngor yn cael ei derbyn yn gyffredinol ar y cyfan ac rydym wedi nodi hynny yn flaenorol. Mae cyfraddau casglu'r dreth yn uchel, caiff ei gweinyddu gan gynghorau mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, ac mae trethdalwyr yn deall y cysyniad yn fras. Mae hyn hefyd yn wir am ardrethi annomestig yng Nghymru. Fodd bynnag, gwyddom hefyd fod y naill dreth a'r llall yn cael ei hystyried yn annheg a'u bod yn ennyn trafodaethau bywiog a sylwadau negyddol, yn enwedig pan fydd cyfraddau yn cynyddu. Rydym yn dod ar draws llawer o gamdybiaethau ynglŷn â'r ddwy system.

Bydd angen rhoi sylw i hyn os ydym am ddiogelu cyllid llywodraeth leol at y dyfodol ac mae'n un o'r rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud y dreth gyngor yn decach. O ystyried bod y trethi lleol presennol yn effeithiol ar y cyfan, bydd angen i unrhyw opsiynau ar gyfer diwygio, nid yn unig fod yn fwy graddoledig, ond bydd angen iddynt hefyd fod yn amlwg well na'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd. Bydd angen i systemau yn y dyfodol fod yn hawdd eu deall gan y byddai angen inni allu hysbysu aelwydydd, busnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru am unrhyw system dreth newydd mewn ffordd syml. Mae'r agweddau cymhleth ar drethiant lleol yn golygu y gall fod yn anodd cyfleu negeseuon yn effeithiol a gall hyn, yn ei dro, arwain at ymddieithrio ymhlith y rhai y mae'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Ymchwil i agweddau cyhoeddus tuag at drethi lleol

O fyfyrir ar ymchwil flaenorol i agweddau cyhoeddus tuag at drethi lleol, y farn gyffredin yw, er bod y dreth gyngor yn dreth hirsefydledig a chyfarwydd, y gall ei natur anraddoledig a'r annhegwch canfyddedig roi baich ar gyllid llywodraeth leol ac arwain at ganfyddiadau negyddol am gynghorau fel gweinyddwyr ([Ymchwiliad Lyons](#)). Cyflwynwyd y farn hon gan Ymchwiliad Lyons i Lywodraeth Leol ym mis Mawrth 2007.

Awgrymodd Ymchwiliad Lyons hefyd, er bod y cyhoedd yn ymwybodol iawn o'r system treth gyngor bresennol, fod dealltwriaeth y cyhoedd o'r ffordd y mae'n gweithio'n ymarferol yn fwy cyfyngedig. Felly, byddai'n hanfodol, wrth ddiwygio trethiant lleol a rhoi mathau newydd ar waith, fod y ffordd y mae trethi lleol yn gweithio'n ymarferol yn cael ei hesbonio i bobl. Pwysleisir hyn gan astudiaeth arall [Dealltwriaeth y Cyhoedd o Ddatganoli Trethi](#), sef rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru a gynhelir bob blwyddyn, a ganfu mai dim ond pedwar o bob deg aelod o'r cyhoedd oedd yn cydnabod mai cynghorau sydd â'r rheolaeth dros bennu lefelau'r dreth gyngor yng Nghymru. Er bod dealltwriaeth y cyhoedd o drethi datganoledig, a threthi lleol, wedi gwella ar y cyfan yn ôl data arolygon a gafwyd rhwng 2017 a 2020, mae llai na hanner y boblogaeth yn deall y trethi y maent yn eu talu yng Nghymru yn gyffredinol. Bydd angen i ddiwygiadau i drethiant yn y dyfodol yng Nghymru ystyried y ffordd orau o gyfathrebu â threthdalwyr.

Mae'r un astudiaeth yn nodi mai ymhlith pobl ifanc (pobl 18 i 36 oed) a'r rhai heb gymwysterau² y cafwyd y ddealltwriaeth leiaf o drethi lleol, sy'n awgrymu y bydd angen meddwl yn ofalus am gyfleu negeseuon ynglŷn â newidiadau i drethi lleol a'u teilwra at amrywiol gynulleidfaoedd.

Mae [Comisiwn Llywodraeth yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol](#) yn rhoi dadansoddiad cyfoes o safbwyntiau aelodau o'r cyhoedd ar drethi lleol, gan gynnwys yr hyn y dylai system newydd ei flaenoriaethu. Anghytunodd tri chwarter yr ymatebwyr y dylai pawb dalu'r un swm o dreth mewn ymateb i un o'r cwestiynau a ofynnwyd gan yr ymchwilyr. Fodd bynnag, mewn ymateb i gwestiwn gwahanol, cytunodd dros hanner yr ymatebwyr yn fras y dylai'r swm a delir fod yn seiliedig ar incwm. Roedd hanner yr ymatebwyr hefyd yn credu na ddylai biliau trethi lleol fod yn seiliedig ar y defnydd o wasanaethau lleol, gwerth eiddo na thir dan berchenogaeth.

Mewn gwrthgyferbyniad i Ymchwiliad Lyons, canfu Comisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol fod dros hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y system treth gyngor yn hawdd i'w deall a bod dau o bob tri ymatebydd yn teimlo bod talu'r dreth gyngor yn broses syml. Roedd perchenogion tai yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiadau hyn na'r rhai a oedd yn rhentu, gan awgrymu amrywiol lefelau o welededd ar gyfer mathau gwahanol o aelwydydd. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid oedd dau o bob tri ymatebydd yn teimlo bod y system treth gyngor yn deg. Yn benodol, roedd pobl iau (16-34 oed) ar incwm isel a phobl sengl yn llai tebygol o fynegi safbwyntiau cadarnhaol ynglŷn â'r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd o dan 24 oed a thros 65 oed, pobl anabl, pobl a oedd yn byw ar eu pen eu hunain, pobl a oedd yn rhentu a/neu bobl a oedd yn byw ym mandiau treth gyngor A i C yn fwy tebygol o nodi system dreth yn seiliedig ar incwm fel prif flaenoriaeth. I'r gwrthwyneb, roedd pobl a oedd yn ennill cyflogau uchel a/neu'r rhai mewn gwaith llawn amser yn llai tebygol o nodi system dreth o'r fath fel prif flaenoriaeth, gan nodi y byddai'n well ganddynt pe bai trethi lleol yn seiliedig ar werth tir a/neu eiddo. Nid yw hyn yn syndod o bosibl, o ystyried goblygiadau systemau treth penodol i'r rhai sy'n ennill cyflogau uwch.

Dywedodd bron hanner yr ymatebwyr, pe gallent newid unrhyw beth am drethi lleol, mai sail yr atebolrwydd i dalu fyddai hynny. Yr ymateb mwyaf poblogaidd oedd y dylid seilio'r atebolrwydd i dalu ar gyfuniad o eiddo, tir, cyfoeth ac incwm, a'r rheswm dros hyn oedd, drwy ystyried nifer o ffactorau, y byddai'r system yn fwy graddoledig. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r dadansoddiad, o ystyried y gwahaniaeth barn, yn dibynnu ar amgylchiadau pobl, y byddai'n anodd dros ben cysoni pob barn ar drethi lleol a sicrhau dull addas i bawb.

Mae ymchwil arall yn ein hatgoffa y bydd angen i unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol ystyried barn y cyhoedd yn ofalus a dysgu o brofiad blaenorol. Er enghraifft, pan gyflwynwyd y Tâl Cymunedol (neu Dreth y Pen fel y'i gelwid yn fwy cyffredin) yn 1990, cafodd ei feirniadu'n llym gan y cyhoedd ac arweiniodd at anfodlonrwydd sifil ([Jennie Bunt, 2020](#)). Roedd llawer yn credu bod Treth y Pen yn dreth leol annheg am ei bod yn gyfradd safonol a oedd yn cael ei chodi ar bob oedolyn, ni waeth beth oedd gallu pobl i dalu. Felly, cafodd y dreth gyngor a'i disodlodd ei dylunio i fod yn dreth hybrid, yn rhannol seiliedig ar werth eiddo ac yn rhannol seiliedig ar amgylchiadau'r aelwyd, ac roedd yn fwy derbyniol ymhlith y cyhoedd.

Mae ardrethi annomestig yn fwy tueddol o fod yn destun newidiadau polisi mynych am fod y gyfradd genedlaethol yn cael ei phennu bob blwyddyn, bod ymarferion ailbrisio yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd a bod penderfyniadau ynglŷn â chynlluniau

rhyddhad yn cael eu gwneud, sydd fel arfer yn ennyn trafodaeth ymhlith y cyhoedd ynglŷn â thegwch ac effeithiolrwydd y system. Mae Llywodraeth Cymru yn cael cryn dipyn o ohebiaeth gan dalwyr ardrethi a chynrychiolwyr busnesau sy'n dangos bod y dreth yn gymhleth a bod angen ei deall yn well.

Mae llai o ymchwil benodol i'r ymwybyddiaeth o ardrethi annomestig a'u derbynioldeb o gymharu â'r dreth gyngor. Bydd angen ystyried y bwlch hwn mewn tystiolaeth cyn cynllunio ar gyfer diwygio trethiant lleol yn y dyfodol. Er ei fod ond yn canolbwyntio ar elfen o ardrethi annomestig, sef y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach, mae [arolwg diweddar](#) a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cipolwg bach ar y canfyddiadau a'r ymwybyddiaeth ynglŷn ag agwedd bwysig ar y system, a all fod yn sail i ddod i gasgliadau cyffredinol. Er enghraifft, roedd nifer y talwyr ardrethi a allai nodi'r gwahanol fathau o ryddhad ardrethi a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn gymharol fach er bod tua thri chwarter y talwyr ardrethi yn cael rhyw fath o ryddhad ar hyn o bryd. Diffyg ymwybyddiaeth neu wybodaeth ynglŷn â'r cymorth oedd un o'r rhesymau a nodwyd amlaf yng nghanlyniadau'r arolwg am nad oedd talwyr ardrethi yn cael cymorth i dalu ardrethi annomestig.

Bydd angen rhoi rhagor o ystyriaeth i werthuso sut y gellir cyfleu newidiadau i'r system ardrethi annomestig yn glir a chryno. Yn yr un ffordd ag sy'n angenrheidiol ar gyfer y dreth gyngor, y nod fydd gwella dealltwriaeth trethdalwyr o ddiben trethiant lleol i ariannu gwasanaethau cyhoeddus, er budd pawb mewn cymdeithas yn fwy cyffredinol. Mae trethdalwyr wedi mynegi amrywiaeth eang o safbwyntiau ar y ffordd y dylid dylunio a gweithredu trethi lleol. Dylid myfyrio ar y safbwyntiau hyn ac maent yn bwysig o ran datblygu trethi lleol i Gymru yn y dyfodol.

Atodiad 2. Y System Gyfredol

Mae'r diagram hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa fel yr oedd cyn pandemig y coronafeirws.

